


CRONFA LOTERI FAWR

BIG LOTTERY FUND

2014/15

# Adroddiad a chyfrifon blynyddol

# Cronfa Loteri Fawr Adroddiad a chyfrifon blynyddol

## Ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

Wedi'i gyflwyno i Senedd y DU yn unol ag adran 23(3), a pharagraff 21 Atodlen 4A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 a Deddf y Loteri Genedlaethol 2006).

Wedi'i roi gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion Yr Alban ar 20 Gorffennaf 2015.

Wedi'i roi gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon.

I'w argraffu ar 20 Gorffennaf 2015 yn unol â gorchymyn Tŷ'r Cyffredin.

HC 178
SG/2015/79

© Hawlfraint Cronfa Loteri Fawr 2015
Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (mae hyn yn eithrio, pan fyddant yn bresennol) yr Arfau Brenhinol a'r holl logos adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Gronfa Loteri Fawr a phennu teitl y ddogfen. Pan fydd deunydd trydydd parti wedi'i adnabod, mae'n rhaid ceisio caniatâd y deiliad hawlfraint priodol.
Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn Cronfa Loteri Fawr, 1 Plough Place, Llundain EC4A 1DE. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications
ISBN Argraffu 9781474118910
ISBN Gwe 9781474118927

ID 12051509 06/15

Argraffir ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffir yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi



# Cynnwys

Mae ein hadroddiad eleni'n dathlu pobl yn arwain; y rhai sy'n gweithio i wella'u bywydau a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

**Rhan un ein hadroddiad:** Yn yr adran hon rydym yn dathlu llwyddiannau ac yn rhannu storïau o brosiectau a ariannwyd o gwmpas y Deyrnas Unedig.

1. **Edrych yn ôl ar y flwyddyn**
Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
Galluogi pobl i arwain
Tudalennau 6-11

2. **Ein blwyddyn mewn rhifau**
Ystadegau allweddol
Tudalennau 12-15

3. **Trosolwg o'n rhaglenni a phortffolios**
Tudalennau 16-27

4. **Galluogi pobl i arwain: rhannu storïau**
Tudalennau 28-39

**Rhan dau ein hadroddiad:** Er mis Mehefin 2004 rydym wedi dyfarnu dros £8 biliwn i brosiectau sy'n cefnogi iechyd, addysg, yr amgylchedd a dibenion elusennol. Mae'r adran hon yn amlygu ein hamcanion corfforaethol, cyfrifon blynyddol a chefndir statudol.

5. **Ein hadroddiad strategol**
Amcanion corfforaethol; perfformiad ariannol; cydraddoldeb a chyflogeion
Tudalennau 40-51

6. **Ein llywodraethu**
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu; y datganiad llywodraethu; y gofrestr fuddiannau; aelodaeth y Bwrdd, pwyllgorau a'r Uwch Dîm Rheoli; adroddiad tâl cydnabyddiaeth
Tudalennau 52-75

7. **Ein cyfrifon**
Adroddiad y Rheolydd ac Archwilydd Cyffredinol; Datganiadau ariannol; Memorandwm o Gyfrifon – arian cyfrifon segur
Tudalennau 76-113

8. **Ein cefndir statudol**
Tudalennau 114-126



# Rhan un

## Adran un

# Cyflwyniad a Galluogi pobl i arwain

Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a throsolwg o'n Fframwaith Strategol, Pobl yn Arwain

## Adran un

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr



**Peter Ainsworth**
**Cadeirydd**

Y llynedd, myfyriais ar gyfnod o newid wrth i ni ddod trwy rai heriau sylweddol a chroesawu arweinyddiaeth newydd Dawn Austwick, ein Prif Weithredwr. Ac er bod y flwyddyn hon wedi cynhyrchu ei heriau ei hun, rwy'n gobeithio y bu hefyd yn flwyddyn i'r Gronfa ddechrau edrych a theimlo'n wahanol o ran ei hymagwedd.

Yn gyntaf, diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn Eich Barn Ein Dyfodol, sgwrs agored ac eang ei chwmpas am yr hyn y mae pobl ei eisiau gennym ni dros y chwe blynedd nesaf.

Y thema gryfaf? Pobl a chymunedau sydd am fwrw 'mlaen a gwneud pethau, taclo heriau a pherchen arnynt, yn lle cael eu diffinio ganddynt. Dyna pam y rhoddwyd yr enw Pobl yn Arwain i'n Fframwaith Strategol newydd, gan amlinellu'r ffordd orau i ni gefnogi pobl a chymunedau yn eu dyheadau. Byddwn yn siarad am hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad ar dudalennau 10 ac 11.

Cymeradwyodd y Bwrdd ein Fframwaith Strategol yn frwd ym mis Ionawr 2015 ac rwyf wrth fy modd â chael fy ailbenodi fel cadeirydd y Gronfa ar gyfer y pedair blynedd nesaf wrth i ni wireddu'r weledigaeth heriol hon. Hoffwn gofnodi'n ffurfiol fy niolchiadau i Anna Southall a Rajay Naik hefyd; bu'r ddau'n camu'n ôl o fod yn aelodau Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr yn 2014/15, Anna fel Is-gadeirydd, ar ôl blynyddoedd lawer o gefnogaeth, cyngor a gwasanaeth rhagorol. Dymunaf yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Dilynodd y Fframwaith Strategol ac fe'i cyfeiriwyd gan Adolygiad Teirblwydd o'r Gronfa, wedi'i arwain gan Swyddfa'r Cabinet. Roeddem yn falch bod yr Adolygiad wedi adnabod y Gronfa fel mudiad pwysig ac uchel ei barch, ac fe wnaeth nifer o argymhellion defnyddiol. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth roi'r argymhellion hyn ar waith, gan adeiladu ar sut rydym yn gweithio.

Eleni hefyd, dathlwyd 20 mlynedd o arian achosion da'r Loteri Genedlaethol, gan gefnogi pobl a chymunedau i wneud gwaith rhyfeddol ac ysbrydoliaethus ym mhob cwr o'r DU a'r tu hwnt. Bu'n gyfle i fyfyrio ar yr hyn sydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Cyfrannwyd ariannu gwerth cyfanswm o dros £32 biliwn i achosion da. Dathlodd y Gronfa Loteri Fawr ei phen-blwydd yn 10 mlwydd oed yr haf diwethaf; rydym wedi dosbarthu tuag £8 biliwn mewn grantiau yn ystod y cyfnod hwnnw, gan amrywio o fuddsoddiadau unigol mawr fel £150 miliwn i'r Ymddiriedolaeth Power to Change (i adeiladu, cefnogi a chynnal mentrau sy'n eiddo i gymunedau) i'r miloedd o brosiectau llawr gwlad bywiog yr ydym yn eu cefnogi ar lefel leol tu hwnt.

Un enghraifft o'r fath yr oeddwn i'n ffodus i ymweld â hi oedd Fferm Ceri ym Mhowys, sy'n cynnig seibiant â chefnogaeth i bobl anabl a'u teuluoedd gyda ffocws ar gryfhau perthnasoedd. Mae eu heffaith yn newid bywydau a dyma'r hyn sy'n gwneud yr hyn a wnawn yn waith gwerth chweil.

Dyma un enghraifft ond, gyda'r Gronfa'n dyfarnu dros £1 biliwn i fwy na 13,000 o brosiectau eleni, rydym yn ffodus o fedru cefnogi llawer, y mae rhai ohonynt i'w gweld yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Yr hyn sy'n gwneud y gwahaniaeth mewn cymunedau yw'r bobl a'r prosiectau a gefnogwn ac, ynghyd â'n Fframwaith Strategol newydd rwy'n hyderus ein bod mewn sefyllfa dda i barhau â'n gwaith o wella bywydau'r bobl mewn angen mwyaf.





**Dawn Austwick**
**Prif Weithredwr**

Un o uchafbwyntiau fy swydd yw clywed am a chwrdd â phobl sy'n cyflawni pethau anhygoel yn eu cymunedau. Mae eu hegni a'u cyflawniadau'n syfrdanu fi ac rwy'n falch o ddweud y gallwn rannu mwy o'u hanesion yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Pobl fel Darren Murinas sy'n aelod o'n Panel Dinasyddion Arbenigol yn Stoke; neu Katie Kelly o Gyngor Dwyrain Ayrshire, yn ail-ddylunio gwasanaethau ar y cyd gyda'r gymuned leol; neu Corin Morgan-Armstrong sy'n arwain ar y prosiect 'Waliau Anweladwy' yng Ngharchar y Parc, yn cefnogi carcharorion a'u teuluoedd i osgoi aildroseddu. Neu bobl fel Colm Fanning yn Ymddiriedolaeth Colin Glen, sy'n gweithio i oresgyn rhwystrau ar draws cymunedau, ac a gyflwynodd fi i bobl ifanc ar gwrs rhaffau uchel 15 metr uwchben y goedwig yng Ngorllewin Belfast. Yn y fath gwmni, mae 'Pobl yn Arwain' - gweledigaeth ganolog ein Fframwaith Strategol newydd – yn teimlo fel ffit naturiol.

Dyma oedd blwyddyn newydd gyda rhai heriau, wrth i ni addasu i system weithredu newydd, ac ar yr un pryd parhau i gynnig gwasanaeth gwych i ymgeiswyr a deiliaid grant. Wrth wneud hyn, cyrhaeddom ddiwedd y flwyddyn gyda rhai o'n canlyniadau gwasanaeth cwsmeriaid gorau erioed.

A bu'n flwyddyn o gyflawniad parhaus yn y Gronfa: rydym wedi ymrwymo dros £1 biliwn o ddyfarniadau grant, datblygu a lansio ein Fframwaith Strategol , adeiladu sawl perthynas newydd, a chryfhau rhai eraill. A hyn oll wrth i ni ostwng ein costau craidd islaw ein targed 5 y cant am y tro cyntaf. Ein ffocws ar gyfer y dyfodol yw pennu strategaeth ariannol sy'n cydbwyso mynnu rheolaeth bendant ar gostau gydag awydd am effeithiolrwydd.

Bu'n flwyddyn o ddarganfod, gwrando a thyfu ar ein cyfer ni yn y Gronfa hefyd. Galwodd y broses o ddatblygu Pobl yn Arwain ar gyd-drafodaethau ar draws y Gronfa i gyd, a gyda'n budd-ddeiliaid a'n cwsmeriaid.

Rydym wedi dechrau cymryd camau tuag at wireddu hynny trwy beilota rhai ymagweddau newydd. Ein menter gyntaf oedd Sbarduno Syniadau, rhaglen beilot newydd i annog syniadau a phrosiectau gwych sydd â'r potensial i ddatblygu neu gael eu rhannu'n ehangach. Dyma gam cynnar tuag at fynd yn ariannwr mwy catalytig, gan wrando ar eraill a chefnogi arfer gwych wrth iddo ddod i'r amlwg.

Yn dilyn sesiwn bwrdd crwn gyda mudiadau gwirfoddol yn Newcastle, dechreuwyd cynllun peilot arall - cynllun Arian i Bawb ysgafn sydd wedi treialu proses ymgeisio fwy llyfn. Bydd profi a dysgu'n rhan hanfodol o sut rydym yn gwella'r ffordd a wnawn grantiau dros y misoedd a blynyddoedd i ddod.

Pan gyrhaeddais i'r Gronfa 18 mis yn ôl nodais gymhelliad ac ymroddiad eithriadol pawb y cwrddais â nhw. Dechreuais y darn hwn trwy siarad am storïau darostyngol y sawl a ariannwn – a hoffwn ddod ag ef i ben trwy dalu teyrnged i'm holl gydweithwyr am eu hymrwymiad ac ymroddiad parhaus i genhadaeth y Gronfa.

# Galluogi pobl i arwain

Yn ystod 2014/15, datblygwyd Fframwaith Strategol newydd i'n harwain ni yn y dewisiadau y byddwn yn eu gwneud fel ariannwr dros y chwe blynedd nesaf (2015-21).

Dyna oedd cynnyrch sgwrs eang ei chwmpas â budd-ddeiliaid a'r cyhoedd ar draws y DU, o'r enw Eich Barn Ein Dyfodol. Cymerodd dros 1,600 o bobl ran mewn trafodaethau ar-lein a chwrddom â mwy na 500 o bobl wyneb i wyneb, i archwilio'r hyn y mae pobl ei eisiau gennym ni fel ariannwr.

Cyhoeddwyd ein fframwaith newydd, Pobl yn Arwain, ym mis Mawrth 2015. Mae'n disgrifio ein cred y dylai pobl arwain ar wella'u bywydau a chymunedau, ac y dylem ni fel ariannwr ganolbwyntio ar y sgiliau, asedau ac egni y gall pobl alw arnynt a'r potensial yn eu syniadau.

Mae'n sefydlu chwe egwyddor allweddol ar gyfer sut y byddwn yn cyflawni'r weledigaeth honno a'r llinynnau gwaith allweddol y bydd angen i ni eu datblygu a'u cyflwyno dros chwe blynedd i wireddu hyn. Mae'r Fframwaith yn uchelgeisiol ac yn hyblyg, a'i fwriad yw adlewyrchu'r cyd-destun newidiol yr ydym ni a'r bobl a wasanaethwn yn gweithredu ynddo.

**2,100**

**Cymerodd dros 2,100 o bobl ran mewn Eich Barn Ein Dyfodol, i archwilio'r hyn y mae pobl ei eisiau gennym ni fel ariannwr.**



## Chwe egwyddor allweddol ar gyfer cyflwyno Pobl yn Arwain

### 1 Hyder, nid rheolaeth

**Mae gennym ffydd mewn gallu pobl i beri i bethau gwych ddigwydd, gan gredu y dylai ein harianny alluogi yn hytrach na rheoli.**

### 2 Prosesau syml, barn dda

**Rydym yn defnyddio prosesau syml a chymesur sy'n ein galluogi i ffurfio barn dda.**

### 3 Cryfderau pobl

**Rydym yn dechrau gyda'r hyn y gall pobl ei gyfrannu, a'r potensial yn eu syniad.**

### 4 Catalydd i bobl eraill

**Rydym yn gwrando ar, dysgu gan, gweithredu ar ac yn hwyluso'r pethau sydd o bwys i bobl, cymunedau a'n partneriaid.**

### 5 Cyfeiriad a rennir, ymagweddau amrywiol

**Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth y cymunedau rydym yn gweithio gyda nhw ar draws y DU, yn gyson o ran yr ansawdd a'r cyfleoedd a gynigiwn, ac yn cefnogi pobl i daclo anghydraddoldeb.**

### 6 Defnyddio adnoddau'n dda

**Rydym yn gwneud dewisiadau gwybodus am yr adnoddau a roddir i ni gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol: gyda gwybodaeth, gyda phobl a gydag arian, ac mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.**



## Adran dau

# Ein blwyddyn mewn rhifau

## Yn 2014/15:

**£783m**
wedi'i dderbyn mewn incwm

**13,098**
o ddyfarniadau wedi'u gwneud

**£1bn**
o ddyfarniadau wedi'u gwneud

Mae swm y dyfarniadau uchod yn cynnwys pob penderfyniad am ymrwymiadau a wnaed gan bwyllgorau yn ystod 2014/15 ac nid yw'n cynnwys addasiadau diwedd blwyddyn ar gyfer rhwymedigaethau amodol lle nad yw'r derbynnydd wedi'i hysbysu eto am y dyfarniad neu addasiadau cyfrifyddu mewn perthynas â grantiau amodol.

## Adran dau

# Ein blwyddyn mewn rhifau

Ystadegau allweddol:

**13,098**
nifer y dyfarniadau a wnaed

**£140**
dyfarniad lleiaf trwy'r Gronfa Cymunedau a Theuluoedd

**95.6%**
o ddyfarniadau i'r sectorau gwirfoddol a chymunedol

**£1 biliwn**
gwerth y dyfarniadau a wnaed

**91.3%**
o ddyfarniadau'n llai na £10,000


**4.9%**
costau gweinyddu craidd

**£149.2m**
Dyfarniad mwyaf i'r Ymddiriedolaeth Power to Change



### Ein harian Loteri Genedlaethol fesul math

| | |
|---|---|
| 40% | Rhaglenni ariannu strategol wedi'u targedu, a ddatblygir i ganolbwyntio'n fanwl ar faterion penodol, yn aml yn rhai hir dymor ac yn gweithio gyda phartneriaid |
| 39% | Rhaglenni ariannu ymatebol sy'n ymateb i alw, gyda meini prawf eang ar gyfer ceisiadau sy'n agored i ystod helaeth o anghenion ariannu |
| 19% | Ymddiriedolaethau a sefydlwyd i ddarparu ariannu tymor hwy ar gyfer materion penodol |
| 2% | Arall (yn cynrychioli gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni – gweler Nodyn 4 i'r Datganiadau Ariannol) |




**Ariannu nad yw'n dod o'r Loteri**
Mae dros 800 o ddyfarniadau wedi'u gwneud ar raglenni Trydydd Parti (gydag ariannu nad yw'n dod o'r Loteri Genedlaethol) gwerth cyfanswm o £42.5 miliwn.


**Darparu mynediad i'n data**
Rydym yn cyhoeddi bob dyfarniad a wnawn yn biglotteryfund.org.uk/welsh/funding/search-past-grants. Hefyd, rydym yn annog ac yn cefnogi prosiectau i adrodd eu storïau eu hunain er mwyn i bobl ddeall a gweld y prosiectau a ariannwn yn well a'r gwahaniaeth y maen nhw'n ei wneud mewn cymunedau.

Rydym wedi gweithio hefyd i ddarparu mynediad i'n data er mwyn i eraill ymchwilio, archwilio a dadansoddi ble mae ein hariannu'n mynd. Trwy gydol y flwyddyn parhawyd i gyhoeddi, hyrwyddo a chefnogi eraill i ddefnyddio data agored.

Mwy o wybodaeth yn biglotteryfund.org.uk/welsh/research/making-the-most-of-funding/ open-data

Trwy ddarparu mynediad i'n data wrth ochr data mudiadau eraill, credwn y gallwn ddeall yn well sut y gallwn ariannu'n fwy effeithiol, cydweithio'n well ag eraill a rhannu mewnweledeither yn well. Rydym wedi dechrau cydweithio ag eraill i sicrhau y gall pobl fanteisio i'r eithaf ar yr adnodd hwn. Mae hyn yn cynnwys 360Giving, The Foundation a grŵp o arianwyr eraill er mwyn i ni annog ymddiriedolaethau ac arianwyr eraill i gyhoeddi eu data, cefnogi datblygiad isadeiledd sy'n gwneud data agored yn haws ei hygyrchu a'i ganfod, ac ymchwilio i ddatblygu apiau a fydd yn galluogi pawb i elwa o'n data'n hawdd.

Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2014/15


## Adran tri

# Trosolwg o'n rhaglenni a phortffolios

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cyflwyno rhaglenni ariannu yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n gysylltiedig â'r anghenion a'r cyfleoedd ym mhob gwlad. Rydym hefyd yn cyflwyno portffolio sy'n cefnogi prosiectau DU gyfan a rhyngwladol.

# Lloegr

Trwy ein hariannu agored yn Lloegr, lle mae modd i ni ymateb i syniadau pobl, rydym yn cefnogi miloedd o brosiectau o randiroedd cymunedol i glybiau ar ôl ysgol i fentrau hanfodol sy'n cefnogi'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas.





Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein rhaglenni ariannu agored Arian i Bawb a Reaching Communities wedi cefnogi 8,249 o brosiectau mewn cymunedau ar draws Lloegr gydag ariannu gwerth dros £251.5 miliwn.

Rydym wedi gwneud ymrwymiadau sylweddol mewn nifer o ardaloedd wedi'u targedu gan gynnwys ychydig o dan £130 miliwn trwy ein mentrau i leihau unigedd ymhlith pobl hŷn, a £215 miliwn ar ein rhaglen A Better Start i wella cyfleoedd bywyd babanod a phlant ifanc. Trwy ein rhaglenni strategol Talent Match ac Anghenion Lluosog, rydym wedi bod yn cefnogi partneriaethau lleol i gefnogi pobl ifanc i ymwneud â chyflogaeth a menter, a thrawsnewid gwasanaethau i bobl sydd ag anghenion lluosog a chymhleth megis bod yn gaeth i sylweddau, digartrefedd a phroblemau iechyd meddwl.

Rydym yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddefnyddio ein hisadeiledd a'n rhwydweithiau i gyflwyno ariannu ar ran eraill. Eleni cytunwyd ar flaenoriaethau ariannu ar y cyd gyda 37 o Bartneriaethau Menter Leol i ddarparu ariannu cyfatebol gyda gwerth bron £200 miliwn o arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop i helpu pobl i hygyrch cefnogaeth dod o hyd i swyddi. Darparwyd cefnogaeth datblygu partneriaethau i fudiadau gwirfoddol i'w helpu i baratoi ar gyfer y prif gyfle ariannu newydd hwn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Ac rydym yn parhau i ddatblygu ymagwedd gymysg at ariannu sy'n golygu y gallwn fod yn hyblyg ac yn ymatebol yn yr opsiynau ariannu sydd ar gael i bobl a phrosiectau. Er enghraifft rydym wedi lansio'r gronfa Twf mewn partneriaeth â Big Society Capital, gan ddarparu cyfleoedd buddsoddi cymdeithasol llai (hyd at £150,000) wrth ymateb i alw gan rai elusennau maint bach a chanolig – gan lenwi bwlch a nodwyd yn yr opsiynau ariannu sydd ar agor i gymdeithas sifil.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda grŵp o arianwyr i gefnogi prosiectau sy'n gweithio'n unol â strategaeth a rennir i atal plant rhag cael eu hecsbloetio'n rhywiol; ac, ynghyd â Comic Relief a'r Adran Iechyd, dyfarnwyd £2 miliwn bellach i'r ymgyrch Amser i Newid i fynd i'r afael â stigma iechyd meddwl. Rydym wedi datblygu Cronfa Gweithredu Cynnar Cymdogaethau sy'n cronni ein hariannu gydag Esmée Fairbairn a Comic Relief i alluogi partneriaethau lleol i ddod o hyd i ddulliau newydd o atal problemau a gwella cymdogaethau.

Bydd yr ymagwedd gydweithredol hon yn elfen allweddol o'n hariannu yn y dyfodol ac fe'i hadlewyrchir mewn ariannu Trydydd Parti yn Lloegr, yr ydym yn ei gyflwyno ar ran eraill. Mae hyn yn cynnwys Advice Services Transition Fund a ariennir ar y cyd gyda'r Llywodraeth, gan alluogi darparwyr cyngor nid er elw i barhau i roi cymorth hanfodol i bobl a chymunedau. Mae partneriaethau lleol wedi bod yn datblygu ymagweddau newydd at gynnal eu gwaith a darparu cyngor, ac rydym wedi bod yn gweithio i rannu dysgu o'r hyn y maent wedi dod o hyd iddo i helpu cyfeirio dyfodol tymor hwy y sector cyngor nid er elw.

Eleni rydym wedi sefydlu'r Ymddiriedolaeth Power to Change annibynnol, a fydd yn darparu £150 miliwn o gymorth i helpu pobl i sefydlu a rhedeg busnesau cymunedol. Bydd hyn yn galluogi pobl i ddefnyddio ariannu mewn dulliau mentrus i drosoli adnoddau er mwyn iddynt wneud pethau da a chynnal eu gwaith dros yr hir dymor. Yn gynnar yn 2015 sefydlwyd y ganolfan Heneiddio'n Well gyda gwaddol £50 miliwn dros ddeng mlynedd. Nod pennaf y Ganolfan fydd cynnal ansawdd bywyd da mewn henoed a hyrwyddo buddion cymdeithas sy'n heneiddio trwy bontio'r bwlch rhwng ymchwil, tystiolaeth ac arfer.

## Pobl hŷn

**Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn nifer o ardaloedd wedi'u targedu gan gynnwys ychydig o dan £130 miliwn trwy ein mentrau i leihau unigedd ymhlith pobl hŷn**

# Yr Alban

Bu 2014 yn flwyddyn bwysig tu hwnt i'r Alban, gan gynnwys nifer o ddigwyddiadau tirnod. Digwyddodd un ohonynt, Gemau'r Gymanwlad, yn Glasgow a chynhyrchodd fuddion ac etifeddiaeth ar gyfer y wlad gyfan. Buddsoddodd y Gronfa Loteri Fawr dros £15 miliwn i helpu creu'r etifeddiaeth honno.





Roedd hyn yn cynnwys ariannu o'n rhaglenni grantiau bach – 2014 Communities a Celebrate – a alluogodd filoedd o grwpiau cymunedol llawr gwlad i ddathlu amrywiaeth greadigol a diwylliannol Gemau'r Gymanwlad gyda'i gilydd, gan annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol ar yr un pryd. Buddsoddwyd £600,000 mewn Volunteering Support hefyd, gan alluogi 1,940 o bobl Clyde-side i wirfoddoli yng Ngemau'r Gymanwlad a dyfarnwyd nifer o grantiau mwy i fudiadau megis My Time Active, a dderbyniodd £1.7 miliwn i helpu taclo gordewdra mewn plentyndod – rhwystr i weithgarwch corfforol.

Un o nodweddion cadarnhaol niferus ein hariannu etifeddiaeth oedd y cynnydd mewn ceisiadau a dderbyniwyd i'n cronfa Celebrate gan grwpiau nad oeddent wedi ymgeisio i ni'n flaenorol.

Mae ein gwaith eleni i gefnogi grwpiau llawr gwlad wedi parhau trwy ein rhaglen grantiau bach Arian i Bawb Yr Alban hefyd. Ar ddechrau'r flwyddyn gwnaed rhai newidiadau cadarnhaol i'r ffordd y mae'n gweithio, gan gynnwys gwella'r ffurflen gais i'w gwneud yn symlach ac yn gyflymach i grwpiau ei chwblhau.

Rydym wedi bod yn falch o gyflwyno ystod o raglenni ariannu nad yw'n dod o'r Loteri ar ran Llywodraeth Yr Alban. Er enghraifft, mae'r Gronfa Scottish Land a'r Gronfa Cymunedau a Theuluoedd wedi gwneud argraff barhaus ar gymunedau, yr un cyntaf trwy alluogi cymunedau i berchen ar dir ac asedau tir a'u datblygu a'r ail yn cefnogi prosiectau sy'n rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant dan wyth mlwydd oed.

2014/15 oedd y flwyddyn hefyd pan lansiwyd rownd dau'r rhaglen arloesol Our Place (gweler ein stori'n nes ymlaen am Robert Arthurs o Ymddiriedolaeth Gymunedol Newmains). Mae Our Place yn cynrychioli ffordd newydd o fuddsoddi arian Loteri yn Yr Alban yn seiliedig ar flaenoriaethau a gweledigaeth a bennir gan bobl leol. Mae'n cefnogi cymunedau dewisedig i adeiladu ar y cryfderau a'r asedau sydd ganddynt er mwyn creu newidiadau cadarnhaol yn eu cymdogaethau. Eleni lansiwyd y fenter mewn saith cymuned arall ac rydym yn edrych ymlaen at eu cefnogi nhw i gyd ar lefel leol dros y pum mlynedd nesaf.

Ac wrth gwrs, mae Investing in Communities, ein prif bortffolio ariannu, wedi cyrraedd pob ardal awdurdod lleol yn Yr Alban unwaith eto eleni, gan ein helpu ni i gyflawni ein cenhadaeth graidd – dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus.


Wrth i ni baratoi i lansio ein portffolio ariannu pum mlynedd newydd tua diwedd 2015 rydym wedi bod yn myfyrio ar lwyddiannau Investing in Communities hyd yma, a gwrando ar storïau'r bobl y mae eu bywydau wedi'u newid gyda chymorth ein hariannu. Gallwch ofyn i Monica Duddy o Changing Faces, y mae ei stori wedi'i rhannu ar dudalen 33 – un o lawer sy'n atgoffa ni pam mae ein hariannu mor hanfodol bwysig i gymunedau ledled Yr Alban.

## Gwirfoddoli

**Buddsoddwyd £600,000 mewn Volunteering Support gan alluogi 1,940 o bobl Clydeside i wirfoddoli yng Ngemau'r Gymanwlad**

# Gogledd Iwerddon

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un o ddathlu, buddsoddi a chydweithio yng Ngogledd Iwerddon. Rydym wedi llwyddo i gefnogi llawer o brosiectau sy'n gweithio yng nghalon cymunedau, gan alluogi pobl i arwain a newid bywydau.





Trwy gydol y flwyddyn parhawyd i gynnig mwy na dim ond grantiau i'r mudiadau a gefnogwn trwy ein contractau cefnogi a datblygu. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant a chefnogaeth ar faterion fel llywodraethu da ynghyd â'r cyfle i rwydweithio a rhannu arfer da a dysgu.

Cefnogwyd cannoedd o brosiectau llawr gwlad ar draws Gogledd Iwerddon i wneud pethau gwych gyda symiau bach o arian trwy Arian i Bawb. Dyfarnwyd mwy na £4.6 miliwn i ystod eang o fudiadau o ysgolion i grwpiau ieuenctid a chymdeithasau cymunedol. Roedd y prosiectau'n cynnwys popeth o sesiynau therapi cerdd yn Hosbis Plant Gogledd Iwerddon i ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn mewn cymunedau gwledig.

Dyfarnodd ein rhaglen Supporting Families fwy nag £8 miliwn i ystod o fudiadau gan drawsnewid bywydau llawer o deuluoedd ar draws Gogledd Iwerddon. Mudiadau fel Tinylife sy'n defnyddio'r grant i roi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i fabanod a anwyd yn gynnar. A phrosiect Kinnections Buttle UK, sy'n cefnogi plant ar draws Gogledd Iwerddon y mae teulu ehangach neu ffrindiau'n gofalu amdanynt. Mae'n gweithio gyda Kinship Care NI i ddarparu ystod o gefnogaeth ar gyfer plant a'u gofalwyr gan gynnwys eitemau hanfodol i'r aelwyd, grwpiau cefnogi a gweithgareddau.

I nodi ein pen-blwydd yn ddeng mlwydd oed ym mis Mehefin rhedwyd ymgyrch i hysbysebu'r pethau gwych y mae pobl wedi'u gwneud gyda'n hariannu dros y deng mlynedd ddiwethaf. Gwnaethom alluogi pobl i arwain trwy ofyn iddynt enwebu grwpiau a newidiodd eu bywydau a dyfarnwyd deg grant o £10,000 i'r storïau mwyaf ysbrydoliaethus.

Bu'n bleser i ni glywed cynifer o storïau am newidiadau bywyd o bob cwr o Ogledd Iwerddon a oedd yn bosib diolch i'n harianu.

Lansiwyd y prosiect Detail Data yn yr hydref gyda The Detail a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Gogledd Iwerddon (NICVA) sy'n helpu'r gymuned a'r sector gwirfoddol i wneud defnydd gwell o'r swm enfawr o ddata sydd ar gael. Rydym yn gobeithio y bydd y prosiect peilot hwn yn helpu mudiadau i ddefnyddio data i adnabod bylchau a chynllunio gwasanaethau a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl leol.

Daethpwyd â'r flwyddyn i ben ar nodyn cadarnhaol pan lansiwyd ein rhaglen Empowering Young People newydd ym mis Mawrth. Gwnaethom weithio'n uniongyrchol â grŵp o bobl ifanc y mae eu bywydau wedi'u newid gan brosiectau a ariennir gan y Loteri i ddatblygu a hyrwyddo'r rhaglen ymysg grwpiau sydd â diddordeb mewn ymgeisio. Bydd y rhaglen yn dyrannu £50 miliwn dros y chwe blynedd nesaf.

## Teuluoedd

**Dyfarnodd ein rhaglen Supporting Families fwy nag £8 miliwn i ystod o fudiadau gan drawsnewid bywydau llawer o deuluoedd ar draws Gogledd Iwerddon**

# Cymru

Mae newid bywydau ac adeiladu cymunedau cynaliadwy wedi bod wrth wraidd yr hyn y mae'r Gronfa'n ei wneud yng Nghymru. Trwy ein prosiectau rydym wedi helpu pobl i newid eu cymunedau er gwell.





Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi dyfarnu £44 miliwn; gan wneud ein hariannu'n rhan annatod o fywydau pobl yng Nghymru.

Trwy gydol y flwyddyn cefnogwyd prosiectau llawr gwlad ar draws Cymru trwy ein rhaglen Arian i Bawb. Dyfarnwyd mwy na £3 miliwn i ystod eang o fudiadau o ysgolion i grwpiau ieuenctid a chymdeithasau cymunedol. Roedd y prosiectau'n cynnwys popeth o gefnogi plant sydd wedi bod yn dystion i gam-drin domestig i ddosbarthiadau coginio ar gyfer plant ag anableddau dysgu.

Dyfarnodd ein rhaglen Pawb a'i Le fwy na £19 miliwn i ystod o fudiadau gan drawsnewid bywydau llawer o bobl ledled Cymru. Er enghraifft, mae ACE Cardiff yn defnyddio dyfarniad o £46,590 i gyflwyno ei brosiect Watch My Needs gan ddefnyddio technegau iaith arwyddion i helpu pobl sy'n byw gyda dementia i gyfathrebu a'u gofalwyr. Mae Friends of Pedal Power wedi elwa o ddyfarniad o £311,753 i'w brosiect Changing Gear. Mae'r prosiect arloesol hwn yn darparu cefnogaeth i grwpiau lleiafrifol fel menywod o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn a phobl â chyflyrau iechyd meddwl neu gronig i wella'u hiechyd a lles.

Trwy Adeiladu Cymunedau dyfarnwyd gwaddol gwerth £16.5 miliwn i ymddiriedolaeth annibynnol newydd a fydd yn cefnogi ac yn galluogi nifer o gymunedau ar draws Cymru, dros gyfnod o 12 mlynedd, i adeiladu ar eu cryfderau a doniau, adnabod eu cyrchnodau eu hunain a symbylu newid cadarnhaol ar gyfer eu hunain.

Buddsoddwyd £5 miliwn trwy Mewn Dwylo Da i gefnogi plant a phobl ifanc ar draws Cymru sydd wedi neu sydd yn derbyn gofal, i wella'u cyfleoedd bywyd. Mae'r ymagwedd ymyrraeth gynnar hon yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Maethu ac Ymddiriedolaeth GIG South London and Maudesley.

Lansiwyd ein hail raglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol a fydd yn buddsoddi £9 miliwn mewn trosglwyddiad asedau i gymunedau ledled Cymru. Y nod yw creu cymunedau mwy cynaliadwy trwy gefnogi trosglwyddiad asedau i fudiadau trydydd sector mentrus sy'n cynnwys y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu'n weithredol ac yn creu buddion ar eu cyfer.

Parhawyd i ddatblygu a chyflwyno ystod o raglenni ariannu'r Loteri a'r rhai nad ydynt yn ymwneud â'r Loteri i fwyafu effaith ein hariannu i gymunedau ar draws Cymru. Eleni lansiwyd Ar y Blaen 2, rhaglen £10 miliwn a gyllidir gan arian sydd wedi bod yn gorwedd yn segur mewn cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu ar draws y DU er 15 mlynedd neu fwy i gefnogi a darparu lleoliadau gwaith â thâl ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed ag anableddau neu anawsterau dysgu gan gynnwys anhwylder sbectrwm awtistiaeth. Un o nodau cadarnhaol niferus y prosiect yw cynyddu cyfleoedd y bobl ifanc i sicrhau cyflogaeth hir dymor gynaliadwy.

Wrth edrych tua'r dyfodol byddwn yn ystyried sut y gallwn gefnogi cymunedau gwledig i ddatblygu atebion i'r heriau penodol y maent yn eu hwynebu. Rydym hefyd yn ystyried ffyrdd i ni gefnogi a hyrwyddo gallu ariannol pobl ifanc yng Nghymru, gyda ffocws ar y blynyddoedd cynnar, yn yr oes hon o heriau economaidd.

## Pobl ifanc

**Buddsoddwyd £5 miliwn trwy Mewn Dwylo Da i gefnogi plant a phobl ifanc ar draws Cymru sydd wedi neu sydd yn derbyn gofal, i wella'u cyfleoedd bywyd**

# Deyrnas Unedig

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld ni'n dechrau ail-lunio ac ailffocysu ein portffolio ariannu'r Deyrnas Unedig (DU) gyfan, i gysylltu'n fwy clir â'r portffolios gwlad unigol ac ychwanegu gwerth atynt.





Mae ein portffolio DU wedi parhau i wneud gwaith da wrth adeiladu ar y gorau o'r hyn a welwn ac a wnawn yn ein portffolios gwlad unigol. Eleni, cychwynnwyd y cynllun peilot Sbarduno Syniadau fel dull newydd o adnabod syniadau ac arfer gwych a rhoi momentwm iddynt i dyfu. Roedd ein ffocws cynnar yn ymwneud â heneiddio, maes y mae ein holl bortffolios gwlad yn weithredol ynddo a lle gallwch alw ar fewnweledlad arianwyr eraill, budd-ddeiliaid cymdeithas sifil a'n staff ein hunain ar draws y DU. Mae Sbarduno Syniadau'n ymwneud â chyd-drafodaeth yn hytrach na meini prawf anhyblyg, er mwyn i ni fod yn fwy ymatebol wrth weithredu fel catalydd i eraill. Byddwn yn parhau i ddatblygu Sbarduno Syniadau dros y flwyddyn i ddod fel rhan o'n gwaith i gyflwyno'r Fframwaith Strategol.

Mae ein rhaglenni sefydledig yn parhau i gyflwyno gwir effaith ar lawr gwlad a chynhyrchu dysgu gwerthfawr ar gyfer gwneud grantiau yn y dyfodol. Er enghraifft, hyd yma mae ein prosiectau Gwireddu Uchelgais ar draws y DU wedi cefnogi 105,497 o bobl ifanc i gyflawni eu potensial ac osgoi llwybrau sy'n arwain at droseddu.

Yr haf diwethaf, cynhaliwyd rownd derfynol y gystadleuaeth Miliynau'r Bobl mewn partneriaeth ag ITV. Gwnaed 76 o ddyfarniadau, gyda phob rhanbarth yn gallu pleidleisio dros eu prosiectau lleol eu hunain. Yn 2014 cafwyd dros 300,000 o bleidleisiau. Rydym yn ymchwilio i ble i fynd nesaf gyda hyn, gan adeiladu ar yr egni a'r cyfranogiad sydd wedi bod yn rhan o'r rhaglen Miliynau'r Bobl. Rydym hefyd wedi parhau i gyflwyno'r rhaglen Cymunedau'r Arfordir, gan ddosbarthu ariannu nad yw'n dod o'r Loteri ar ran Llywodraeth y DU. Dros dair rownd ariannu mae 211 o ddyfarniadau gwerth dros £118 miliwn wedi'u gwneud, gan gefnogi pobl i adfywio eu cymuned arfordirol leol a thyfu gweithgareddau economaidd cynaliadwy.

Mae ariannu rhyngwladol yn parhau'n rhan bwysig o'n cymysgedd ariannu, gan gynorthwyo ein nod o ddod o hyd i arfer gwych, ei gefnogi a'i rannu mewn cymunedau, ble bynnag y maent. Mae ein rhaglen Cymunedau Rhyngwladol yn ystyried ceisiadau gan fudiadau elusennol y DU sydd am gyflwyno prosiectau gan weithio mewn partneriaeth â mudiadau cymdeithas sifil tramor, i gynorthwyo buddiolwyr mewn gwledydd datblygol. Eleni, dechreuwyd cydweithio â Comic Relief i fuddsoddi £5 miliwn i wella iechyd mamau a phlant a bywydau pobl sy'n byw mewn slymiau trefol yn Affrica. Gwnaethom ymateb i deiffŵn 2013 yn Ynysoedd y Philipinau, gan ddarparu £7 miliwn i bobl a oedd wrthi'n ailadeiladu eu cymunedau.

Yn ogystal â'r rhaglenni sefydledig hyn, dyrannwyd £15 miliwn i wella sgiliau digidol pobl. Bydd y maes hwn yn mynd yn rhan gynyddol bwysig o alluogi pobl i arwain ar wella'u bywydau a'u cymunedau, wrth i newidiadau digidol a thechnolegol barhau i gyflymu. Dyfarnwyd grant o £5.8 miliwn i RNIB ar gyfer eu prosiect Online Today – gan gefnogi pobl â namau synhwyraidd i fynd ar-lein. Mae cydweithio'n rhan bwysig o'n hymagwedd, ac rydym yn un o aelodau sefydlu Go ON UK, elusen sy'n gweithio ar draws sectorau i rymuso pawb yn y DU i gyrraedd eu potensial digidol.

Dyfarnwyd £25 miliwn hefyd i Addaction i ddatblygu prosiectau ar draws y DU a all leihau effaith alcohol ar boblogaeth sy'n heneiddio, a lansiwyd ein rhaglen Ein Hamgylchedd Ein Dyfodol newydd gwerth £30 miliwn, a fydd yn ariannu 25 i 35 o brosiectau ar draws y DU i gefnogi pobl ifanc i wella'u hamgylcheddau lleol ac ennill sgiliau.

## Sgiliau digidol

**Dyrannwyd £15 miliwn ar gyfer gwella sgiliau digidol pobl, gan alluogi pobl i arwain ar wella'u bywydau a'u cymunedau, wrth i newidiadau digidol a thechnolegol barhau i gyflymu**



## Adran Pedwar

# Galluogi pobl i arwain: Rhannu storïau

Y storïau gan y bobl a'r prosiectau sy'n gwneud pethau gwych gyda'n hariannu.

**Prosiect: Watch my needs, ACE Caerdydd**

# Cwrdd â Rosie



## Mae prosiect yng Nghaerdydd ar flaen y gad wrth helpu pobl sydd â dementia i gyfathrebu â'u teulu a'u gofalwyr.

Pan dderbyniodd y Dr Roy Nolan ddiagnosis o ddementia, roedd ei bartner Rosie, a oedd hefyd yn feddyg, yn benderfynol y byddent yn manteisio i'r eithaf ar bob diwrnod.

Ond wrth i gyflwr Roy waethygu, roedd yn gynyddol anodd i Rosie gyfathrebu ag ef. "Cyrhaeddodd bwynt lle nad oeddwn i'n gallu deall beth oedd e'n ceisio dweud neu arwyddo a byddai'n mynd yn fwyfwy rhwystredig a chynhyrfus," meddai Rosie. "Oherwydd dementia fe newidiodd o ddyn tyner a charedig i rywun a oedd, ar adegau, yn ymosodol ac yn fygythiol. Mae'n dorcalonnus i weld rhywun rydych yn ei garu yn dioddef o hyn."

> "Mae llawer gormod o bobl â dementia sy'n dioddef yn ddistaw neu'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu wrth i'r cyflwr fynd yn waeth. Mae gan y prosiect hwn y potensial i drawsnewid ansawdd bywydau pobl â dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt."
>
> **Dr Rosie Tope**

Sylwodd Rosie fod Roy yn defnyddio cyfres o ystumiau llaw i geisio cyfathrebu ei anghenion - pan oedd eisiau bwyd neu ddiod, yn rhy gynnes neu'n rhy oer. Wrth rannu ei feddyliau gyda gofalwyr eraill, clywodd yr oeddent hwy hefyd wedi sylwi ar eu cymheiriaid yn ceisio cyfathrebu â nhw trwy arwyddo eu hanghenion.

Yn drist, bu farw Roy yn 86 oed yn 2013 ond roedd Rosie yn benderfynol o hyd o ddilyn ei syniad o ddefnyddio iaith arwyddion i helpu pobl eraill sy'n dioddef o ddementia.

Mae Rosie bellach yn arwain prosiect o'r enw Watch My Needs a redir gan yr elusen, ACE Caerdydd. Bydd y prosiect yn hyfforddi hyd at 120 o bobl sydd â dementia a'u gofalwyr i ddefnyddio iaith arwyddion gyda chefnogaeth llechi iPad â apiau arwyddo arnynt.

Os yw'r syniad, y credir mai dyma'r cyntaf o'i fath yn y byd, yn llwyddiannus, gallai gael ei gyflwyno ar draws Cymru a'r tu hwnt.



## £46,590

Ar ôl sicrhau grant o dros £46,000 gan y rhaglen Pawb a'i Le, mae Rosie bellach yn arwain prosiect o'r enw Watch My Needs a redir gan yr elusen ACE Caerdydd.



**Prosiect: The Family Entrepreneurs, Ymddiriedolaeth Tyne Gateway**

# Cwrdd â'r Family Entrepreneurs



## Mae'r Family Entrepreneurs yn dîm ymroddedig o rieni sy'n gweithio i'r elusen tlodi plant, Ymddiriedolaeth Tyne Gateway.


Nod y prosiect Family Entrepreneurs yw gwella presenoldeb a chyflawniad plant oedran ysgol gynradd sy'n byw mewn tlodi neu'n dod o deuluoedd sy'n profi heriau megis bod yn gaeth i gyffuriau ac alcohol, cam-drin domestig, dyled a phroblemau iechyd meddwl.

Seilir y prosiect ar y model proffesiynol troednoeth – mae Tyne Gateway yn adnabod, recriwtio ac yn hyfforddi pobl leol sydd wedi profi'r un problemau neu broblemau tebyg i'r rhai y byddant yn eu cefnogi. Mae llawer o'r teuluoedd y mae'r tîm yn eu helpu yn ofnus o weithio gyda gwasanaethau proffesiynol ond mae'r ymagwedd hon yn golygu bod teuluoedd yn ymddiried yn y tîm ac yn derbyn eu cymorth.

> "Dyna'r hyn yr ydym yn ei hoffi am y Gronfa Loteri Fawr - mae 'na ddealltwriaeth y gallwch gyrraedd y gymuned dim ond trwy'r gymuned - rydym yn grymuso pobl leol i ddod o hyd i atebion i dlodi, gan ddefnyddio eu profiadau a'u syniadau eu hunain."

Mae'r Family Entrepreneurs yn mynd wrth wraidd y broblem ac yn cefnogi plant a rhieni i ddychwelyd i'r trywydd iawn, gan gydweithredu'n agos â gweithwyr proffesiynol eraill. Gall hyn gynnwys mynd â'r plentyn i'r ysgol, sefydlu trefn yn yr aelwyd, helpu gydag amser gwely, mynd gyda rhiant i apwyntiadau neu ymweliadau cymdeithas tai a dod o hyd i lwybrau i gyflogaeth. Mae'r tîm yn mynychu nosweithiau rhieni hefyd ac maent hyd yn oed wedi mynd â chinio Nadolig i dŷ teulu.

Mae'r grant wedi helpu Tyne Gateway i gyrraedd dros 290 o deuluoedd gyda'r prosiect Family Entrepreneurs ac mae'r grŵp yn gobeithio bod llwyddiant y model yn golygu y gallant gyrraedd rhannau eraill o'r Gogledd-ddwyrain a'r tu hwnt.



## £900,000

Derbyniodd Tyne Gateway, sy'n gweithio gyda'r Gymdeithas Plant, arian gan y rhaglen Dyfodol Gwell i helpu cyrraedd dros 290 o deuluoedd gyda'r prosiect Family Entrepreneurs.

**Prosiect:** The Women's Project, City Gateway

# Cwrdd â The Women's Project




**Profodd Lisa Tison anhawster wrth ddychwelyd i gyflogaeth ar ôl egwyl gyrfa i gael plant. Aeth hi i City Gateway i dderbyn hyfforddiant a goresgyn eu hunigedd, ond erbyn hyn mae hi eisiau helpu menywod eraill yn yr un sefyllfa.**

Ymunodd Lisa â Phrosiect Menywod City Gateway ar ôl clywed gan ffrind am y mudiad. Mae'r prosiect, a leolir yn Tower Hamlets, yn helpu menywod bregus i adeiladu eu hunanhyder a hunan-barch. Mae llawer o'r menywod sy'n dod yn siarad ychydig iawn o Saesneg ac mae'r prosiect yn eu cefnogi nhw i ddatblygu eu sgiliau iaith a chyfathrebu a dod o hyd i gyfleoedd hyfforddiant, addysg a chyflogaeth.

I ddechrau, cymerodd Lisa ran yn y dosbarthiadau a gynigir, gan gynnwys dosbarthiadau ymarfer corff, sesiynau iechyd a lles a chinio llythrennedd. Mwynhaodd gwneud ffrindiau newydd a gwelodd fod dim ond siarad a rhannu ei phrofiadau â phobl a fu'n deall yn help mawr.

Oherwydd profiad Lisa yn City Gateway fe'i hysbrydolwyd i wneud rhywbeth dros ei hun a'r gymuned leol, ac erbyn hyn mae hi'n gweithio ochr yn ochr â theuluoedd bregus, gan redeg dosbarthiadau magu plant creadigol a mamau newydd a'r sesiwn cyngor teuluol galw heibio.

"Os byddwch yn buddsoddi mewn un fenyw gallwch fuddsoddi yn y gymuned gyfan. Helpodd City Gateway i mi weld fy mhotensial, i fedru dod o hyd i yrfa a rhywbeth yr ydw i'n ei wneud yn dda. Rwyf bellach wedi cyrraedd cam lle gallaf helpu eraill yn y sefyllfa honno gan i mi wybod sut roedd yn teimlo pan roddodd rhywun gymorth i mi."
**Lisa Tison**



# £234,504

Mae'r Prosiect Menywod yn City Gateway yn defnyddio arian Reaching Communities i gefnogi menywod bregus i gynyddu hyder a hunan-barch.



**Prosiect:** Changing Faces

# Cwrdd â Monica

**Mae Changing Faces yn sefydlu canolfan newydd yng Nghaeredin i gefnogi plant a phobl ifanc ar draws Yr Alban.**




Mae Monica Duddy, 23 oed, wedi treulio'r mwyafrif o'i bywyd yn ymdopi â chyngor dieisiau, sylwadau, beirniadaeth a bwlio - i gyd oherwydd man geni ar ei boch.

Mae Monica'n benderfynol o sicrhau nad yw plant a phobl ifanc eraill yn cael yr un profiadau. Dyna pam mae hi'n aelod gweithgar o Faces of Scottish Youth, grŵp o bobl ifanc sy'n helpu cyfeirio gwaith Changing Faces yn Yr Alban.

"Dechreuais gymryd rhan mewn Changing Faces pan ddywedodd meddyg wrth fy rhieni amdano," esboniodd Monica.

"Byddai'n help mawr os oedd y bobl o'ch cwmpas chi, beth bynnag eu hoedran, yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth y gallant ei rhoi."
**Monica Duddy**


"Mae'n anodd i bobl yn eu harddegau weld y tu hwnt i bwysigrwydd eu golwg ond pan fyddant yn siarad â rhywun fel fi, gall newid popeth."

Sicrhaodd Changing Faces ariannu i helpu sefydlu eu canolfan newydd a fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag unrhyw fath o anffurfiad.

Hefyd, bydd eu grant yn creu tair swydd newydd i gynyddu mynediad i wasanaethau arbenigol, hyrwyddo cefnogaeth ar-lein a thros y ffôn a gwaith gydag ysgolion i hyrwyddo cynhwysiad a chydraddoldeb y wyneb ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

Mae Monica'n credu y bydd yr ariannu'n chwarae rôl bwysig wrth helpu pobl eraill sydd ag anffurfiad y wyneb.

"Mae'r ariannu gan y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer Ymgynghorydd Cydraddoldeb Wynebau'n arbennig o bwysig," meddai hi. "Rydym mor gryf yn Changing Faces erbyn hyn ac mae'r tîm newydd hwn yn mynd i drawsnewid bywydau."



# £350,140

Derbyniodd Changing Faces arian gan ein rhaglen Supporting 21st Century Life. Bydd yr arian yn helpu darparu cymorth a chefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws Yr Alban.

**Prosiect:** Cyn-filwr Arwyr yn Ôl, Charles Medhurst

# Cwrdd â Charles



## Pan fu'n 17 oed, blwyddyn cyn iddo gael ei alw i wneud gwasanaeth rhyfel, agorodd Charles Medhurst y telegram a ddywedodd yr oedd ei frawd 19 oed wedi'i ladd ym Myrma.

Ac yntau'n 89 oed, gydag arian gan y rhaglen Arwyr yn Ôl, bu'n bosib i Charles ymgymryd â thaith emosiynol i Gofeb Rhyfel Kranji yn Singapôr i ddod o hyd i enw ei frawd.


Fel telegraffydd yn y Llynges, bu'n rhaid i Charles gofnodi negeseuon cod Morse ar gyflymder o 26 gair y funud. Bu Charles ar HMS Malaya, llong rhyfel a gymerodd ran wrth beledu amddiffynfeydd yr Almaenwyr ar ynys Cezembre, rhan o Ffrainc.

"Pan laddwyd fy mrawd, y cyfan a dderbyniodd fy mam oedd telegram yn dweud ei fod wedi'i ladd ar 24 Mawrth 1942 ac nad oedd unrhyw beth ar ôl ohono nag unrhyw eiddo.

"Roedd gennyf deimlad erchyll wrth i mi agor y telegram," meddai Charles, o Greenwich. "Bu'n rhaid i mi fynd i ddweud wrth fy mam, a aeth i lewyg. Ni fu iddi erioed ddod drosto. Dywedodd hi ddim byd pan ges i fy ngalw i fyny blwyddyn wedyn, ond mae'n rhaid ei bod wedi'i chynhyrfu.

"19 oed yn unig oedd fy mrawd Henry pan fu farw. Byddai wedi bod yn 92 oed petai'n fyw heddiw. Pan feddyliaf am ba mor ifanc yr oedd pan fuodd e farw, mae'n drasig. Un yn unig o filoedd oedd e."

> "Mae'n bwysig ymweld â'r gofeb a gweld ei enw - i weld ei fod wedi'i gydnabod am roi ei fywyd ac yntau mor ifanc."
> **Charles Medhurst**



**£4,070**

Gydag ariannu gan y rhaglen Arwyr yn Ôl, bu'n bosib i Charles ymgymryd â thaith emosiynol i Gofeb Rhyfel Kranji yn Singapôr i ddod o hyd i enw ei frawd.



**Prosiect:** Prosiectau Lifeline Nehemiah, LifeLine Network International

# Cwrdd â Phrosiectau Lifeline Nehemiah £40,786



## Bygythiodd yr argyfwng Ebola waith prosiectau rhyngwladol yng Ngorllewin Affrica ond mae ariannu hanfodol wedi'u cefnogi trwy'r cyfnod a chryfhau eu perthynas gyda chymunedau lleol.

Ym mis Awst 2014, datgelodd Arlywydd Sierra Leone argyfwng cenedlaethol o ganlyniad i'r achosion niferus o Ebola yn y wlad. Gwelodd LifeLine Network International (LNI) fod eu prosiect a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr i gefnogi oedolion ifanc i ddod o hyd i waith yn Sierra Leone, mewn perygl wrth iddynt frwydro i gyflwyno gwasanaethau yng nghanol yr argyfwng.

Roedd Prince Tommy, Dirprwy Gyfarwyddwr y partner lleol, Prosiectau Lifeline Nehemiah, yn derbyn triniaeth ar gyfer malaria yn yr ysbyty pan ddechreuodd claf arall waedu.

A hwythau'n amau Ebola, gwrthododd y staff meddygol â'i drin a ffodd cleifion eraill, gan adael yr ysbyty mewn tryblith. Cynyddwyd yr ofn gan ddiffyg ymwybyddiaeth o sut mae'r clefyd yn cael ei drosglwyddo.

> "Heb y grant ni fyddai gennym dîm y gallem eu hailaseinio i ymateb i Ebola."
> **Jamie Singleton**

Bu Prince a'i staff wedi'u syfrdanu gan y diffyg ymwybyddiaeth o Ebola mewn cymunedau, a phan dderbyniodd y grŵp ariannu ychwanegol i gefnogi'u hymateb i'r argyfwng Ebola, penderfynwyd cyflwyno rhaglen waith cynyddu ymwybyddiaeth, addysg ac atal.

Mae'r prosiect yn defnyddio ffilm, drama a storïau goroeswyr i addysgu a grymuso pobl i adnabod symptomau a chadw'n ddiogel ac yn obeithiol. Ers derbyn eu hariannu, maen nhw wedi cyrraedd dros 30,000 o bobl gyda'u gwaith addysg Ebola.



**£40,786**

Derbyniodd LNI arian gan y rhaglen Cymunedau Rhyngwladol i gefnogi eu hymateb i'r argyfwng Ebola – ar gyfer gwaith cynyddu ymwybyddiaeth, addysg ac atal.

**Prosiect:** The Fitting Room

# Cwrdd â The Fitting Room



**Mae prosiect Arian i Bawb yn dilyn bywydau wyth menyw sydd wedi colli aelod o'r corff wrth iddynt wynebu a goresgyn heriau bob dydd yn y ffilm, The Fitting Room.**

Collodd Nicola Lane, sy'n gwneud ffilmiau, ei choes o dan y pen-glin pan gafodd ei bwrw gan fws yn Sgwâr Trafalgar. "Roeddem eisiau dangos i bobl eraill sydd wedi colli aelod o'r corff nad ydynt ar eu pennau eu hunain," meddai Nicola. "Rydym ni'n deall y pryderon go iawn mewn bywyd i rywun sydd wedi colli aelod o'r corff – sut gall y tywydd poeth effeithio ar ffit eich coes, y pryder sydd ynghlwm wrth roi cynnig ar esgidiau newydd, siopa mewn archfarchnad, neu fynd ar wyliau."

Y 'ni' yw grŵp o fenywod a ddechreuodd sgwrsio wrth iddynt aros i weld eu prosthetydd (y person sy'n gosod ac yn atgyweirio eu haelod newydd) yn Ysbyty Stanmore, Middlesex. Roedd rhannu eu problemau a theimladau'n help enfawr a ganwyd grŵp Facebook y Fitting Room Friends.

Dyma le y gallwn ni i gyd sgwrsio a chefnogi'n gilydd hyd yn oed os nad ydym yn llwyddo i gwrdd yn yr ysbyty," meddai Michelle Meltzer. "Rydym yn rhannu awgrymiadau ymarferol sy'n ein helpu i oresgyn heriau bob dydd byw heb aelod o'r corff."

Sicrhaodd Nicola ariannu i ffilmio'r profiadau a wynebir gan ei chyfeillion a chyd-drychedigion o'r ysbyty a'r grŵp Facebook.

Mae'r camera'n dilyn y menywod y tu mewn i'r Fitting Room wrth iddynt brofi'r broses anodd o osod coes newydd - rhywbeth nad yw wedi cael ei ddangos o'r blaen.

Bu'r ymateb i'r ffilm yn gadarnhaol dros ben, ac yn awr mae'r grŵp eisiau ei ddosbarthu i ganolfannau gosod aelod eraill a helpu pobl eraill sydd wedi colli aelod a'r rhai sy'n paratoi am lawdriniaeth.

> "Rwy'n teimlo y gall y ffilm wneud sut gymaint o les, mae'n helpu cynyddu ymwybyddiaeth o sut brofiad yw bywyd ar ôl colli aelod."
>
> **Michelle Meltzer**



## £9,978

Sicrhaodd Nicola gyllid gan Arian i Bawb i ffilmio'r profiadau a wynebir gan ei chyfeillion a chyd-drychedigion o'r ysbyty a'r grŵp Facebook.



**Prosiect:** Grŵp Gwydnwch Cymunedol Cushendall

# Cwrdd â Paddy



**Mae trigolion Cushendall, pentref ar arfordir Gogledd Antrim, wedi wynebu heriau o stormydd difrifol, eira, llifogydd trwm ac ymchwydd y llanw. Er iddynt ddigwydd yn anaml, mae'r digwyddiadau hyn wedi cael effaith fawr ar y gymuned leol.**

Yn ymwybodol bod yna lawer o bobl leol â sgiliau gwerthfawr sy'n fodlon gwirfoddoli mewn argyfwng, daeth Grŵp Gwydnwch Cymunedol Cushendall ynghyd i benderfynu pa gamau y gallent eu cymryd.

Ar ôl cwrdd i drafod beth yr oedd ei angen ar y gymuned, penderfynodd y grŵp i greu un cynllun cydlynol a fyddai'n defnyddio sgiliau ac adnoddau lleol yn achos argyfwng.


Adnabuwyd generadur gan y grŵp fel darn hanfodol o gyfarpar gan yr oedd toriadau trydan blaenorol wedi gadael trigolion heb wres a golau am ddyddiau.

Derbyniodd y grŵp grant Arian i Bawb i brynu'r generadur a chynhyrchu eu cynllun argyfwng fel llyfryn i'w ddosbarthu i drigolion lleol. Mae'r llyfryn yn amlinellu'r risgiau y maent yn eu hwynebu fel cymuned, beth i'w wneud mewn argyfwng a phwy i gysylltu â nhw.

Mae gwybodaeth ymarferol yn y cynllun yn cynnwys popeth o osod bagiau tywod i flancedi a gwelyau ac mae'r holl weithgareddau wedi'u cydlynu'n agos â gwasanaethau brys Gogledd Iwerddon.

Ar gyfer cymuned wledig Cushendall, mae'r cynllun argyfwng yn darparu cysur yn lle teimlo, fel yr oeddent ar un adeg, yn agored i niwed ac yn arunig.

> "Mae gennym gymuned wych, gyda chymhelliad mawr a meddwl cydlynol - nid ydym yn aros i rywun arall ei wneud, ni sy'n gwneud e. Mae'r cynllun hwn yn rhoi sicrhad i bobl fregus mewn adeg o angen y bydd cymorth ar gael nes bod y gwasanaethau brys yn cyrraedd."
>
> **Paddy McLaughlin**



## £9,990

Sicrhaodd Grŵp Gwydnwch Cymunedol Cushendall grant Arian i Bawb i roi eu cynlluniau ar waith.

**Prosiect:** Menter Gymdeithas ac Ymddiriedolaeth Ddatblygu Glyn Wylfa

# Cwrdd ag Ymgyrchwyr Glyn Wylfa




## Mae Tŷ Hanesyddol Glyn Wylfa yng Ngogledd Cymru'n fwrlwm o fywyd diolch i'r bobl leol a ymgyrchodd i'w achub rhag cael ei ddymchwel ac a'i trawsnewidiodd i fenter gymdeithasol ffyniannus.

Mae Glyn Wylfa, a adeiladwyd yn wreiddiol ym 1899, wedi gweld sawl trawsnewidiad o fod yn gartref yn yr oes Fictoraidd i swyddfeydd y cyngor i adeilad adfeiliedig a oedd ar fin cael ei fwrw i lawr a'i werthu i ddatblygwyr. Bryd hynny dechreuodd grŵp ymroddedig o drigolion Y Waun ymgyrch i amddiffyn y darn hwn o dreftadaeth leol ryfeddol a dod â bywyd newydd i'r gymuned.

Mae Brian Colley, cyn-reolwr gyfarwyddwr sydd wedi lled-ymddeol, yn un o'r trigolion a gamodd i'r adwy i gynnig ei arbenigedd.

> "Mae'r gymuned yn caru'r cyfleuster, roedd gennym 35,000 o ymwelwyr y llynedd. Mae'n hyb gwirioneddol dda sydd wedi adeiladu perthnasoedd newydd a chreu sawl cyfeillgarwch newydd."
> **Brian Colley**

"Roedd yr adeilad mewn cyflwr truenus gyda'r holl ffenestri wedi'u torri a'r glaw yn treiddio," meddai Brian. "Roedd lladron wedi cymryd popeth ac roedd wedi'i ordyfu'n llwyr.

Gyda llawer o gefnogaeth leol, yn y pen draw darbwyllodd y grŵp berchnogion y safle, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, i ganiatáu i'r gymuned redeg yr adeilad fel menter gymdeithasol.

Sicrhaodd yr ymgyrchwyr ariannu gan y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol, cynllun a redir mewn partneriaeth rhwng y Gronfa Loteri Fawr a Llywodraeth Cymru - i drosglwyddo asedau sy'n eiddo i awdurdodau lleol i ddwylo'r gymuned.

"Dyna oedd adeg o orfoledd mawr i bawb a oedd yn cymryd rhan," esboniodd Brian. "Mae'n bartneriaeth anhygoel."

Heddiw mae'r fenter yn ffynnu; gan greu swyddi lleol a darparu caffi, canolfan gwybodaeth i ymwelwyr a swyddfeydd i'w rhentu i'r gymuned.



## £633,000

Sicrhaodd yr ymgyrchwyr ariannu gan y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol - cynllun a redir mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.



**Prosiect:** Ymddiriedolaeth Gymunedol Newmains

# Cwrdd â Robert

## Mae pobl leol Newmains, Gogledd Swydd Lanark, wrth wraidd trawsnewidiad pwysig sy'n digwydd yn eu cymuned.



Mae Robert Arthur wedi byw yn ardal Newmains ers dros 25 mlynedd ac fel Cadeirydd Ymddiriedolaeth Gymunedol Newmains, mae'n chwarae rôl hanfodol wrth helpu'r gymuned i benderfynu sut i wario'r £2.3 miliwn a ddyfarnwyd i wella bywyd lleol.

Mae'r ariannu'n rhan o fenter sy'n rhoi cyfle i bum cymuned yn Yr Alban i bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar sut y dylid gwario arian Loteri yn eu hardal.


"Cyfle anhygoel yw'r arian o'r rhaglen Our Place, yn enwedig gan y rhoddwyd y penderfyniad ar sut i'w wario i bobl leol," meddai Robert.

I gyrraedd eu penderfyniad, ymgynghorodd yr Ymddiriedolaeth yn helaeth gyda'r gymuned leol. Yn ddi-os, ardal ddifreintiedig yw hon ond mae hefyd yn gymuned gyda llawer o gartrefi ond ychydig iawn o gyfleusterau," esboniodd Robert. "Nid oedd yn syndod, felly, pan ddatgelodd yr ymarfer ymgynghori mai canolfan gymunedol newydd oedd yr hyn a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ni i gyd."

Bydd Hyb Cymunedol Newmains yn rhan ganolog o gynlluniau'r ardal ac yn darparu cyfleuster amlddiben gyda gwasanaethau wedi'u rhedeg gan a thros y gymuned. Bydd yn cynnwys llyfrgell, ystafelloedd cyfarfod, neuadd chwaraeon, parthau ieuenctid, swyddfa tai a chaffi.

"Fy nghymhelliad trwy'r amser yw grymuso cymunedau a rhan o hynny yw gwneud y ganolfan gymunedol yn lle y mae pobl eisiau dod iddi," meddai Robert.

> "Mae hyn yn ymwneud â phobl, o bob oedran. Rydym eisiau iddynt deimlo'n rhan o'r gymuned a dymuno am aros yma a gweithio tuag at ei wneud yn lle gwell i bawb."
> **Robert Arthur**




## £2.3 miliwn

Mae Ymddiriedolaeth Gymunedol Newmains yn chwarae rôl hanfodol wrth helpu'r gymuned i benderfynu sut i wario £2.3 miliwn gan y rhaglen Our Place a ddyfarnwyd i wella bywyd lleol.

# Rhan dau

## Adran pump: Ein hadroddiad strategol
## Adran chwech: Ein llywodraethu
## Adran saith: Ein cyfrifon
## Adran wyth: Ein cefndir statudol



# Adran pump: Ein hadroddiad strategol

## Ein hamcanion corfforaethol

Mae ein cynllun corfforaethol blynyddol yn disgrifio ein cyllidebau, amcanion a thargedau ar gyfer y flwyddyn.

Adnabu Cynllun Corfforaethol 2014/15 dri amcan corfforaethol i lunio ein blaenoriaethau a phennwyd pum dangosydd perfformiad allweddol i fesur llwyddiant. Mae ein perfformiad yn erbyn y rhain wedi cael ei fonitro yn erbyn ein targedau a gyhoeddwyd, ac adroddwyd amdano i'r Bwrdd trwy gydol y flwyddyn.

Dyma grynodeb o sut rydym wedi perfformio yn erbyn y tri amcan.

## Amcan corfforaethol un:

**Rydym yn rheoli arian cyhoeddus yn effeithlon.**

| | Dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|---|
| 1 | **Mae o leiaf 80 y cant o'r cyfanswm cyllideb grant cytunedig ar gyfer 2014/15 wedi'i ymrwymo.** | • Dangosydd perfformiad allweddol wedi'i gyflawni<br>• Ymrwymwyd **89.6 y cant** o'r cyfanswm cyllideb grant cytunedig ar gyfer 2014/15<br>• Yn ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2014/15 gwnaethom ymrwymo i ddyfarnu cyfanswm cyllideb grant o £1,142 miliwn. Gwerth gwirioneddol y dyfarniadau a wnaed oedd £1,023.3 miliwn<br>• Mae targed ein cynllun corfforaethol yn seiliedig ar ddyfarniadau gwirioneddol a wnaed yn y flwyddyn ac nid yw'n cynnwys yr addasiadau diwedd blwyddyn ar gyfer rhwymedigaethau amodol lle nad yw'r derbynnydd wedi cael ei hysbysu'n ffurfiol am y dyfarniad neu addasiadau cyfrifyddu mewn perthynas â grantiau amodol. Dyma pam mae'r gwerth yn wahanol i'r ymrwymiadau grant a ddangosir yn y cyfrifon. |
| 2 | **Erbyn diwedd y flwyddyn mae'r grantiau a delir i'r holl brosiectau a ariannwn o fewn 20 y cant o'r cyfanswm taliadau rydym yn ei ragfynegi.** | • Dangosydd perfformiad allweddol wedi'i gyflawni<br>• Erbyn diwedd y flwyddyn roeddem wedi talu gwerth £803.8 miliwn o daliadau grant; **96 y cant** o'r taliadau grant gwreiddiol a ragamcanwyd. |
| 3 | **Mae gwariant ar gostau gweithredu (costau craidd a rheng flaen) o fewn y gyllideb a bennwyd £51.7 miliwn.** | • Dangosydd perfformiad allweddol wedi'i gyflawni<br>• Ein cyfanswm costau gweithredu cymwys oedd **£48 miliwn**; 6.5 y cant o incwm y Loteri Genedlaethol, sy'n dangos ein hymrwymiad i gadw'r cyfanswm costau gweithredu islaw'r terfyn 8 y cant a bennir gan y Llywodraeth (gweler tudalen 90)<br>• Roedd y costau craidd a'r costau rheng flaen yn £36.4 miliwn ac £11.6 miliwn. Fel canran o incwm y Loteri Genedlaethol, roedd y rhain yn 4.6 y cant (islaw'r terfyn 5 y cant a bennwyd) ac 1.6 y cant (islaw'r terfyn 3 y cant a bennwyd) yn ôl eu trefn. |



## Amcan corfforaethol dau:

**Dywedodd y rhai sydd wedi ymholi am ein hariannu, ymgeisio amdano neu ei dderbyn ein bod wedi darparu gwasanaeth ardderchog iddynt. Mae gennym berthnasoedd cryf a chadarnhaol gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn gyffredinol.**

| | Dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|---|
| 4 | **Mae o leiaf 77 y cant o gwsmeriaid yn fodlon ar ein gwasanaeth.** | • Dangosydd perfformiad allweddol wedi'i gyflawni<br>• Dangosodd ein harolwg boddhad cwsmeriaid fod **79.4 y cant** (80.5 y cant yn 2013/14) o'n cwsmeriaid yn fodlon ar y profiad cyffredinol o'n gwasanaeth. Rydym yn ystyried bod y gostyngiad 1.1% mewn boddhad cwsmeriaid o fewn ffin dderbyniol mewn perthynas â'r DPA. Achoswyd hyn gan faterion sefydlogi mewn perthynas â'r system rheoli ariannu ar ddechrau'r flwyddyn a gwellodd perfformiad erbyn diwedd y flwyddyn<br>• Ymdriniodd y Gronfa â thros 90,000 o ymholiadau a cheisiadau yn ystod y flwyddyn. Trwy ein gweithdrefn gwynion ffurfiol rydym wedi cofnodi 37 o gwynion am wasanaeth a dderbyniwyd eleni (37 yn 2013/14). |

## Amcan corfforaethol tri:

**Mae ein rhaglenni ariannu'n dod â gwir welliannau i fywydau ein buddiolwyr.**

| | Dangosydd perfformiad allweddol | Adroddiad diwedd blwyddyn |
|---|---|---|
| 5 | **Mae o leiaf 92 y cant o raglenni grant yn cyflawni eu gradd effeithiolrwydd gytunedig.** | • Dangosydd perfformiad allweddol heb ei gyflawni'n llwyr<br>• Asesir rhaglenni ar draws tri phrif faes: pa mor dda yr ydym yn eu rheoli nhw; y dysgu sy'n cael ei gofnodi; ac effaith<br>• Eleni adolygwyd 43 o'n 62 o raglenni a ariennir gan y Loteri Genedlaethol a barnwyd bod 39 (90.7 y cant o'r rhai a adolygwyd) yn 'effeithiol' (**92.9 y cant** yn 2013/14)<br>• Rydym yn ystyried bod y gostyngiad bach hwn o 2.2% o'i gymharu â'r llynedd o fewn ffin dderbyniol, ac rydym yn cymryd camau priodol i ymdrin ag unrhyw faterion a adnabuwyd ar y rhaglenni hynny nad ydynt yn cyflawni eu gradd darged. |

## Ein hadroddiad strategol: perfformiad ariannol

Rydym yn ymrwymedig i fwyafu ein hariannu, adnoddau, gwybodaeth a rhwydweithiau i gefnogi pobl, prosiectau a chymunedau ar draws y Deyrnas Unedig.

Ein mesur effeithlonrwydd ariannol allweddol yw'r gyfran o incwm Loteri a wariwn ar ddosbarthu'r arian. O'r mesur hwn rydym yn eithrio costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri. Rydym hefyd yn hepgor costau unigol sy'n fuddsoddiadau i gyflawni effeithlonrwydd yn y dyfodol (gweler tudalen 92).

### Yr hyn a gyflawnwyd yn 2014/15

Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i gyflawni ein targed costau gweithredu craidd 5 y cant. Y costau gweithredu craidd ar gyfer dosbarthu incwm Loteri oedd £36.4 miliwn.

Y cyfanswm costau gweithredu oedd £53.4 miliwn, gostyngiad o £0.7 miliwn o'i gymharu â 2013/14 (£54.1 miliwn). Roedd y costau gweithredu'n cynnwys cynnydd o £1 miliwn mewn amorteiddio'r system rheoli ariannu ac o ganlyniad i hynny parhawyd i wneud arbedion sylweddol mewn meysydd eraill.

Mae nifer y staff wedi gostwng ymhellach gyda chyfwerth ag amser llawn (CaALl) cyfartalog o 905 (2013/14 992). Cynlluniwyd gostyngiadau'n wreiddiol yn dilyn gweithrediad y system rheoli ariannu newydd ar gyfer 2013/14 ond cawsant eu gohirio tan 2014/15 i raddau helaeth. Cymerwyd camau ailstrwythuro pellach yn ystod y flwyddyn yn y Gyfarwyddiaeth Datblygu ac Ymgysylltu.

> Roedd ein costau gweithredu Loteri Genedlaethol cymwys yn 6.5 y cant o incwm Loteri yn 2014/15 (2013/14 7.3 y cant).
>
> Ein costau gweinyddu craidd oedd 4.9 y cant o incwm Loteri yn 2014/15 (2013/14 5.4 y cant).

Mae'r costau gweinyddu craidd yn ymwneud yn bennaf â phrosesu ceisiadau a rheoli grantiau, gan gynnwys yr holl gostau cefnogi. Mae'r cyfanswm costau gweithredu Loteri Genedlaethol yn cynnwys cefnogaeth rheng flaen i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a'r cyhoedd. Er enghraifft, diffinnir darparu cyngor a chymorth i fudiadau sy'n ymgeisio am arian Loteri Genedlaethol, a gweithgareddau i gynnwys y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ar y Loteri Genedlaethol fel costau rheng flaen.

Mae rhai costau gweithredu, yn fwyaf penodol cyfraddau busnes, wedi'u diarddel o gostau gweithredu cymwys at ddiben y mesur perfformiad ariannol.

### Yr hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni yn 2015/16

Rydym wedi cyllidebu i gyflwyno cyfanswm costau gweithredu o 7 y cant yn 2015/16, gan gynnal y targed costau gweithredu craidd o 5 y cant. Mae'r targed yn seiliedig ar incwm Loteri o £720 miliwn, fel a ragamcanwyd gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) ym mis Ionawr 2015, yn syth cyn i'n cyllideb gael ei pharatoi.

Seiliwyd y gyllideb ar adnoddau sydd eisoes yn bodoli yn y mudiad, gan ymgorffori symiau wrth gefn sy'n ddigonol i ganiatáu ar gyfer digwyddiadau nas cynlluniwyd ac i ariannu a chyflwyno gweithgareddau buddsoddi i gefnogi gweithrediad y strategaethau galluogi cyflwyno'r Fframwaith Strategol.

Ym mis Mawrth 2015 ein cyfanswm CaALl oedd 853 (gostyngiad o 980 ym mis Mawrth 2014). Nid ydym yn cynllunio unrhyw newid sylweddol o'r lefel hon dros y flwyddyn ariannol 2015/16. Rydym hefyd yn parhau i adolygu ein hystadau swyddfa, ac yn rhagweld medru parhau â'r gostyngiadau a gyflawnwyd eisoes yn ystod 2014/15. Bydd y mesurau hyn yn helpu sicrhau y gallwn gyflawni ein targedau o ran costau y flwyddyn nesaf.

Nid ydym yn disgwyl cyflawni lefel arbedion mor uchel â'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol trwy weithredu system rheoli ariannu newydd. Fodd bynnag, byddwn am fireinio'r system a phrosesau cysylltiedig er mwyn gwella effeithlonrwydd a'n helpu ni i reoli ein costau gweithredu.

### Ein diffyg ar gyfer y flwyddyn

Roedd gennym ddiffyg o £151 miliwn ar gyfer y flwyddyn 2014/15 (2013/14 £221 miliwn). Ein diffyg cronnus ar 31 Mawrth 2015 oedd £874 miliwn (31 Mawrth 2014 £723 miliwn).

Mae ein polisi cyfrifyddu'n mynnu ein bod yn trin dyfarniadau fel gwariant cyhyd â bod eu cymeradwyaeth yn cael ei chyfathrebu i'r derbynnydd (yn amodol ar feini prawf penodol). Rydym yn rheoli ein llif arian dros y tymor hwy, yn seiliedig ar ymrwymiadau arian grant am incwm a ragamcanir yn hytrach na rheoli gwarged neu ddiffyg tybiedig o flwyddyn i flwyddyn. Pan delir dyfarniadau dros nifer o flynyddoedd, rydym yn hyderus, felly, y bydd modd i ni fodloni ein hymrwymiadau o incwm y dyfodol.



### Ein strategaeth ariannu

Ein strategaeth yw dyfarnu'r gwerth uchaf posib o ddyfarniadau y gallwn ymrwymo iddynt yn ddiogel dros gyfnod o bum mlynedd. Gan fod llawer o'n grantiau'n talu allan dros nifer o flynyddoedd yn dilyn y dyfarniad cychwynnol, mae'r strategaeth hon yn sicrhau bod ein dyfarniadau wedi'u diogelu rhag unrhyw newidiadau annisgwyl mewn incwm. Wrth geisio mwyafu buddion rydym yn ymrwymo ein hariannu er mwyn i ni wneud ymrwymiadau'r dyfodol yn erbyn incwm disgwyliedig. Ar 31 Mawrth 2015 roedd gennym werth £1,254 miliwn (2013/14 £1,171 miliwn) o ymrwymiadau yn ddyledus o'i gymharu â £324 miliwn [2013/14 £383 miliwn] a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol i'w talu. Golyga hyn yr oeddem wedi gwneud ymrwymiadau dros ben o £930 miliwn (2013/14 £788 miliwn) sydd cyfwerth â thua 15 mis o incwm y dyfodol yn seiliedig ar ein rhagamcaniadau cyfredol.

### Rhaglenni ariannu nad ydynt yn gysylltiedig a'r Loteri (Trydydd Parti)

Yn ogystal â'n busnes craidd o ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol, rydym yn rheoli dau fath o ariannu nad ydynt yn gysylltiedig â'r Loteri (neu Grantiau Trydydd Parti), gan ddefnyddio pwerau a roddwyd i ni gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006. Mae'r pwerau hyn yn rhoi'r cwmpas i ni weithio gydag eraill i ddosbarthu arian ar ran, neu ochr yn ochr â, mudiadau eraill, pan ddaw hyn o fewn y meysydd ariannu a bennir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein gwaith a phan fydd yn gweddu i'n cenhadaeth.

Ers mis Tachwedd 2008 mae'r Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur wedi galluogi banciau a chymdeithasau adeiladu i drosglwyddo arian a ddelir mewn cyfrifon segur i gronfa adennill ganolog ar gyfer ail-fuddsoddi yn y gymuned. Yn ogystal â chyflawni gwaith trydydd parti, rydym hefyd yn derbyn trosglwyddiadau o'r Gronfa Reclaim Ltd, sef arian o gyfrifon banc a chymdeithas adeiladu, yr oedd ganddo werth o £46.5 miliwn yn 2014/15 (2013/14 £83.6 miliwn). Rydym yn adneuo arian hyd nes y bydd ei angen a derbyniwyd llog o £128,000 (2013/14 £106,000. Ymddengys set femorandwm o gyfrifon blynyddol mewn perthynas â'r gweithgareddau hyn ar dudalen 111.

### Balansau Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Delir enillion net y Loteri Genedlaethol yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF), o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon hyd nes iddo gael ei dynnu i lawr gan ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn derbyn yr un gyfran o incwm buddsoddi'r NLDF ag elw o'r Loteri Genedlaethol, (40 y cant). Yn 2014/15 £3.2 miliwn oedd hwn (2013/14 £3.1 miliwn).

> Roedd ein balans NLDF yn £324 miliwn ar 31 Mawrth 2015 (2013/14 £383 miliwn).

Mae ein balans wedi gostwng o dros £1 biliwn yn 2004 ac yn awr yn codi a gostwng o gwmpas y lefel isaf sy'n ochelgar yn seiliedig ar ymrwymiadau'r dyfodol ac incwm a ragamcanir. Nid ydym yn pennu targed ar gyfer ein balansau NLDF. Gan nad ydym yn rheoli incwm y Loteri, mae'n amhosib i ni reoli'r balans yn y tymor byr. Ein strategaeth ariannu yw gwneud ymrwymiadau grant o'r gwerth uchaf posib a allwn dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd hyn yn arwain at falans NLDF sydd mor isel ag sy'n ochelgar. Bydd y lefel go iawn yn amrywio'n unol â strwythur ac amseriad ein rhaglenni ar unrhyw adeg benodol.

### Archwilwyr

O dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, mae'n rhaid i'n cyfrifon blynyddol gael eu harchwilio a'u hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gronfa Loteri Fawr yn ymwybodol ohoni.

### Deiliad gwybodaeth sector cyhoeddus

Yn gyffredin â'r holl gyrff cyhoeddus, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ddeiliad gwybodaeth sector cyhoeddus. Nid yw wedi codi tâl am ailddefnyddio gwybodaeth yn benodol.

## Ein hadroddiad strategol: cydraddoldeb a chyflogeion

Mae ein strategaeth gydraddoldeb yn pennu ein blaenoriaethau yn y maes hwn, fel cyflogwr ac fel ariannwr. Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gynyddu cyfranogiad staff a'u hymwybyddiaeth o ystyriaethau cydraddoldeb ar draws y mudiad.

Mae ein hegwyddorion ac arweiniad cydraddoldeb ar gyfer ymgeiswyr a deiliaid grantiau ar ein gwefan: http://www.biglotteryfund.org.uk/welsh/about-big/our-approach/equalities

Mae'r tabl isod yn amlygu monitro cydraddoldeb ein rhaglenni grantiau.

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a % o'r swm y gofynnwyd amdano | | Swm a ddyfarnwyd a % o'r swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ethnigrwydd (gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o gefndir ethnig penodol. Gallant ddewis hyd at dri chategori ac felly mae'r atebion hyn yn cynnwys cyfrif dwbl a thriphlyg.)** | | | | | | | | |
| Dim ethnigrwydd penodol | 14,004 | 63% | 9,760 | 70% | £910,647,987 | 62% | £582,022,362 | 66% |
| Asiaidd/Asiaidd DU | 1,443 | 6% | 966 | 67% | £140,999,159 | 10% | £78,325,690 | 9% |
| Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/Du o'r DU | 1,381 | 6% | 787 | 57% | £36,103,268 | 2% | £24,985,307 | 3% |
| Grwpiau ethnig cymysg /lluosog | 1,104 | 5% | 721 | 65% | £46,112,066 | 3% | £21,464,129 | 2% |
| Grŵp ethnig arall | 455 | 2% | 310 | 68% | £15,662,472 | 1% | £11,019,267 | 1% |
| Gwyn arall | 1,082 | 5% | 753 | 70% | £128,448,216 | 9% | £70,758,227 | 8% |
| Gwyn DU | 2,928 | 13% | 2,007 | 69% | £196,931,307 | 13% | £97,987,116 | 11% |
| **Oedran (gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grŵp oedran penodol. Gall ymgeiswyr ddewis mwy nag un grŵp oedran ac felly gall yr atebion hyn gynnwys cyfrif lluosog.)** | | | | | | | | |
| 0-24 | 8,414 | 38% | 5,766 | 69% | £557,547,617 | 36% | £386,539,907 | 42% |
| 25-64 | 3,955 | 18% | 2,725 | 69% | £364,426,621 | 24% | £224,215,106 | 24% |
| 65+ | 2,097 | 9% | 1,565 | 75% | £231,443,388 | 15% | £121,204,406 | 13% |
| Dim oedran penodol | 7,656 | 35% | 5,185 | 68% | £376,555,982 | 25% | £196,374,445 | 21% |
| **Rhyw (gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o ryw benodol.)** | | | | | | | | |
| Benyw | 502 | 3% | 326 | 65% | £20,956,389 | 2% | £14,119,588 | 2% |
| Gwryw | 1,246 | 7% | 871 | 70% | £128,629,468 | 11% | £56,514,947 | 8% |
| Dim rhyw benodol | 16,555 | 90% | 11,429 | 69% | £1,053,110,240 | 88% | £668,494,198 | 90% |
| **Cefndir cymunedol (gofynnir i ymgeiswyr sy'n ymgeisio i raglenni sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon i ba gymuned mae'r rhai sy'n elwa o'u prosiect yn perthyn iddi'n bennaf.)** | | | | | | | | |
| Catholig a Phrotestannaidd | 585 | 55% | 287 | 49% | £77,975,364 | 79% | £10,523,915 | 77% |
| Catholig yn bennaf | 201 | 19% | 111 | 55% | £10,286,261 | 10% | £997,132 | 7% |
| Protestannaidd yn bennaf | 261 | 24% | 153 | 59% | £8,198,315 | 8% | £1,320,967 | 10% |
| Heb fod yn Gatholig neu Brotestannaidd | 18 | 2% | 11 | 61% | £2,230,788 | 2% | £793,386 | 6% |

| | Nifer y ceisiadau a'r gyfradd ymgeisio | | Nifer y dyfarniadau a chyfradd lwyddo'r ceisiadau | | Swm y gofynnwyd amdano a % o'r swm y gofynnwyd amdano | | Swm a ddyfarnwyd a % o'r swm a ddyfarnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Iaith Gymraeg (Gofynnir i ymgeiswyr sy'n ymgeisio i raglenni yng Nghymru faint o bobl a fydd yn elwa o'u prosiect sy'n siarad Cymraeg.)** | | | | | | | | |
| Di-gymraeg yn Bennaf | 767 | 65% | 583 | 76% | £35,943,148 | 89% | £20,039,043 | 90% |
| Cymraeg yn Bennaf | 316 | 27% | 240 | 76% | £2,759,263 | 7% | £1,607,181 | 7% |
| Dim Cymraeg | 98 | 8% | 78 | 80% | £1,648,479 | 4% | £599,952 | 3% |
| **Crefydd neu gred (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl o grefydd neu gred benodol.)** | | | | | | | | |
| Cristnogaeth | 559 | 3% | 334 | 60% | £20,264,281 | 2% | £5,808,270 | 1% |
| Hindŵaeth | 18 | 0% | 10 | 56% | £348,058 | <1% | £85,170 | <1% |
| Iddewiaeth | 163 | 1% | 114 | 70% | £2,467,889 | <1% | £2,084,930 | <1% |
| Moslemiaeth | 163 | 1% | 92 | 56% | £5,383,458 | <1% | £1,881,498 | <1% |
| Sikhiaeth | 8 | 0% | 8 | 100% | £1,314,489 | <1% | £1,175,451 | <1% |
| Crefydd arall | 9 | 0% | 7 | 78% | £80,407 | <1% | £57,588 | <1% |
| Dim crefydd benodol | 17,386 | 95% | 12,063 | 69% | £1,172,027,281 | 98% | £728,702,231 | 99% |
| **Anabledd (Gofynnir i ymgeiswyr a yw eu prosiect o fudd pennaf i bobl anabl.)** | | | | | | | | |
| Heb fod yn anabl | 15,909 | 87% | 10,847 | 68% | £1,003,642,761 | 83% | £626,023,824 | 84% |
| Anabl | 2,378 | 13% | 1,786 | 75% | £199,181,377 | 17% | £115,876,695 | 16% |
| **Tueddfryd rhywiol (Gofynnir i ymgeiswyr nodi a yw eu prosiect yn arbennig o berthnasol o bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.)** | | | | | | | | |
| Lesbiaid/ dynion hoyw/ pobl ddeurywiol | 159 | 1% | 114 | 72% | £12,117,780 | 1% | £10,601,595 | 1% |
| Heb fod yn benodol i bobl hoyw/ lesbiaid/ pobl ddeurywiol | 18,635 | 99% | 12,732 | 68% | £1,306,032,718 | 99% | £775,577,949 | 99% |

## Cydraddoldeb mewn cyflogaeth

Mae'r tabl isod yn amlygu monitro cydraddoldeb ar draws ein cyflogeion.

| Statws Anabledd | Cronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Staff ag anableddau | 5.4% | 8.8% | 13% |
| Staff heb anableddau | 94.6% | 91.2% | 87% |

| Rhyw | Cronfa Loteri Fawr | Gwasanaeth Sifil | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|---|
| Benyw | 63.8% | 53.6% | 44% |
| Gwryw | 36.2% | 46.4% | 56% |

| Rhyw | Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr | UDRh y Gronfa | Staff Uwch y Gronfa Loteri Fawr (Gradd D & E) |
|---|---|---|---|
| Benyw | 52% | 50% | 60% |
| Gwryw | 48% | 50% | 40% |

| Grŵp Ethnig | Cronfa Loteri Fawr | Poblogaeth y DU sy'n weithgar yn economaidd |
|---|---|---|
| Asiaidd | 6.2% | 3.0% |
| Du | 2.7% | 1.4% |
| Tsieineaidd | 0.2% | 0.3% |
| Cymysg | 1.0% | 1.5% |
| Arall | 0.7% | 0.4% |
| Gwyn arall | 4.4% | 3.4% |
| **Cyfanswm Du a lleiafrifoedd ethnig (BME)** | **15.2%** | **10.0%** |
| **Gwyn DU** | **83.5%** | **90%** |
| Dim gwybodaeth | 0.7% | |
| Ddim eisiau datgan | 0.6% | |

### Adran 75, Deddf Gogledd Iwerddon 1998

Gan fod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n holl waith, parhawn i gyflwyno gofynion y dyletswyddau statudol o dan Adran 75 Deddf Gogledd Iwerddon 1998. Cyflwynwyd ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol i Gomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon ym mis Awst 2014.

### Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym wedi'n hymrwymo i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru trwy Gynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr a gyhoeddwyd yn 2009. Mae gweithrediad y Cynllun yn cael ei fonitro a'i drafod mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng Swyddog Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr a Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg. Adolygwyd ein cynllun yn 2013 yn unol â Mesur y Gymraeg newydd, a barnwyd ei fod o safon dda.

Yn ystod 2014 ymgynghorwyd â staff wrth ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus Comisiynydd y Gymraeg ar sut y caiff cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sydd ar ddod ei gorfodi. Edrychwn ymlaen at dderbyn gwybodaeth bellach am yr amserlen ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg a byddwn yn cydweithio'n agos â chydweithwyr a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod y broses hon i sicrhau y bydd y newid o'n Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg mor llyfn â phosib.



### Cyfranogiad cyflogeion

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr berthynas adeiladol gyda'r undebau ar y cyd cydnabyddedig, Prospect ac Unite, ac yn ceisio annog a dod o hyd i gyfleoedd i gynnwys ac ymgynghori â chyflogeion. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ceisio barn a safbwyntiau ei staff yn rheolaidd trwy ddeialog anffurfiol a thrwy arolygon ymgysylltu â chyflogeion blynyddol ffurfiol.

### Absenoldeb salwch staff

Rydym yn ymrwymedig i iechyd a lles ein staff. Mae gan y Gronfa bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr ac mae hefyd yn ymgymryd â phrosiect lles a arweinir gan gyflogeion. Yn ystod 2014/15 y nifer cyfartalog o ddiwrnodau o absenoldeb salwch oedd 9.2 diwrnod fesul gweithiwr (8.4 diwrnod yn 2013/14).

### Ein polisi ac arfer talu

Yn unol â'r canllaw Arferion Talu Gwell, rydym yn anelu at dalu ein holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl derbyn anfoneb, oni bai bod amodau a thelerau eraill wedi'u cyd-drafod. Yn 2014/15, talwyd 98 y cant (96 y cant yn 2013/14) o'r holl gredydwyr o fewn 30 niwrnod ar ôl i ni dderbyn anfoneb nad yw'n destun anghydfod.

Roedd canran y cyflenwyr a dalwyd o fewn 10 niwrnod o dan her talu'n brydlon y Llywodraeth yn 40 y cant yn ystod 2014/15 (36 y cant yn 2013/14).

12 diwrnod oedd ein diwrnodau credydwr cyffredinol (cyfanswm gwerth ein credydwyr ar 31 Mawrth 2015 wedi'i rannu â chyfanswm y taliadau i gredydwyr yn ystod 2014/15, wedi'i fynegi mewn diwrnodau) (12 diwrnod yn 2013/14).

### Ychwanegedd

Yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol 2006 mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd am eu polisïau ac arferion ychwanegedd Mae ychwanegedd yn egwyddor bwysig ein hariannu.

Defnyddiwn y diffiniad a ganlyn:

"Mae arian gan y Loteri'n wahanol i arian gan y Llywodraeth ac yn ychwanegu gwerth. Er nad yw'n disodli gwariant y Trysorlys, lle bo'n briodol mae'n ategu polisïau ac ariannu'r Llywodraeth a rhaglenni eraill."

Roedd yr holl ddyfarniadau a wnaed yn 2014/15 yn cydweddu â'r diffiniad hwn o ychwanegedd.

Yn ychwanegol at y diffiniad hwn rydym hefyd yn ystyried y ddarpariaeth a ganlyn ar ychwanegedd a ddisgrifir yn ein cyfarwyddiadau polisi.

"YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt."

## Adroddiad cynaladwyedd

Mae'r tabl yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd da tuag at dargedau amgylcheddol y Gronfa ar gyfer 2015/16.

Diweddarwyd ein polisi a chynllun gweithredu amgylcheddol DU gyfan yn 2014. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau arfaethedig sy'n gweddu i'r rhai a ddisgrifir ym menter Llywodraeth Werdd y Llywodraeth sy'n canolbwyntio ar feysydd allweddol defnyddio nwy a thrydan, teithio busnes, gwastraff a dŵr. I gael mwy o wybodaeth am ein hymagwedd at gynaladwyedd, ewch i cronfaloterifawr.org.uk

| Mesur | 2010/11 Gwaelodlin | 2013/14 | 2014/15 | Targed Llywodraeth Werdd 2015/16 | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|
| **Allyriadau CO2 swyddfeydd (o ddefnyddio nwy a thrydan)** | 1,759 tCO2 | 1,342 tCO2 | 1,555 tCO2 | 1,319 tCO2 (gostyngiad 25%) | gostyngiad 11.5% |
| **Allyriadau CO2 hedfan domestig** | 160 tCO2* | 120 tCO2 | 84 tCO2 | 128 tCO2 (gostyngiad 20%) | gostyngiad 47.5% – targed wedi'i gyflawni |
| **Cynhyrchu gwastraff** | 132 t | 126 t | 102 t | 100 t (gostyngiad 25%) | gostyngiad 23% |
| **Gwastraff a dirlenwyd** | 48 t | 22 t | 24 t | 36 t (gostyngiad 25%) | gostyngiad 50 – targed wedi'i gyflawni |

### Allyriadau, gwastraff a threuliant

Daw allyriadau Cwmpas 1 o gynhyrchu nwyon tŷ gwydr yn uniongyrchol, er enghraifft trwy losgi nwyon mewn boeleri, ac allyriadau Cwmpas 2 yw'r rhai sy'n rhan o ynni a brynir, megis trydan. Ni allwn wahanu'r rhain ar hyn o bryd (gan fod sut gymaint yn cael ei brynu'n anuniongyrchol trwy ein landlordiaid), ond rydym yn gweithio i wella gwybodaeth yn y dyfodol.

Eleni, yn dilyn gostyngiadau pellach ym maint swyddfeydd, roeddem yn disgwyl gostyngiad parhaus. Mae hyn wedi'i gyflawni gyda'n defnydd o drydan, fodd bynnag mae allyriadau nwyon wedi cynyddu. Ers hynny rydym wedi uwchraddio hen foeler yn ein swyddfa yn Birmingham ac rydym yn ymchwilio i gywirdeb darlleniadau mesuryddion yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, felly byddem yn disgwyl gwelliant mewn effeithlonrwydd y flwyddyn nesaf.

Nid yw'r cynnydd cyffredinol mewn allyriadau wedi arwain at gynnydd mewn costau oherwydd prisiau ynni llai newidiol a dod o hyd i gyflenwyr newydd.

Gostyngodd allyriadau Cwmpas 3 o deithio busnes eto eleni. Mae ein hallyriadau eisoes yn isel ac rydym yn eu gostwng nhw bob blwyddyn trwy ddefnyddio technoleg. Mae costau wedi gostwng yn gymesur.

Mae'r tabl ar dudalen 51 yn dangos y gwastraff a gynhyrchwyd ac mae'r gyfran rydym yn ei chladdu mewn safleoedd tirlenwi wedi gostwng o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r defnydd o ddŵr wedi dangos gostyngiad parhaus o flwyddyn i flwyddyn (fel y dangosir yn y tabl a ganlyn).

Pan nad oes gwybodaeth ar gael oherwydd amseru adroddiadau taliadau gwasanaeth gan rai landlordiaid rydym wedi defnyddio ffigurau o 2013/14 er mwyn darparu darlun llawn o'n cynaladwyedd.



| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tCO2E)** | Cyfanswm crynswth ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 | 1,480 | 1,555 |
| | Cyfanswm net ar gyfer Cwmpasau 1 a 2 | 1,480 | 1,555 |
| | (llai gostyngiadau h.y. tariffau Gwyrdd) | | |
| | Allyriadau crynswth ar gyfer Cwmpas 3 (teithio busnes) | 321 | 237 |
| | Allyriadau Cwmpas 3 a fesurwyd | – | – |
| **Treuliant ynni cysylltiedig (kWh)** | Trydan: anadnewyddadwy | 2,655,317 | 2,474,228 |
| | Trydan: adnewyddadwy | – | – |
| | Nwy | 1,614,162 | 1,792,735 |
| | LPG | – | – |
| | Arall | – | – |
| **Dangosyddion ariannol (£'000s)** | Gwariant ar ynni | £523 | £470 |
| | Gwariant ar Drwydded CRC (2010 ymlaen) | £- | - |
| | Incwm CRC o daliadau ailgylchu | £- | - |
| | Gwariant ar osod yn erbyn achrededig | £- | - |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | £1,009 | £815 |

| Gwastraff | | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol** | Cyfanswm gwastraff | 126 | 102 |
| | Gwastraff peryglus | - | - |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | | |
| | • Tirlenwi | 22 | 24 |
| | • Ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd | 104 | 78 |
| | • Llosgwyd/ynni o wastraff | - | - |
| **Dangosyddion ariannol (£'000)** | Cyfanswm cost gwaredu | 52 | 38 |
| | Gwastraff peryglus - Cyfanswm costau gwaredu | - | - |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus - Cyfanswm costau gwaredu | | |
| | • Tirlenwi | 9 | 3 |
| | • Ailddefnyddiwyd/ailgylchwyd | 43 | 35 |
| | • Llosgwyd/ynni o wastraff | - | - |

| Treuliant adnoddau meidraidd/dŵr | | 2013/14 | 2014/15 |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (m³)** | Defnydd o ddŵr – wedi'i gyflenwi | 6,229 | 5,734 |
| **Dangosyddion** | Costau cyflenwi dŵr | £40 | £37 |

# Adran chwech: Ein Llywodraethu

## Mae adran hon yr adroddiad yn cynnwys:

– Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

– Datganiad llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu

– Aelodaeth y Bwrdd, pwyllgorau gwlad a'r Uwch Dîm Rheoli

– Cofrestr o fuddiannau aelodau

– Yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth

### Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 36A Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyfarwyddo'r Gronfa Loteri Fawr i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a amlinellir yng Nghyfarwyddiadau'r Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt ddarparu golwg gwir a theg o sefyllfa'r Gronfa Loteri Fawr ac o'n hincwm, ein gwariant a'n llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- glynu wrth Gyfarwyddiadau'r Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan p'un a yw safonau cyfrifyddu perthnasol fel y'u hamlinellir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi'u dilyn, a datgan ac esbonio unrhyw wyriadau materol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes cyfredol.

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi Prif Weithredwr y Gronfa Loteri Fawr yn Swyddog Cyfrifyddu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Gronfa Loteri Fawr, wedi'u hamlinellu yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus' a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

### Cyfrifoldebau dirprwyedig

Pryd bynnag y bo'n briodol, mae'r Gronfa wedi ceisio defnyddio'r pwerau dirprwyo a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998. O ganlyniad i hyn, gall partïon eraill fod yn atebol am elfennau penodol o raglenni.

### Cynlluniau ar y cyd

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cymryd rhan mewn cynlluniau ar y cyd, fel y'u diffinnir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998, i ddarparu arian ochr yn ochr â chyrff eraill i gyflawni'r canlyniadau a ddiffinnir gan y Gorchymyn Cynllun ar y Cyd perthnasol. Yn y cynlluniau hyn yr wyf i, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- Defnyddir arian Loteri a ddyrennir gan y Gronfa Loteri Fawr yn unol â'n pwerau cyfreithiol
- defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol arian Loteri a ddyrennir i'r rhaglen gan y Gronfa Loteri Fawr
- bod y systemau a ddefnyddir i weithredu'r rhaglen yn gadarn ac yn addas i'r diben
- cytunir ar y mecanwaith ar gyfer dyrannu costau gweinyddol y rhaglen rhwng y dosbarthwyr Loteri sy'n cymryd rhan.



Yn ystod 2014/15 mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cymryd rhan yn y cynllun ar y cyd a ganlyn:

- Parks for People – cynllun a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Gronfa Loteri Fawr.

### Partneriaid dyfarnu

Rydym wedi defnyddio'r pwerau a ddarperir gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 i ddirprwyo'r cynlluniau grant a restrir isod i bartneriaid dyfarnu. Mae'r cytundeb dirprwyo rhyngom ni a'r partneriaid dyfarnu'n amlinellu cyfrifoldeb Prif Weithredwr y partner dyfarnu i sicrhau bod systemau a roddir ar waith i weinyddu ceisiadau Loteri ac i brosesu a monitro grantiau Loteri'n dderbyniol ac yn addas i'r diben a bod arian y Loteri'n cael ei ddosbarthu mewn ffordd reolaidd a phriodol.

Cadwaf gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelu arian cyhoeddus a ddarperir i'r Gronfa Loteri Fawr ac am sicrhau bod partneriaid dyfarnu'n gweithredu'n unol â'n telerau cytunedig a'r cyfarwyddiadau ariannol a pholisi a ddarparwyd i mi.

**Ein partneriaid dyfarnu:**

- fel rhan o'r rhaglen Changing Spaces:
  - Cymdeithas Frenhinol Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt – Bwyd Lleol
  - Ymddiriedolaeth Groundwork
  - Natural England
  - Mind
- fel rhan o'n canlyniadau People Powered Change:
  - Y Sefydliad Entrepreneuriaid Cymdeithasol
- fel rhan o'r rhaglen Buddsoddiad Cymdeithasol
  - Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol
- fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Rhyngwladol:
  - Basic Needs
- fel rhan o'r Gronfa Gyflymu:
  - First Port for Social Entrepreneurs Scotland.

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
3 Gorffennaf 2015

## Y datganiad llywodraethu

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, fi sy'n gyfrifol am y datganiad llywodraethu hwn. Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn bodoli ar draws y mudiad cyfan sy'n cefnogi cyflawni cenhadaeth y Gronfa Loteri Fawr (y Gronfa) ac ar yr un pryd diogelu'r arian ac asedau cyhoeddus yr wyf i'n gyfrifol amdanynt.

Mae'r datganiad hwn yn pennu sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli a rheoleiddio adnoddau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn. Mae'n galw ar waith Bwrdd a Phwyllgorau Archwilio a Risg a Thâl Cydnabyddiaeth y Gronfa yn ogystal â'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) fel ei chorff gweithredol. Rwyf wedi adolygu ac ystyried yr adroddiad sicrwydd blynyddol a baratoir gan Archwilio Mewnol hefyd.

### Atebolrwydd y Gronfa Loteri Fawr i Senedd y DU, y cyrff deddfwriaethol a llywodraethau datganoledig

Mae'r Gronfa'n gweithredu ar draws y DU ac fe'i crëwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 2006, sy'n amlinellu'r rheolau pennaf sy'n sail i'w gweithrediad. Mae hefyd wedi derbyn swyddogaethau o dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol (NDPB) ac yr wyf yn llawn atebol i Senedd y DU am ein harian. Mae gorchmynion penodol sy'n gysylltiedig ag arian y Loteri ac arian cyfrifon segur yn cael eu gwneud gan Senedd y DU neu Senedd Yr Alban, ond gweithredir y prif drosolwg o'r Gronfa Loteri Fawr trwy gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan weinidogion.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn atebol am Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, ac felly yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ariannol a chyfrifon i'r Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol. Mae'r cyfarwyddiadau hyn wedi cael eu diwygio eleni mewn perthynas â sut mae ymrwymiadau grant yn cael eu trin. Am resymau cyfreithiol mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi cyfarwyddiadau tebyg yn gysylltiedig ag arian cyfrifon segur. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn rheoleiddio systemau a phrosesau'r Gronfa.

Noddwr polisi'r Gronfa Loteri Fawr yw Swyddfa'r Cabinet. Mae Gweinidog Swyddfa'r Cabinet yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddosbarthu ariannu'n gyffredinol ar draws y DU ac yn Lloegr yn benodol, ac mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi mewn perthynas ag arian a ddosberthir yn y gwledydd hynny. Mae'r cyfarwyddiadau hyn wedi'u cynnwys yn adran wyth yr adroddiad hwn.

O fewn fframwaith y cyfarwyddiadau hyn mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar ba raglenni y dylai eu rhedeg a pha grantiau y dylai eu gwneud.

### Effeithiolrwydd llywodraethu anweithredol ac adolygiad ohono

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i llywodraethu gan Fwrdd sy'n cynnwys y Cadeirydd, cadeiryddion y pwyllgorau gwlad a hyd at saith aelod arall. Mae'r Bwrdd wedi penodi un o'i aelodau fel Is-gadeirydd. Yn ystod 2014/15 roedd 11 aelod ar y Bwrdd.

Mae gan bob gwlad bwyllgor sy'n gyfrifol am y rhaglenni ariannu yn eu gwlad; mae'r Bwrdd wedi penodi pwyllgor ar gyfer ariannu DU gyfan hefyd.

Mae'r Bwrdd yn pennu fframwaith strategol y Gronfa, ac mae'r pwyllgorau, yn gweithio o fewn y fframwaith hwn, wedi dirprwyo awdurdod i bennu'r rhaglenni yn eu gwledydd. Hefyd, maen nhw'n gwneud penderfyniadau am grantiau, neu'n cytuno ar y trefniadau dirprwyedig ar gyfer gwneud nhw, o fewn y rhaglenni hyn.

Mae'r Bwrdd wedi penodi Pwyllgor Archwilio a Risg i'w gynghori ar faterion adrodd ariannol, archwilio a sicrwydd a rheoli risg. Mae wedi penodi Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i ddelio gyda'r materion a amlinellir yn yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth hefyd. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cwrdd bob blwyddyn fel arfer.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd ar unrhyw faterion y mae'r Pwyllgor yn tybio y mae angen eu dwyn at eu sylw, ac i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn darparu adroddiad llawn i'r Bwrdd ar ei waith unwaith y flwyddyn.

Hefyd, mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau am y rhaglenni ym mhob portffolio gwlad er mwyn iddo sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r fframwaith strategol a bod dysgu'n cael ei rannu.

Mae aelodaeth o'r holl bwyllgorau a phresenoldeb ynddynt wedi'i amlinellu ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Mae holl aelodau'r Bwrdd wedi'u penodi gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet. Mae aelodau pwyllgorau gwlad wedi'u penodi gan y Gronfa. Mae'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ymwneud yn llawn â'r penodiadau mewn perthynas â'u gwledydd ac mae'r holl aelodau Bwrdd a phwyllgor yn cael eu penodi yn sgil proses hysbysebu a dethol agored.

### Ansawdd data

Mae'r Bwrdd yn derbyn data perthnasol a rheolaidd gan systemau ar draws y Gronfa i ddarparu sicrwydd ar berfformiad, mesurau rheoli a risg. Mae'n fodlon bod ansawdd a chywirdeb y data hwn yn briodol i'w anghenion o ran asesu effeithiolrwydd y rhaglenni ariannu, y weithdrefn rheoli risg, perfformiad ariannol a gweithredu'r Gronfa ac addasrwydd mesurau rheoli mewnol.

Mae'r systemau sy'n darparu'r wybodaeth hon wedi'u sicrhau trwy gael eu cynnwys yn y rhaglen archwilio fewnol.

### Rheolaeth weithredol

Yr wyf i'n arwain rheolaeth weithredol y Gronfa gyda chefnogaeth gan Uwch Dîm Rheoli (UDRh) sydd â 10 o aelodau ar hyn o bryd.

Mae'r UDRh yn cwrdd bob wythnos gyda chyfarfod ffurfiol bob mis. Mae'r UDRh yn ystyried materion polisi, strategol a gweithredol allweddol, yn darparu cyngor i'r Bwrdd ar faterion sy'n gofyn am ei gymeradwyaeth ac yn goruchwylio perfformiad gweithredol ac ariannol a rheoli risg y Gronfa'n gyffredinol.

Mae aelodau'r UDRh a'u meysydd cyfrifoldeb wedi'u hamlinellu yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Cafwyd nifer o newidiadau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys penodi Pennaeth Staff newydd ym mis Gorffennaf 2014 a Chyfarwyddwr Cyllid newydd a ymunodd â ni ar 1 Ebrill 2015.

Mae strwythurau rheoli gweithredol priodol ar draws y mudiad i oruchwylio gweithgareddau craidd a'r prosiectau a rhaglenni sy'n cael eu gweithredu ar draws y Gronfa.

Yn ystod y flwyddyn ymwelais â swyddfeydd y Gronfa ar draws y Deyrnas Unedig i siarad â staff a rheolwyr am ddatblygu'r Fframwaith Strategol newydd. Rwyf hefyd wedi mynychu cyfarfodydd pwyllgor gwlad, ymwneud â budd-ddeiliaid ar draws y DU, cwrdd â swyddogion yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Swyddfa'r Cabinet a mynychu Fforwm Dosbarthwyr y Loteri.

### Rheoli risg

Mae'r Gronfa'n gweithredu system rheoli risg gynhwysfawr, gyda chofrestr risgiau strategol yn cael ei hadolygu bob tri mis gan yr UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risgiau o leiaf bob blwyddyn i sicrhau nad oes unrhyw hepgorion materol. Yn unol â'r cyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar lefelau goddefiant risg y Gronfa hefyd.

Mater allweddol ar gyfer y Gronfa yw cydnabod bod ein nod o helpu cymunedau a'r bobl mewn angen mwyaf weithiau'n gofyn i ni ariannu o fewn amgylchiadau heriol ac i risgiau gael eu cymryd mewn perthynas â llwyddiant rhai prosiectau.

Mae hyn yn gofyn am farn ofalus ar ran ein staff ariannu.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cynyddu eu ffocws ar reoli risg yn ystod y flwyddyn, gan gefnogi'r tîm gweithredol i fabwysiadu ymagwedd fwy cymesur at risg. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad a wnes yn natganiad llywodraethu 2013/14 y byddem yn adolygu ein cofrestr risgiau wrth i ni ddatblygu ein Fframwaith Strategol newydd er mwyn iddo gysylltu'n agos â'n nodau ac uchelgeisiau corfforaethol.

Ynghyd â goruchwyliaeth gan dîm rheoli profiadol, mae ein system mesurau rheoli wedi'i dylunio i reoli risg i lefel dderbyniol ac y gellir ei rheoli. Ni all waredu pob risg o fethiant er mwyn cyflawni ein strategaeth a'n hamcanion

ac felly ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol yn hytrach nag absoliwt o effeithiolrwydd.

Mae rhaglen waith archwilio mewnol yn cael ei pharatoi bob blwyddyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (sy'n adrodd yn uniongyrchol i mi) a'i chytuno gyda'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r rhaglen hon wedi'i dylunio i roi sicrhad bod mesurau rheoli priodol wedi cael eu dylunio ac yn gweithredu'n gywir mewn perthynas â'r holl risgiau sylweddol y mae'r Gronfa yn eu hwynebu.

Mae canfyddiadau'r adroddiadau, yn enwedig unrhyw rai nad ydynt yn rhoi sicrhad neu sy'n rhoi sicrhad cyfyngedig, yn cael eu hystyried gennyf i, y rheolwyr perthnasol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae camau gweithredu'n cael eu cytuno gan reolwyr wrth ymateb i bob argymhelliad a wneir, ac adroddir am gynnydd yn erbyn y rhain i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cwblhawyd naw adolygiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wendidau sylweddol a allai achosi i'r fframwaith fynd yn annigonol ac yn aneffeithiol. Rhoddodd adolygiad o brosesau Ansawdd a Chadarnhau Data'r Gronfa sicrwydd cyfyngedig, darparodd y gweddill lefel gymedrol neu uchel o sicrwydd.

Mae pob cyfarwyddwr UDRh wedi darparu datganiad sicrwydd ar fy nghyfer ar y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt, a chan alw ar y rhain a chanlyniadau adolygiadau archwilio mewnol, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu adroddiad sicrwydd blynyddol ar fy nghyfer. Mae'r adroddiad sicrwydd yn asesu bod gan y Gronfa 'sicrwydd cymedrol', safbwynt yr wyf yn cytuno ag ef.

Dyma welliant ar yr asesiad o 'sicrwydd cyfyngedig' a gyflawnwyd y llynedd, yn bennaf oherwydd gwelliannau i lywodraethu mewn perthynas â'r FMS.

Cyflawnir archwiliad allanol o'r Adroddiad Blynyddol hwn a'r Cyfrifon hyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Ymdrinnir â chanfyddiadau ac argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad allanol yn yr un modd â'r rhai o archwilio mewnol ac maent yn cael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r risgiau allweddol yr ydym wedi'u targedu ac ymdrin â nhw yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r: system rheoli ariannu; rhaglenni ariannu; twyll; a chostau gweithredu.

**Y system rheoli ariannu (FMS)**
Yn fy natganiad llywodraeth yn adroddiad blynyddol 2013/14 adroddais ar yr anawsterau gweithredol a wynebwyd y llynedd, a ddeilliwyd yn bennaf o'r system rheoli ariannu (FMS). Erbyn hyn mae'r problemau hyn wedi'u datrys i raddau helaeth gyda'r rhaglen rhoi'r FMS ar waith wedi'i chau ar amser a gyda'n perfformiad a lefelau boddhad cwsmeriaid bellach wedi'u sefydlogi.

Rydym wedi asesu i ba raddau y mae ymarferoldeb llawn FMS yn bodloni anghenion y Gronfa a sut y gallem ni ddatblygu unrhyw ofynion pellach naill ai o fewn FMS neu gydag offer ar wahân. Gan hynny, rydym wedi gwneud addasiad lleihau pellach i werth cario'r FMS i adlewyrchu'n fras cost y nodweddion sy'n cael eu defnyddio ac y disgwylir y byddant yn parhau i gael eu defnyddio.

I sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o'r heriau a brofwyd trwy roi ein system rheoli ariannu ar waith, comisiynodd y Bwrdd gyngor allanol ar sut y rheolwyd y prosiect, ac rydym wedi llwyddo i integreiddio'r argymhellion yn sgil hyn yn ein gwaith prosiect parhaus, ac yn fwyaf nodedig, datblygiad ein Fframwaith Strategol.

Mae'r adolygiad hwn wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ein hymagwedd newydd at risg, rheoli prosiectau, gwneud penderfyniadau a buddsoddi mewn TG.

Rwyf wedi fy modloni bod y risgiau a adnabuwyd y llynedd mewn perthynas â'r system rheoli ariannu  bellach yn cael eu rheoli o fewn goddefiant derbyniol.

**Rhaglenni ariannu**
Cyflawnodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) adolygiad 'Ymchwiliad i grantiau gan y Gronfa Loteri Fawr  a Swyddfa'r Cabinet i Big Society Network a Society Network Foundation' a adroddodd ym mis Gorffennaf 2014 a mis Tachwedd 2014 ar rai o'r dyfarniadau yr oeddem wedi'u gwneud wrth ymateb i gynigion caffael uniongyrchol. Cadarnhaodd canfyddiadau'r adroddiad terfynol fod y Gronfa wedi dilyn ei gweithdrefnau a'i hymagwedd safonol at asesu cynigion ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o faterion systemig gyda'r rhaglenni ariannu. Nododd y canfyddiadau manwl nifer o faterion mewn perthynas â'r cam rheoli grant ar gyfer y ddau grant. Mewn perthynas ag un o'r grantiau hyn mae gwersi penodol a ddysgwyd wedi'u rhannu a'u lledaenu ar draws y Gronfa.

Rwy'n falch ein bod wedi derbyn yr adroddiad hwn gan NAO o ystyried y nifer sylweddol o ddyfarniadau amrywiol a wnawn bob blwyddyn.

**Twyll**
Mae'n anochel bod y Gronfa'n wynebu'r risg o dwyll. Daw'r risg fwyaf o dwyll o ymosodiadau troseddol cydlynol ar ein system grantiau bach. Mae gennym dîm ymchwiliadau sy'n cefnogi ein staff ariannu wrth gyflawni asesiadau risg, ac yn prosesu pob achos o dwyll a ddrwgdybir neu ddrygioni bwriadol arall. Mae'r mesurau rheoli twyll eraill yn cynnwys: polisi clir ar dwyll; polisi datgelu camarfer ynghyd â modd i'r cyhoedd gyfeirio pryderon yn uniongyrchol i'n tîm ymchwiliadau: trefniadau adrodd clir ar gyfer twyll a ddrwgdybir, gyda thwyll materol yn cael ei adrodd i mi, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: a chydweithio agos gyda'r Heddlu, y Comisiwn Elusennau ac asiantaethau eraill. Mae'r Gronfa'n ymwneud yn agos â mentrau gwrth-dwyll traws-lywodraethol. Mae nifer a gwerth anghysondebau amheus yn cael ei fonitro ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Risg o ran y targed costau gweithredu**
Mae'r Gronfa wedi cyflawni'r targed costau gweithredu craidd o 5 y cant yr ymrwymodd i'w gyflawni erbyn y flwyddyn ariannol 2014/15. Dilynwyd hyn gan gwblhau rhaglen ailstrwythuro ar draws y Gronfa a ddechreuodd yn 2010. Mae'r gyllideb ar gyfer 2015/16 wedi'i phennu i gynnal y ganran costau gweithredu hon.

Ar wahân i'r risgiau a nodir uchod, mae'r risgiau eraill yn gyffredin ym mhob mudiad arall o gymhlethdod tebyg.  Nid yw unrhyw faterion sylweddol wedi codi yn y meysydd hyn, ac mae gan y Gronfa systemau effeithiol a chynlluniau wrth gefn yr wyf yn fodlon eu bod yn rheoli'r risgiau hyn yn foddhaol.

Cedwir cofrestrau risg ar lefel cyfarwyddiaethau ac adrannau ac ar gyfer pob prosiect a rhaglen, ac maent yn cael eu hadolygu ar lefel uwch bob tri mis. Mae system mewn lle ar gyfer esgoli materion risg sylweddol i'r UDRh.

**Effeithiolrwydd llywodraethu anweithredol ac adolygiad ohono**
Datblygwyd y trefniadau llywodraethu cyfredol yn dilyn adolygiad annibynnol yn 2010. Fe'u dyluniwyd i alluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio'n fwy effeithiol ar reolaeth strategol y mudiad.

Mae materion rhaglenni ariannu o fewn paramedrau strategol a bennir gan y Bwrdd wedi'u datganoli'n llawn i'r pum pwyllgor portffolio.

Mae'r Bwrdd wedi ymwneud â'r holl heriau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Gronfa ac yn cymryd rhan yn weithredol wrth bennu'r cyfeiriad a chytuno ar y Fframwaith Strategol newydd. Mae'n fodlon ei fod yn derbyn digon o wybodaeth gywir i fod yn hyderus am effeithiolrwydd y rhaglenni ariannu ac am berfformiad ariannol a gweithredol y busnes.

Mae'r Gronfa'n cymhwyso arweiniad Swyddfa'r Cabinet "The Principles of Good Governance in Executive NDPBs", sydd gyfwerth â "The Corporate Governance Code for Central Government Departments" ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Anadrannol. Rwyf wedi fy modloni bod egwyddorion y Côd, ynghyd â  ffynonellau arweiniad eraill ar arfer da mewn llywodraethu corfforaethol wedi'u hadlewyrchu'n llawn mewn trefniadau llywodraethu'r Gronfa.

**Adolygiad Teirblwydd**
Ym mis Mehefin 2014, croesawodd y Bwrdd ganfyddiadau'r Adolygiad Teirblwydd a gyflawnwyd gan Swyddfa'r Cabinet a gydnabu'r Gronfa fel mudiad pwysig ac uchel ei barch, ac a wnaeth nifer o argymhellion defnyddiol ac ystyrlon.

Un enghraifft yw'r argymhelliad i ni fwrw golwg ar ein proses ymgeisio am grantiau i

sicrhau ei bod yn gymesur ar gyfer grwpiau bach ac ymgeiswyr newydd. Wrth ymateb i hyn, rydym yn peilota nifer o ymagweddau newydd a chyflymach at ein rhaglen Arian i Bawb, gan edrych ar ffurflenni symlach, asesiadau wyneb i wyneb a llawer llai o gwestiynau.

Mae argymhellion yr adolygiad hwn wedi'u hystyried yn llawn yn natblygiad y Fframwaith Strategol a gwnaed cynnydd sylweddol yn barod i ymdrin â'r meysydd i'w gwella a adnabuwyd, yn benodol mewn perthynas â llywodraethu a rheoli costau.

Wrth i ni ddatblygu'r gyfres o strategaethau sy'n cefnogi gweithrediad ein Fframwaith Strategol, bydd camau pellach yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'n gwaith o ddydd i ddydd.

### Cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad

Mae gan y Gronfa Loteri Fawr system cynllunio corfforaethol sydd wedi'i dylunio i adnabod blaenoriaethau a chynlluniau corfforaethol ym mhob cyfnod er mwyn cyflwyno'r strategaeth a gymeradwyir gan y Bwrdd. Mae cynlluniau cyfarwyddiaeth ac adrannol yn cael eu datblygu ar draws y Gronfa Loteri Fawr ac yn bwydo i mewn i amcanion personol staff.

Bu i gynllun corfforaethol 2014/15 gynnwys tri dangosydd perfformiad allweddol (DPA) ariannol a dau sy'n anariannol. Cafodd y rhain eu monitro ac adroddwyd amdanynt i'r UDRh bob mis ac i'r Bwrdd bob tri mis, gyda chamau cywiro'n cael eu cytuno pryd bynnag y bu angen.

Ni chyflawnwyd un targed DPA yn ystod y flwyddyn. Collodd effeithiolrwydd rhaglenni (y ganran o raglenni sydd ar y trywydd iawn tuag at gyflawni eu mesurau llwyddiant o ran atebolrwydd, dysgu ac effaith) y targed o 92 y cant yn agos iawn, sef diffyg o 1.3 pwynt canrannol, ac rydym yn cymryd camau priodol i ymdrin â'r problemau a adnabuwyd.

Coladir a dadansoddir gwybodaeth rheoli allweddol (KMI) ychwanegol ar gyfer yr UDRh trwy gydol y flwyddyn hefyd. Bu ein balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) 38.2 y cant uwchben ein rhagamcaniad gwreiddiol gan i ni dderbyn £59.4 miliwn gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd, sef arian yn gyfnewid am golli incwm blaenorol i dalu costau Llundain 2012.

Bu amseriad hwn yn aneglur ac felly nid oedd wedi'i gynnwys yng nghyllideb y flwyddyn ariannol hon. Er hynny, mae ein balans NLDF wedi gostwng o hyd o £383 miliwn yn 2013/14 i £324 miliwn yn 2014/15.

Yn adroddiad llywodraethu 2013/14 amlinellais welliannau i'r trefniadau cynllunio corfforaethol i gryfhau'r berthynas rhwng ein cenhadaeth a Fframwaith Strategol a'n cynllunio corfforaethol. Mae'r rhain wedi'u datblygu yn ystod 2014/15 fel bod ein hamcanion newydd ar gyfer y flwyddyn hon wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'n Fframwaith Strategol.



### Arian trydydd parti

Mae'r Bwrdd yn ymwneud yn weithredol â phenderfyniadau am ba waith trydydd parti y mae'n briodol i'r Gronfa ymgymryd ag ef, yn unol â'n strategaeth ariannu trydydd parti. Rydym yn cymhwyso risgiau a chyfundrefn reoli i bob cyfle yn unol â'r dasg a bennir gan y cleient, gan sicrhau nad oes unrhyw risg y bydd arian Loteri'n cael ei roi mewn perygl neu y bydd gwaith nad yw'n ymwneud â'r Loteri'n cael ei groes-gymorthdalu. Rydym yn adolygu gweithgareddau a chyfleoedd yn rheolaidd i adnabod dysgu yn sgil cyflwyno gweithgareddau trydydd parti.

### Trefniadau dirprwyedig ac ymddiriedolaeth

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dirprwyo rhai o'i swyddogaethau i fudiadau eraill fel yr esbonnir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu. Cyflawnir gwaith diwydrwydd dyladwy ar lywodraethu a systemau partneriaid dyfarnu arfaethedig cyn dyfarnu ariannu. Mae'r trefniadau'n cael eu rheoli'n weithredol ac mae trefniadau archwilio mewnol ac allanol priodol yn cael eu cymhwyso hefyd.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn gwneud dyfarniadau i ymddiriedolaethau ar ffurf gwaddolion, sy'n cael eu creu'n benodol fel arfer at ddibenion y dyfarniad. Yn ogystal â sicrhau diwydrwydd dyladwy tebyg cyn y dyfarniad, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn penodi amddiffynnydd annibynnol sydd â phwerau i sicrhau bod y gwaddol yn cael ei gymhwyso'n briodol yn unol â bwriad y Gronfa Loteri Fawr. Er enghraifft, sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth Power to Change i gefnogi mentrau cymdeithasol ar draws Lloegr, o ysbrydoli a maethu syniadau i helpu cymunedau i gynyddu graddfa ac ehangu busnesau.

### Ansawdd a diogelu data

Rydym yn trin ein rhwymedigaethau diogelu gwybodaeth fel mater o'r pwys pennaf ac, o dan weithdrefnau craffu a chynghori'r Pwyllgor Archwilio a Risgiau, aseswn ddigonolrwydd ein mesurau diogelu gwybodaeth yn rheolaidd.

Ni chafwyd unrhyw golledion data personol y gellir adrodd amdanynt yn ystod 2014/15.

### Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheoli mewnol

Yn fy marn i, mae systemau llywodraethu a rheoli mewnol y Gronfa Loteri Fawr yn ddigon i'm galluogi fi i sicrhau cydymffurfiad y Gronfa Loteri Fawr â Deddfau'r Loteri Genedlaethol, y Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur a'r cyfarwyddiadau polisi, ariannol a chyfrifon a gyhoeddir oddi tanynt.

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
3 Gorffennaf 2015

## Aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau, presenoldeb mewn cyfarfodydd a thâl cydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn

| Enw<br>Aelodau'r Bwrdd DU | Rôl | Presenoldeb 2014/15 | Tâl 2014/15 £ | Tâl 2013/14 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Peter Ainsworth** | Cadeirydd, Bwrdd DU | 4/4 | 28,800 | 28,800 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, | 1/1 | – | – |
| | Pwyllgor Ariannu DU | 5/5 | – | – |
| **Tony Burton CBE** | Is-gadeirydd, Bwrdd DU (o 1 Mehefin 2014) | 4/4 | 16,568 | 18,312 |
| | Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio a Risg, | 4/4 | – | – |
| | Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (o 1 Mehefin 2014) | Dd/B | – | – |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (o 1 Gorffen-naf 2014) | 4/4 | – | – |
| **Anna Southall OBE** | Is-gadeirydd, Bwrdd DU (tan 31 Mai 2014) | Dd/B | 2,180 | 13,080 |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (tan 31 Mai 2014) | 1/1 | – | – |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 31 Mai 2014) | Dd/B | – | – |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (tan 31 Mai 2014) | 0/1 | – | – |
| **Astrid Bonfield CBE** | Aelod, Bwrdd DU | 3/4 | 7,848 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (tan 27 Ionawr 2015) | 1/1 | – | – |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 3/5 | – | – |
| **Perdita Fraser** | Aelod, Bwrdd DU (o 1 Mehefin 2014) | 4/4 | 6,540 | – |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 1/1 | – | – |
| | | | | – |
| **Frank Hewitt** | Cadeirydd, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 6/6 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Bwrdd DU | 4/4 | – | – |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (tan 27 Chwefror 2014) | Dd/B | – | – |
| **David Isaac CBE** | Aelod, Bwrdd DU (o 1 Mehefin 2014) | 4/4 | 6,540 | – |
| | 4/4 | Dd/B | | |
| | Aelod, Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth (o 28 Ionawr 2015) | | | |
| **Maureen McGinn** | Cadeirydd, Pwyllgor Yr Alban | 10/10 | 24,000 | 24,000 |
| | Aelod, Bwrdd DU | 4/4 | – | – |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 5/5 | – | – |
| **Rajay Naik** | Aelod, Bwrdd DU (tan 15 Chwefror 2015) | 3/3 | 6,890 | 7,848 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (tan 15 Chwefror 2015) | 4/4 | – | – |
| **Elizabeth Passey** | Aelod, Bwrdd DU (o 1 Mehefin 2014) | 4/4 | 6,540 | – |
| **Nat Sloane CBE** | Cadeirydd, Pwyllgor Lloegr | 7/8 | 24,000 | 24,000 |
| | | 4/4 | – | – |
| **Syr Adrian Webb** | Cadeirydd, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 18,000 | 18,000 |
| | Aelod, Bwrdd DU | 4/4 | – | – |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | – | – |



| Enw<br>Aelodau'r Pwyllgor | Rôl | Presenoldeb 2014/15 | Tâl 2014/15 £ | Tâl 2013/14 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Aelodau Eraill Pwyllgor Lloegr** | | | | |
| **Dr Alan Billings** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 29 Ionawr 2014) | Dd/B | – | 11,331 |
| **Geeta Gopalan** | Is-gadeirydd, Pwyllgor Lloegr | 7/8 | 12,594 | 11,351 |
| | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg | 4/4 | – | – |
| **Scott Greenhalgh** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 7/8 | 12,725 | 13,324 |
| **Charlie Howard** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 1 Chwefror 2014) | 5/7 | 10,833 | 872 |
| **Tarn Lamb** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 1 Mawrth 2015) | 1/1 | 1,051 | – |
| **Steve Richards** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 6/8 | 10,000 | 10,000 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (tan 31 Gorffennaf 2014) | 2/2 | – | – |
| **Jane Robinson** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (o 1 Chwefror 2014) | 7/8 | 11,667 | 872 |
| | Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (o 1 Tachwedd 2014) | 1/2 | – | – |
| **Danny Silverstone** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 29 Ionawr 2014) | 7/8 | – | 10,000 |
| **Albert Tucker** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 31 Rhagfyr 2014) | 5/6 | 7,500 | 10,708 |
| **Nalini Varma** | Aelod, Pwyllgor Lloegr | 6/8 | 10,634 | 10,572 |
| **Geoffrey Wilkinson** | Aelod, Pwyllgor Lloegr (tan 29 Ionawr 2014) | Dd/B | – | 11,740 |
| **Aelodau Eraill Pwyllgor Yr Alban** | | | | |
| **Tim Allan** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 7 Mawrth 2014) | Dd/B | – | 3,788 |
| **Elizabeth Cameron** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 11 Mawrth 2015) | 8/9 | 3,038 | 4,660 |
| **Stella Everingham** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 8 Mawrth 2014) | 9/10 | 5,232 | 436 |
| **Helen Forsyth** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 7 Mawrth 2014) | Dd/B | – | 5,232 |
| **David Green** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 7 Mawrth 2014) | Dd/B | – | 6,976 |
| **Hamira Khan** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 9/10 | 5,232 | 5,232 |
| **John McDonald** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 9/10 | 5,232 | 5,232 |
| **Alan McGregor** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 8 Mawrth 2014) | 7/10 | 5,232 | 436 |
| **Lucy McTernan** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (tan 7 Mawrth 2014) | Dd/B | – | 5,396 |
| **Shalani Raghavan** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 8 Mawrth 2014) | 5/10 | 5,232 | 436 |
| **Deirdre Robertson** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban (o 8 Mawrth 2014) | 8/10 | 5,232 | 436 |
| **John Watt** | Aelod, Pwyllgor Yr Alban | 9/10 | 5,232 | 5,232 |
| **Aelodau Eraill Pwyllgor Cymru** | | | | |
| **Rona Aldrich** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 4/4 | 5,232 | 5,232 |

## Aelodaeth y Bwrdd a phwyllgorau (parhad)

| Enw<br>Aelodau'r Pwyllgor | Rôl | Presenoldeb 2014/15 | Tâl 2014/15 £ | Tâl 2013/14 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Graham Benfield OBE** | Aelod, Pwyllgor Cymru (Tan 25 Chwefror 2014) | Dd/B | – | 2,398 |
| **Sian Callaghan** | Aelod, Pwyllgor Cymru (O 5 Chwefror 2014)<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU (o 22 Ionawr 2014) | 4/4<br>1/1 | 5,232<br>– | 872<br>– |
| **Simon Jones** | Aelod, Pwyllgor Cymru (O 1 Awst 2014) | 2/3 | 3,488 | – |
| **Gareth Newton** | Aelod, Pwyllgor Cymru (Tan 25 Chwefror 2014) | Dd/B | – | 4,796 |
| **Rob Pickford OBE** | Aelod, Pwyllgor Cymru (O 5 Chwefror 2014) | 4/4 | 5,232 | 872 |
| **Jan Reed OBE** | Aelod, Pwyllgor Cymru (Tan 6 Awst 2014) | 1/1 | 1,828 | 5,232 |
| **Gaynor Richards** | Aelod, Pwyllgor Cymru (O 1 Chwefror 2015) | 1/1 | 872 | – |
| **Rita Singh** | Aelod, Pwyllgor Cymru (o 5 Chwefror 2014) | 4/4 | 5,232 | 872 |
| **Fran Targett OBE** | Aelod, Pwyllgor Cymru | 3/4 | 2,616 | 2,616 |
| **Mike Theodoulu** | Aelod, Pwyllgor Cymru (Tan 1 Chwefror 2015)<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 3/3<br>4/4 | 4,469<br>– | 5,232<br>– |
| **Barbara Wilding CBE, QPM, CCMI** | Aelod, Pwyllgor Cymru (Tan 7 Chwefror 2014) | Dd/B | – | 4,796 |
| **Aelodau Eraill Pwyllgor Gogledd Iwerddon** | | | | |
| **Geraldine Campbell** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon | 6/6 | 5,232 | 5,232 |
| **Paul Cavanagh** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (Tan 30 Mehefin 2014) | 2/2 | 1,308 | 5,232 |
| **Michael Dobbins** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (O 1 Tachwedd 2014) | 2/2 | 2,180 | – |
| **Tony Doherty** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (O 1 Tachwedd 2014) | 2/2 | 2,180 | – |
| **Julie Harrison** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon<br>Aelod, Pwyllgor Ariannu DU | 4/6<br>3/5 | 5,232<br>– | 5,232<br>– |
| **Claire Keatinge** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (Tan 30 Mehefin 2014) | 2/2 | 1,308 | 5,232 |
| **Eileen Mullan** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (O 1 Tachwedd 2014) | 2/2 | 2,180 | – |
| **Peter Osborne** | Aelod, Pwyllgor Gogledd Iwerddon (Tan 30 Mehefin 2014) | 2/2 | 1,308 | 6,785 |
| **Aelodau Eraill y Pwyllgor Archwilio a Risg** | | | | |
| **Hilary Gay** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 20 Gorffennaf 2013) | Dd/B | | 534 |
| **Angela Marshall** | Pwyllgor Archwilio a Risg (tan 20 Gorffennaf 2014) | 1/1 | 581 | 1,744 |
| **Linda Farrant** | Aelod, Pwyllgor Archwilio a Risg (o 21 Gorffennaf 2014) | 3/3 | 1,214 | – |



## Cofrestr buddiannau

Mae'n rhaid i holl aelodau ein Bwrdd a'n Pwyllgorau, ein haseswyr, ein hymgynghorwyr ac aelodau unrhyw banel ymgynghorol ddatgan buddiannau perthnasol o dan ein côd moeseg. Mae'r côd hwn yn cydymffurfio â chôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Mae buddiannau a ddatganir gan ein haelodau Bwrdd wedi'u postio ar ein gwefan. Mae manylion y cyfryw fuddiannau ar gyfer holl aelodau pwyllgorau gwneud penderfyniadau ar gael trwy ysgrifennu at Bennaeth Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

Os yw'r Bwrdd neu bwyllgor yn gwneud penderfyniad y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran grantiau i fudiadau ond hefyd unrhyw berthnasoedd masnachol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau bod datgeliad yn cael ei wneud ar y dechrau a bod yr aelod yn gadael wrth i'r eitem berthnasol gael ei thrafod.

Mae'r tabl a ganlyn yn manylu dyfarniadau i fudiadau lle mae aelodau Bwrdd a phwyllgorau gwlad wedi datgan buddiant o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol neu ddiwethaf.

| Enw | Natur y berthynas | Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd neu yn y cam rheoli | Dyfarniadau grant sy'n weddill ar 1 Ebrill 2014 £ | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 £ | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tim Allan** | Trossachs Area Community Support – Buddiant busnes | 1 dyfarniad £454,398 | 39,673 | – | £39,673 | – |
| | Young Enterprise Scotland – Cyn Gadeirydd | 2 ddyfarniad gwerth £445,552 | – | 445,332 | 39,152 | 406,180 |
| | Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau – Aelod | 1 dyfarniad £500,000 | 164,641 | – | 114,771 | 49,870 |
| | Dundee Museums Foundation – Ymddiriedolwr | 1 dyfarniad £500,000 | – | 500,000 | – | 500,000 |
| **Graham Benfield OBE** | Cyngor Gweithredu Cymru – Prif Weithredwr | 4 dyfarniad gwerth £2,746,708 | 368,443 | – | 368,443 | – |
| **Alan Billings** | CAB Sheffield – Priod yn gyn-Aelod Bwrdd Sheffield | 2 ddyfarniad gwerth £437,488 | – | – | – | – |
| **Astrid Bonfield CBE** | Sefydliad Plunkett – Brawd wedi cadeirio adroddiad Grown in Britain | 1 dyfarniad £10,530,603 | – | – | – | – |
| **Tony Burton CBE** | Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau – Cymrawd | 1 dyfarniad gwerth £500,000 | 164,641 | – | 114,771 | 49,870 |
| **Sian Callaghan** | Cymdeithas Tai Cadwyn – Cyfranddeiliad | 1 dyfarniad gwerth £228,162 | – | 228,162 | 29,976 | 198,186 |
| **Geraldine Campbell** | The Northern Ireland Association – Aelodaeth Gysgodol ac Aelod y Pwyllgor Safonau, Cyngor ar Bopeth Gogledd Iwerddon | 1 dyfarniad gwerth £1,119,053 | 38,366 | – | 38,366 | – |

## Cofrestr buddiannau (parhad)

| Enw | Natur y berthynas | Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd neu yn y cam rheoli | Dyfarniadau grant sy'n weddill ar 1 Ebrill 2014 £ | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 £ | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Stella Everingham** | Scottish Borders Council – Cyflogai hunangyflogedig | 2 ddyfarniad gwerth £1,366,338 | 1,027,857 | 7,800 | 234,617 | 801,040 |
| **Helen Forsyth** | SBHA Plus Limited – Berwickshire Housing Association (cyswllt â Scottish Borders Housing Association) | 1 dyfarniad gwerth £347,036 | 224,355 | – | 88,507 | 135,848 |
| **Geeta Gopalan** | Beyond Youth CIC – Mentor i'r Prif Weithredwr | 9 dyfarniad gwerth £1,498,579 | 346,563 | 504,243 | 470,925 | 379,881 |
| **Scott Greenhalgh** | Elusen Ysbyty Royal Brompton and Harefield – priod yn llywodraethwr | 1 dyfarniad gwerth £10,000 | – | 10,000 | 10,000 | – |
| **Julie Harrison** | Cymdeithas Addysg y Gweithwyr - wedi gweithio gydag un o'u partneriaid | 1 dyfarniad gwerth £2,228,366 | 1,367,112 | 1,883,847 | 322,278 | 2,928,681 |
| | Community Foundation NI – cyswllt gwaith â CFNI | 1 dyfarniad gwerth £10,000 | – | – | – | – |
| | Community Evaluation NI – Ymgynghorydd Cyswllt | 1 dyfarniad gwerth £128,113 | 8,751 | – | 8,751 | – |
| | East Belfast Independent Advice Centre – ymgynghorydd | 1 dyfarniad gwerth £653,013 | 183,401 | | 144,309 | 39,092 |
| **Charlie Howard** | MAC-UK – Prif Weithredwr a Sylfaenydd | 1 dyfarniad gwerth £1,651,667 | – | 1,651,667 | 314,465 | 1,337,202 |
| | Anna Freud Centre – mae Charlie yn derbyn goruchwyliaeth glinigol gan AFC | 1 dyfarniad gwerth £159,475 | – | 159,475 | 11,132 | 148,343 |
| **Simon Jones** | Cadwch Gymru'n Daclus – priod yn Brif Weithredwr | 1 dyfarniad gwerth £275,000 | 245,484 | – | 127,782 | 117,702 |
| | Gofal Canser Marie Curie – Ei hun – Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus | 2 ddyfarniad gwerth £899,980 | 623,697 | 13,232 | 313,304 | 323,625 |
| **Claire Keatinge** | Ymddiriedolwr a Chadeirydd Datblygu Cymunedol Gogledd Iwerddon, Rhwydwaith Datblygu Cymunedol ac Iechyd | 1 dyfarniad gwerth £613,407 | 139,431 | – | 113,381 | 26,050 |
| | Mind Wise New Vision – NI Aelod Pwyllgor, Rethink | 4 dyfarniad gwerth £1,087,535 | 533,503 | – | 302,195 | 231,308 |
| | Community Foundation NI – Aelod Panel | 2 ddyfarniad gwerth £480,000 | 480,000 | – | 166,080 | 313,920 |
| **Hamira Khan** | NSPCC – Priod - Aelod Bwrdd Ymgynghorol | 3 dyfarniad gwerth £1,547,447 | 1,018,780 | 7,000 | 667,000 | 358,780 |
| | Senedd Ieuenctid Yr Alban – Ei hun - Prif Weithredwr (â thâl) | 1 dyfarniad gwerth £6,223 | – | – | – | – |
| | Roshni – Priod – Cadeirydd | 5 dyfarniad gwerth £776,533 | – | 506,070 | 141,488 | 364,582 |
| **Tarn Lamb** | Penhaligon's Friends – Trysorydd | 1 dyfarniad o £315,790 | 73,058 | – | 73,058 | – |
| **John McDonald** | Cyngor Fife – Ei hun | 5 dyfarniad gwerth £2,244,735 | 1,187,067 | 691,253 | 514,776 | 1,363,544 |
| | HIV Scotland – ei hun Ymgynghorydd | 2 ddyfarniad gwerth £7,453 | – | 1,583 | 1,583 | – |
| **Maureen McGinn** | Action on Smoking and Health Scotland – Cyn-gadeirydd ac ymddiriedolwr (wedi gadael Mawrth 2014) | 1 dyfarniad gwerth £511,046 | – | – | – | – |
| | Social Investment Scotland Cyn-Aelod Bwrdd (wedi gadael 2011) | 1 dyfarniad gwerth £10,000 | – | 10,000 | 10,000 | – |
| | Excelsior Academy Cyn-Lywodraethwr (wedi gadael 2009) | 1 dyfarniad gwerth £9,929 | – | 9,929 | 9,929 | – |
| | Ymddiriedolaeth Tomorrow's People Cyn-Lysgennad di-dâl (wedi gadael 2012) | 6 dyfarniad gwerth £2,410,079 | 1,129,480 | – | 600,554 | 528,926 |
| **Alan McGregor** | Academi Pêl-droed Ayr United Ei hun - Aelod Bwrdd (dim tâl cydnabyddiaeth) | 2 dyfarniad gwerth £10,966 | – | – | – | – |

## Cofrestr buddiannau (parhad)

| Enw | Natur y berthynas | Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd neu yn y cam rheoli | Dyfarniadau grant sy'n weddill ar 1 Ebrill 2014 £ | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 £ | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lucy McTernan** | Cyngor ar Bopeth Stirling – cyn-Brif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Yr Alban – corff llywodraethu'r mudiad yn Yr Alban | 2 ddyfarniad gwerth £1,069,398 | 1,069,398 | – | 154,004 | 915,394 |
| | Cyngor ar Bopeth Angus – Prif Weithredwr, Cyngor ar Bopeth Yr Alban, Cyngor ar Bopeth Angus | 1 dyfarniad gwerth £790,945 | 338,595 | – | 157,829 | 180,766 |
| | Cyngor ar Bopeth Easterhouse – cyn-Brif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Yr Alban – corff llywodraethu'r mudiad yn Yr Alban | 1 dyfarniad gwerth £137,659 | 137,659 | – | 57,944 | 79,715 |
| | Shelter, The National Campaign for Home Cyfarwyddwr, Cyngor ar Bopeth Yr Alban | 8 dyfarniad gwerth £13,750,216 | 11,630,635 | – | 2,919,135 | 8,711,500 |
| **Peter Osborne** | Cyngor Bwrdeistref Castelreagh – Aelod Etholedig, Cyngor Bwrdeistref Castlereagh | 1 dyfarniad gwerth £930,447 | 125,723 | – | 125,723 | – |
| | Below the Radar – Cadeirydd | 1 dyfarniad gwerth £475,000 | – | 475,000 | 97,743 | 377,257 |
| | Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd a Chymdeithasol Belfast – Cyfarwyddwr anweithredol, Ymddiriedolaeth Iechyd De a Dwyrain Belfast | 1 dyfarniad gwerth £1,487,850 | 842,826 | – | 434,721 | 408,105 |
| | Extern Northern Ireland – Ymddiriedolwr, Extern ac Extern Ireland | 1 dyfarniad gwerth £494,911 | 210,979 | – | 166,875 | 44,104 |
| **Rob Pickford OBE** | Cadeirydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru | 1 dyfarniad gwerth £313,757 | – | – | – | – |
| **Shalani Raghaven** | Neighbourhood Networks Ei hun – Ymddiriedolwr | 1 dyfarniad gwerth £10,000 | – | 10,000 | 10,000 | – |

| Enw | Natur y berthynas | Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd neu yn y cam rheoli | Dyfarniadau grant sy'n weddill ar 1 Ebrill 2014 £ | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 £ | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Steve Richards** | MAC-UK – Ei hun – Mae Steve yn mentora Charlie Howard, y Prif Weithredwr | 1 dyfarniad gwerth £1,651,667 | – | 1,651,667 | 314,465 | 1,337,202 |
| **Gaynor Richards** | Cyfarwyddwr Gweithredol CGS Castell-nedd Port Talbot (ei hun) | 2 ddyfarniad gwerth £570,291 | 406,145 | – | 155,101 | 251,044 |
| | Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot – Cyfarwyddwr (ei hun) | 1 dyfarniad gwerth £249,558 | 123,435 | – | 78,045 | 45,390 |
| **Nat Sloane CBE** | Social Finance – Aelod Pwyllgor Ymgynghorol (ei hun) | 4 dyfarniad gwerth £10,006,833 | 4,278,286 | – | 441,865 | 3,836,421 |
| | We Cook to Eat – Priod yn sylfaenydd | 1 dyfarniad gwerth £2,060 | – | – | – | – |
| | Social Investment Business – Cadeirydd, Social and Sustainable Capital Fund | 3 dyfarniad gwerth £22,252,805 | 20,248,747 | – | 188,798 | 20,059,949 |

# Cofrestr buddiannau (parhad)

| Enw | Natur y berthynas | Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd neu yn y cam rheoli | Dyfarniadau grant sy'n weddill ar 1 Ebrill 2014 £ | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 £ | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Frances Targett OBE** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – Ei hun – Ymddiriedolwr | 5 dyfarniad gwerth £2,888,232 | 1,124,722 | – | 392,438 | 732,284 |
| | Action Aid – Ei hun/Priod-Rhoddwr Cyson | 8 dyfarniad gwerth £6,545,558 | 1,857,808 | 1,017,864 | 419,689 | 2,455,983 |
| | Water Aid – Ei hun/Priod Rhoddwr Cyson | 4 dyfarniad gwerth £2,789,242 | 2,194,803 | 991,622 | 637,856 | 2,548,569 |
| | HUTS – Heb fod yn anghymhwysol | 1 dyfarniad gwerth £980,213 | 35,683 | 402,946 | 35,683 | 402,946 |
| | Canolfan Cynghori Ynys Môn CAB – Cyfarwyddwr Cymru, CAB | 1 dyfarniad gwerth £76,437 | – | – | – | – |
| | Vision Impaired Gorllewin Morgannwg – Cyfarwyddwr Cymru, CAB, Vision Impaired Gorllewin Morgannwg | 1dyfarniad gwerth £51,122 | – | – | – | – |
| | Cyngor ar Bopeth Gwynedd a De Ynys Môn CAB – Cyfarwyddwr Cymru | 1 dyfarniad gwerth £465,114 | 358,000 | – | 89,500 | 268,500 |
| | YMCA Llanymddyfri – Cyfarwyddwr Cymru, CAB YMCA Llanymddyfri | 3 dyfarniad gwerth £450,141 | 231,435 | – | 105,599 | 125,835 |
| | Grŵp Cymdeithas Tai'r Rhondda – Cyfarwyddwr Cymru, CAB | 2 ddyfarniad gwerth £457,173 | 96,898 | – | 96,898 | – |
| **Mike Theodoulou** | The Centre for Business and Social Action – Cadeirydd gweithredol | 5 dyfarniad gwerth £2,419,317 | 779,840 | – | 458,463 | 321,377 |
| **Albert Tucker** | People First Tameside – Aelod o'r Pwyllgor Grantiau | 2 dyfarniad gwerth £288,018 | 175,806 | – | 69,350 | 106,456 |
| | The London Sports Trust – Aelod pwyllgor, Trust for London (yn ariannu London Sports Trust) | 1 dyfarniad gwerth £186,360 | 105,133 | – | 59,722 | 45,411 |
| | Upper Room (St Saviour's) – Aelod pwyllgor, Trust for London (yn ariannu Upper Room) | 2 dyfarniad gwerth £463,063 | 242,573 | – | 68,726 | 173,847 |



| Enw | Natur y berthynas | Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd neu yn y cam rheoli | Dyfarniadau grant sy'n weddill ar 1 Ebrill 2014 £ | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 £ | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bengali Workers Association – Aelod pwyllgor grantiau | 2 ddyfarniad gwerth £189,260 | 31,533 | – | 31,533 | – |
| | Childrens' Links – Aelod pwyllgor grantiau | 2 ddyfarniad gwerth £198,678 | 32,163 | – | 32,163 | – |
| | Downright Excellent – Aelod pwyllgor grantiau | 1 dyfarniad gwerth £431,084 | – | 431,084 | 10,000 | 421,084 |
| | Evelyn Oldfield Unit – Aelod pwyllgor grantiau | 2 dyfarniad gwerth £721,520 | 37,720 | – | 37,720 | – |
| | Futures Theatre Company – Aelod pwyllgor grantiau | 3 dyfarniad gwerth £232,970 | – | 223,860 | 30,643 | 193,217 |
| | Heart N Soul – Aelod pwyllgor grantiau | 1 dyfarniad gwerth £114,793 | 39,547 | – | 39,547 | – |
| **Nalini Varma** | Children North East – Ariannu Comic Relief | 4 dyfarniad gwerth £1,785,138 | 543,744 | – | 237,601 | 306,143 |
| | Biddulp East Community Association – Ariannu Comic Relief | 1 dyfarniad gwerth £197,849 | 80,662 | – | 39,829 | 40,833 |
| | Hollybush centre limited – Ariannu Comic Relief | 1 dyfarniad gwerth £9,876 | – | 9,876 | 9,876 | – |
| | Storybook Dads – Charities Appeal | 1 dyfarniad gwerth £250,000 | 87,250 | – | 44,125 | 43,125 |
| | The Minster Centre – Comic Relief | 4 dyfarniad gwerth £519,108 | 15,320 | – | 15,320 | – |
| | Base 87 Community Interest – Aelod pwyllgor mudiad cysylltiedig | 1 dyfarniad gwerth £373,799 | 198,690 | 373,799 | – | 120,087 |
| | Womankind Worldwide – gŵr yn ymddiriedolwr | 1 dyfarniad gwerth £504,297 | 390,657 | – | 157,413 | 233,244 |
| | Comic Relief – ymddiriedolwr | 1 dyfarniad gwerth £2,800,000 | – | 2,800,000 | 236,732 | 2,563,268 |

| Enw | Natur y berthynas | Cyfanswm grantiau a ddyfarnwyd neu yn y cam rheoli | Dyfarniadau grant sy'n weddill ar 1 Ebrill 2014 £ | Dyfarniadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 | Taliadau a wnaed i'r mudiad yn 2014/15 £ | Dyfarniad grant sy'n weddill ar 31 Mawrth 2015 £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **John Watt** | New Start Highland Ei hun – Cyfarwyddwr Anweithredol | 2 ddyfarniad gwerth £1,003,710 | 660,551 | – | 403,107 | 257,444 |
| | High Life Highland Ei hun – Cyfarwyddwr Anweithredol | 1 dyfarniad gwerth £7,000 | – | 7,000 | 7,000 | – |
| | Highland Multicultural Priod - Cadeirydd | 1 dyfarniad gwerth £6,660 | – | – | – | – |
| **Barbara Wilding** | Age Cymru Gwynedd a Môn – Is-lywydd, Age Cymru | 3 dyfarniad gwerth £685,884 | 336,519 | – | 125,585 | 210,934 |
| | Age Cymru – (cyswllt â phortffolio prosiectau o fewn y rhaglen Lleisiau Lleol) | 5 dyfarniad gwerth £3,749,923 | 2,975,269 | – | 893,532 | 2,081,737 |
| **Geoffrey Wilkinson** | Eden Project Campaigns Limited – Cyfarwyddwr anweithredol, Eden Project | 3 dyfarniad gwerth £9,344,355 | 3,164,851 | – | 1,959,805 | 1,205,046 |



## Yr Uwch Dîm Rheoli

**Dawn Austwick (o 1 Hydref 2013)**
Prif Weithredwr

**Rod Anthony**
Cyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol (o 1 Tachwedd 2014 i 31 Mawrth 2015)

**Robert Atkins**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth a Pherfformiad (tan 1 Medi 2014)

**Lyn Cole**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Lloegr (o 1 Gorffennaf 2014)

**Mark Cooke**
Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol (tan 31 Hydref 2014)

**Tim Davies-Pugh**
Dirprwy Gyfarwyddwr, Lloegr (o 1 Gorffennaf 2014)

**Ceri Doyle**
Cyfarwyddwr, Strategaeth, Perfformiad a Dysgu (tan 31 Gorffennaf 2014)

**Danny Homan**
Pennaeth Staff (o 1 Gorffennaf 2014)

**Dharmendra Kanani**
Cyfarwyddwr, Lloegr (tan 31 Ionawr 2015)

**Jackie Killeen**
Cyfarwyddwr, Yr Alban

**Joanne McDowell**
Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon

**Linda Quinn**
Cyfarwyddwr, Cyfathrebu a Marchnata (tan 31 Hydref 2014)

**John Rose**
Cyfarwyddwr, Cymru

## Yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth

### Tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol

**Llywodraethu**
Mae Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth y Bwrdd yn gyfrifol am:

- gytuno ar amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- penderfynu ar arfarniad perfformiad a thâl cysylltiedig y Prif Weithredwr
- pennu tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr
- cymeradwyo arfarniadau perfformiad a thâl cysylltiedig cyfarwyddwyr, a
- phenderfynu ar delerau diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr.

Ar gais Cadeirydd y Pwyllgor, mae'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Gyfarwyddwr, Adnoddau Dynol neu swyddogion eraill yn bresennol mewn cyfarfodydd ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda.

Mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn amodol ar:

- gydymffurfio â'r arweiniad ar dâl a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet/Trysorlys EM mewn perthynas â thâl cydnabyddiaeth staff yn gyffredinol
- cymeradwyaeth gan Swyddfa'r Cabinet o amodau a thelerau cyflogaeth y Prif Weithredwr
- cymeradwyaeth gan Swyddfa'r Cabinet o unrhyw daliadau terfynu i'r Prif Weithredwr.

**Tâl cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol**
Mae polisi tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr yn cynnig tâl cydnabyddiaeth sy'n galluogi'r Gronfa Loteri Fawr i ddenu, cadw a symbylu unigolion hynod alluog gyda'r sgiliau a'r galluoedd i arwain a rheoli'r mudiad. Wrth wneud hyn, mae'r polisi'n anelu at roi tâl teg sy'n cydnabod cyfrifoldebau a chyfraniadau unigol, gan ddarparu elfen o dâl ar sail perfformiad.

Mae cyfarwyddwyr gan gynnwys y Prif Weithredwr yn derbyn cyflog sylfaenol a thaliad ar sail perfformiad. Mae eu hamodau a thelerau cyflogaeth eraill yr un â chyflogeion eraill y Gronfa. Mae ganddynt yr hawl i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r holl gyfarwyddwyr ar gontractau parhaol yn amodol ar dri mis o rybudd. Telir unrhyw daliadau diswyddo'n unol â chynllun digolledu'r gwasanaeth sifil.

Pennir unrhyw gynnydd yng nghyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth; yn 14/15, 1 y cant oedd hwn. Cymeradwyir cynnydd blynyddol yng nghyflogau'r cyfarwyddwyr eraill gan y Prif Weithredwr, yn adlewyrchu canlyniad y dyfarniad cyflog staff cyffredinol.

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i daliad ar sail perfformiad o hyd at 12 y cant o'i gyflog sylfaenol. Mae gan y cyfarwyddwyr eraill hawl i daliad ar sail perfformiad o hyd at 8 y cant o'i gyflog sylfaenol. Mae taliadau ar sail perfformiad yn anghyfunedig (hynny yw, nid ydynt wedi'u hychwanegu at y cyflog sylfaenol, ac mae'n rhaid eu hennill eto bob blwyddyn).

Nid ydynt wedi'u cynnwys o fewn tâl pensiynadwy. Mae'r Prif Weithredwr wedi penderfynu rhoi'r elfennau o'i thâl cydnabyddiaeth sy'n seiliedig ar berfformiad i elusen.

Derbyniodd dau o'r cyfarwyddwyr a adawodd yn ystod y flwyddyn daliadau terfynu. Mae manylion wedi'u datgelu yn y tabl Taliadau Terfynu ar dudalen 74.

Mae manylion cyflogau sylfaenol, taliadau ar sail perfformiad a buddiannau pensiwn cyfarwyddwyr yn y tablau ar dudalennau 73 a 74. Mae manylion eu treuliau ar gael ar y wefan: www.biglotteryfund.org.uk/welsh/about-big/our-people/board/board-committee-and-smt-expenses

**Lluosrifau tâl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)**
Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf (sef y Prif Weithredwr) a thâl cydnabyddiaeth canolrif cyflogeion y Gronfa Loteri Fawr.

Mae'r cyfanswm tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad, buddiannau mewn da; mae'n eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian pensiynau.

Band cyfanswm tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr â'r tâl uchaf yn ystod y flwyddyn oedd £155,000 i £160,000 (2013/14 £140,000 i £145,000), tâl cydnabyddiaeth canolrif cyflogeion y Gronfa Loteri Fawr oedd £26,550 (2013/14 £27,000) ac felly y gymhareb rhyngddynt oedd 5.9:1 (2013/14 5.3:1).



## Tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr - cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth sengl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| Gweithredwyr | 2014/15 Cyflog £'000 | 2014/15 Taliadau ar sail perfformiad £'000 | 2014/15 Gwerth buddiannau pensiwn £'000 | 2014/15 Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth sengl £'000 | 2013/14 Cyflog £'000 | 2013/14 Taliadau ar sail perfformiad £'000 | 2013/14 Gwerth buddiannau pensiwn £'000 | 2013/14 Cyfanswm ffigur tâl cydnabyddiaeth sengl £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dawn Austwick (Prif Weithredwr) o 1 Hydref 2013 | 140–145 | 10–15 | 52 | 205–210 | 70–75 (cyfwerth blynyddol 140–145) | Dd/B | 26 | 95–100 |
| Mark Cooke (Cyfarwyddwr, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) – tan 31 Hydref 2014 | 60–65 (Cyfwerth blynyddol 100–105) | Dd/B | 25 | 85–90 | 100–105 | – | 27 | 125–130 |
| Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Strategaeth, Perfformiad a Dysgu) – tan 31 Gorffennaf 2014 | 40–45 (Cyfwerth blynyddol 100–105) | Dd/B | 22 | 65–70 | 110–115 | – | 17 | 125–130 |
| Danny Homan (Pennaeth Staff) – o 1 Gorffennaf 2014 | 75–80 (Cyfwerth blynyddol 100–105) | Dd/B | 29 | 105–110 | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Dharmendra Kanani (Cyfarwyddwr, Lloegr) – tan 31 Ionawr 2015 | 80–85 (Cyfwerth blynyddol 100–105) | Dd/B | 15 | 95–100 | 105–110 | – | 19 | 125–130 |
| Jackie Killeen (Cyfarwyddwr, Yr Alban) | 70–75 | 5–10 | 13 | 85–90 | 70–75 | 5–10 | 12 | 85–90 |
| Joanne McDowell (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) | 70–75 | 0–5 | 25 | 95–100 | 70–75 | 0–5 | 12 | 80–85 |
| Linda Quinn (Cyfarwyddwr, Cyfathrebu) – tan 31 Hydref 2014 | 50–55 (Cyfwerth blynyddol 80–85) | Dd/B | 7 | 60–65 | 80–85 | – | 8 | 85–90 |
| John Rose (Cyfarwyddwr, Cymru) | 70–75 | 0–5 | 22 | 95–100 | 70–75 | 0–5 | 14 | 85–90 |
| Peter Wanless (Prif Weithredwr tan 31 Mai 2013) | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 25–30 (cyfwerth blynyddol 140–145) | Dd/B | Dd/B | 25–30 |

## Tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr - pensiynau (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

| Gweithredwyr | Pensiwn cronedig oedran pensiwn ar 31/03/15 a chyfandaliad cysylltiedig £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad ar oedran pensiwn £'000 | Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/03/15 £'000 £'000 | Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/03/14 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dawn Austwick (Prif Weithredwr) o 1 Hydref 2013 | 0-5 plws cyfandaliad o 0 | 2.5-5 plws cyfandaliad o 0 | 64 | 21 | 30 |
| Mark Cooke (Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol Chorfforaethol) – tan 31 Hydref 2014 | 15-20 plws cyfandaliad o 0 | 0-2.5 plus plws cyfandaliad o 0 | 347 | 308 | 21 |
| Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Strategaeth Perfformiad a Dysgu) – tan 31 Gorffennaf 2014 | 30-35 plws cyfandaliad o 0 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0 | 407 | 389 | 14 |
| Danny Homan (Pennaeth Staff) – o 1 Gorffennaf 2014 | 0-5 plws cyfandaliad o 0 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0 | 20 | 0 | 13 |
| Dharmendra Kanani (Cyfarwyddwr, Lloegr) – tan 31 Ionawr 2015 | 15-20 plws cyfandaliad o 55 - 60 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 2.5 - 5 | 317 | 291 | 9 |
| Jackie Killeen (Cyfarwyddwr, Yr Alban) | 10-15 plws cyfandaliad o 35 - 40 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0 - 2.5 | 187 | 169 | 6 |
| Joanne McDowell (Cyfarwyddwr, Gogledd Iwerddon) | 20-25 plws cyfandaliad o 20 - 25 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0 - 2.5 | 314 | 281 | 14 |
| Linda Quinn (Cyfarwyddwr, Cyfathrebu) – tan 31 Hydref 2014 | 25-30 plws cyfandaliad o 80 - 85 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0 - 2.5 | 592 | 578 | 7 |
| John Rose (Cyfarwyddwr, Cymru) | 10-15 plws cyfandaliad o 0 | 0-2.5 plws cyfandaliad o 0 | 198 | 171 | 13 |
| Peter Wanless (Prif Weithredwr tan 31 Mai 2013) | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

## Tâl cydnabyddiaeth gweithredwyr - taliadau terfynu

| Gweithredwyr | Digolledaid am golli swydd £ | Digolledaid yn lle rhybudd £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| Ceri Doyle (Cyfarwyddwr, Strategaeth, Perfformiad a Dysgu) – tan 31 Gorffennaf 2014 | 98,600 | 28,483 | 127,083 |
| Linda Quinn (Cyfarwyddwr, Cyfathrebu) – tan 31 Hydref 2014 | 40,054 | 23,945 | 63,999 |



### Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV)

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddiannau'r cynllun pensiwn fel yr aseswyd gan actiwari sydd wedi'i gronni gan aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y buddion a brisiwyd yw buddiannau cronnus yr aelod a phensiwn unrhyw briod dilynol a delir o'r cynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniad arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau pensiwn Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol y mae'r aelod wedi'i gronni o ganlyniad iddynt brynu buddiannau pensiwn ychwanegol y maent wedi talu amdanynt eu hunain. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad go iawn neu bosib mewn buddiannau sy'n deillio o Lwfans Treth Oes Gyfan a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniad pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Cyflogeion â thâl uwch (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae'r tabl a ganlyn yn amlinellu nifer y staff ar sail cyfwerth ag amser llawn a dderbyniodd dâl cydnabyddiaeth, gan gynnwys taliadau ar sail perfformiad lle bo'n berthnasol, o £50,000 neu fwy yn y flwyddyn ariannol. Mae'r ffigurau hyn yn eithrio'r cyfarwyddwyr:

| Tâl Cydnabyddiaeth | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 Nifer y staff (CaALl) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 Nifer y staff (CaALl) |
|---|---|---|
| £50,000-£54,999 | 16 | 17.2 |
| £55,000-£59,999 | 5 | 5.3 |
| £60,000-£64,999 | 4 | 6.4 |
| £65,000-£69,999 | 3 | 6 |
| £70,000-£79,999 | 0 | 1 |
| £80,000-£85,999 | 1 | 1 |
| £90,000-£94,999 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **29** | **36.9** |

### Tâl Cydnabyddiaeth Aelodau Bwrdd a Phwyllgorau

Mae tâl cydnabyddiaeth aelodau Bwrdd a Phwyllgorau'r Gronfa Loteri Fawr wedi'i bennu gan Weinidog Swyddfa'r Cabinet ('y Gweinidog').

Mae Cadeiryddion Bwrdd y DU a'r pwyllgorau gwlad yn derbyn cyflog blynyddol yn seiliedig ar nifer y diwrnodau y mae disgwyl iddynt eu rhoi i waith y Gronfa Loteri Fawr. Disgrifiwyd y rhain yn eu llythyr penodi.

Mae'r cyfansymiau a dderbyniwyd ganddynt wedi'u dangos yn y tabl ar dudalennau 60 i 62.

Nid yw aelodau Bwrdd a phwyllgorau'n derbyn unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da neu fuddiannau pensiwn. Mae treuliau a geir fel rhan o'u dyletswyddau'n cael eu had-dalu ar yr un sail â chyflogeion y Gronfa.

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
3 Gorffennaf 2015

# Adran saith: Ein cyfrifon
# Datganiadau ariannol

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I SENEDD Y DU, CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU, SENEDD YR ALBAN A CHYNULLIAD GOGLEDD IWERDDON

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau mewn Ecwiti; a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o fewn y polisïau cyfrifyddu a amlinellwyd y tu mewn iddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth y mae'r adroddiad yn disgrifio ei fod wedi'i archwilio.

### Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn darparu barn wir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc.1993 a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008. Cynhaliais fy arolwg yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae archwiliad yn golygu dod o hyd i dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag cam-ddatgan materol, p'un ai trwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: p'un a yw'r polisïau cyfrifyddu'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r Gronfa Loteri Fawr ac yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wneir gan y Gronfa Loteri Fawr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i adnabod anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwilir ac i adnabod unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn faterol anghywir yn seiliedig ar, neu'n faterol anghyson â, gwybodaeth sydd wedi'i chywain gennyf i yn y broses o berfformio'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol, ystyriaf y goblygiadau mewn perthynas â'm tystysgrif i.

Mae'n ofynnol i mi ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth i roi sicrhad rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at ddibenion yn unol â bwriad Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso yn unol â bwriad Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.



### Barn am ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn darparu barn wir a theg am gyflwr materion y Gronfa Loteri Fawr ar 31 Mawrth 2015 ac o'r diffyg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddir trwy hynny.

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi cael ei baratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn adran 5 ac Adran 6 yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol pan baratowyd y datganiadau ariannol yn cyfateb i'r datganiadau ariannol.

### Materion yr adroddaf arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ddychweliadau sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio'n cyfateb i'r cofnodion a dychweliadau cyfrifyddu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- os nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiad â chanllawiau Trysorlys EM.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse**
**14 Gorffennaf 2015**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

## Datganiad incwm cynhwysfawr

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Ailddatganiad Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| **Loteri** | | | |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 13 | 783,286 | 661,508 |
| Incwm buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 3,157 | 3,103 |
| Llog banc a llog arall sy'n dderbyniadwy | 2 | 125 | 79 |
| Adenillion grant | 2 | 3,614 | 4,120 |
| | | 790,182 | 668,810 |
| **Incwm o arian cyfrifon segur** | | | |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | | 49,520 | 83,640 |
| Llog banc sy'n dderbyniadwy ar arian cyfrifon segur | | 128 | 106 |
| | | 49,648 | 83,746 |
| **Incwm arall** | 2 | 6,219 | 4,084 |
| **Cyfanswm incwm** | | 846,049 | 756,640 |
| **Gwariant** | | | |
| **Gwariant ar raglenni Loteri** | | | |
| Gwariant ar grantiau | 3 | 888,064 | 827,106 |
| Llai gwariant ar grantiau wedi'u darfod neu eu diddymu | 3 | (15,800) | (1,828) |
| Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni | 4 | 18,669 | 9,858 |
| | | 890,933 | 835,136 |
| **Gwariant ar y rhaglen arian cyfrifon segur** | | | |
| Gwariant ar grantiau | | 49,437 | 78,954 |
| **Costau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri | 5 | 48,975 | 49,662 |
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur | 5 | 587 | 368 |
| Costau gweithredu wedi'u hailgodi | 5 | 3,793 | 4,084 |
| | | 53,355 | 54,114 |
| **Ailstrwythuro a buddsoddi** | 8 | 3,453 | 8,988 |
| | | 56,808 | 63,102 |
| **Cyfanswm gwariant** | | 997,178 | 977,192 |



## Datganiad incwm cynhwysfawr (parhad)

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Ailddatganiad Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Diffyg cyn treth** | | (151,129) | (220,552) |
| Treth | 9 | (25) | (16) |
| **Diffyg ar ôl treth** | | (151,154) | (220,568) |
| **Incwm/gwariant cynhwysfawr arall** | | | |
| Cynnydd ar ailbrisio buddsoddiadau | 13 | – | - |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr** | | (151,154) | (220,568) |

Nid oes gan y Gronfa unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar wahân i'r rhai a nodir uchod. Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi dod i ben.

## Datganiad o newidiadau mewn ecwiti

| | Arian wrth gefn £'000 |
|---|---|
| **Swm Wrth Gefn Cyffredinol** | |
| Swm wrth gefn cychwynnol ar 1 Ebrill 2013 | 469,700 |
| Addasiad cyfnod blaenorol * | 32,301 |
| Ailddatganiad swm wrth gefn cychwynnol ar 1 Ebrill 2013 | 502,001 |
| Trosglwyddwyd o'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net | 213,882 |
| Addasiad cyfnod blaenorol * | 6,687 |
| Ailddatganiad swm wrth gefn terfynol y Loteri ar 31 Mawrth 2014 | 722,570 |
| Trosglwyddwyd o'r Datganiad Gwariant Cynhwysfawr Net | 151,154 |
| Swm wrth gefn terfynol ar 31 Mawrth 2015 | 873,724 |

* ar gyfer addasiadau cyfnod blaenorol, gweler nodyn 29 y cyfrifon.

# Datganiad o sefyllfa ariannol

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Ailddatganiad Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | 2,944 | 3,303 |
| Asedau anniriaethol | 11 | 19,448 | 22,088 |
| | | 22,392 | 25,391 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnachu a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 12 | 7,290 | 10,959 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 40,765 | 46,033 |
| Balans buddsoddi yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 324,111 | 382,862 |
| | | 372,166 | 439,854 |
| **Cyfanswm asedau** | | 394,558 | 465,245 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Masnachu a symiau eraill sy'n daladwy | 14 | (485,844) | (597,734) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | (91,286) | (132,489) |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Masnachu a symiau eraill sy'n daladwy | 14 | (775,640) | (582,226) |
| **Darpariaethau** | 15 | (6,798) | (7,855) |
| Asedau llau rhwymedigaethau | | (873,724) | (722,570) |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Arian Loteri wrth gefn | | (885,883) | (735,105) |
| Arian cyfrifon segur wrth gefn | | 12,159 | 12,535 |
| | | (873,724) | (722,570) |

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Gronfa Loteri Fawr ar 3 Gorffennaf 2015.

**Dawn Austwick**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

**Peter Ainsworth**
Cadeirydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 109 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.



# Datganiad o lifoedd arian

| | Nodyn | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian o weithgareddau** | | | |
| Arian a dynnwyd i lawr o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 13 | 845,194 | 636,170 |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd (arian cyfrifon segur) | | 49,520 | 83,640 |
| Taliadau sy'n gysylltiedig ag arian cyfrifon segur | | (51,120) | (76,319) |
| Adennill grantiau ac arian o ffynonellau eraill | | 3,614 | 4,120 |
| Incwm arall | | 6,096 | 10,178 |
| Llog a dderbyniwyd | | 125 | 185 |
| Taliadau i gyflenwyr | | (18,643) | (26,322) |
| Taliadau i weithwyr ac ar eu rhan | | (34,891) | (35,125) |
| Taliadau i dderbynyddion grantiau | | (803,789) | (582,354) |
| Arian a delir ac a ddelir gan drydydd partïon | | (515) | (356) |
| Treth a dalwyd ar y llog a dderbyniwyd | | (17) | 982 |
| Llif arian net o weithgareddau gweithredu | 19 | (4,427) | 14,799 |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Taliadau i gaffael eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (237) | (462) |
| Taliadau i gaffael asedau anniriaethol | | (604) | (6,986) |
| | | (841) | (7,448) |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod** | | (5,268) | 7,351 |
| **(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | | |
| Balansau arian a ddygwyd ymlaen | | 40,765 | 46,033 |
| Llai balansau arian a ddygwyd ymlaen | | (46,033) | (38,682) |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod** | | (5,268) | 7,351 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82 i 109 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2014/15 a gyhoeddir gan Drysorlys EM a'r Cyfarwyddiadau Cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag Adran 36A (2) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygir gan Ddeddfau'r Loteri Genedlaethol 1998 a 2006) a Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu a'u dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd y FReM yn caniatáu dewis o bolisïau cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y bernir mai dyna'r un mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Gronfa Loteri Fawr at ddiben darparu golwg gwir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan y Gronfa Loteri Fawr isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon. Nid ydym wedi mabwysiadu unrhyw IFRS a gyhoeddwyd nad yw wedi dod i rym eto.

### Newid mewn polisi cyfrifyddu

Daeth fersiwn diwygiedig o gyfarwyddyd cyfrifon y Loteri i rym yn ystod y flwyddyn, er mwyn iddynt gydweddu â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, sy'n seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Yr unig newid i'r cyfrifon yw dileu'r gwahaniaeth rhwymedigaethau meddal. Yn flaenorol, roedd rhwymedigaethau a gyfrifwyd wedi'u cyfyngu i'r rhai lle'r oedd derbynyddion grant wedi'i dderbyn yn ysgrifenedig.

Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon newydd y Loteri, bydd ymrwymiadau'n cael eu cyfrif bellach pan fydd:
a) y dyfarniad wedi'i benderfynu'n ffurfiol gan y Gronfa; ac
b) mae'r derbynnydd bwriadedig wedi'i hysbysu'n ffurfiol am y dyfarniad; ac
c) mae'r dyfarniad yn rhydd rhag unrhyw amodau o dan reolaeth y Gronfa.

Gan fod hwn yn newid mewn polisi cyfrifyddu, rydym wedi addasu cyfnodau blaenorol i adlewyrchu'r polisi hwn fel petai wedi bodoli erioed er mwyn cydymffurfio â safonau cyfrifyddu. Dangosir yr addasiad cyfnod blaenorol yn nodyn 29 y cyfrifon.

## 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn costau hanesyddol. Ystyrir bod cost gyfredol yn ddirprwy ar gyfer gwerth teg.

Ar gyfer 2014/15 nid ydym yn credu bod costau cyfredol yn wahanol yn faterol i'r costau hanesyddol a ymddengys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifyddu a datgelu'r Ddeddf Cwmnïau, FReM a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, lle bo'n briodol.

## 1.2 Busnes cyfredol

Paratowyd y cyfrifon blynyddol ar sail busnes cyfredol. Ymgymerwyd â'r ymrwymiadau grant ar gyfer blynyddoedd y dyfodol ar ôl ystyried gofynion arian parod derbynyddion grant (gellir ymestyn y rhain dros dair i bum mlynedd) ac ar ôl ystyried y rhagamcaniadau incwm a ddarparwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Wrth fabwysiadu'r ymagwedd hon at incwm y dyfodol, mae'r Bwrdd yn cymryd yn ganiataol fel mater o bolisi cyhoeddus y bydd y Loteri'n parhau i weithredu.

## 1.3 Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, mae cyfran y balansau hyn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Loteri Fawr i'w gweld yn y cyfrifon ac, ar 31 Mawrth 2015, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael i'w ddosbarthu gan y Gronfa mewn perthynas ag ymrwymiadau presennol ac yn y dyfodol.

## 1.4 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

Mae eiddo, peiriannu a chyfarpar wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol am y gost, ac eithrio eitemau â chost o lai na £2,000 sy'n cael eu dibrisio i'r Datganiad incwm cynhwysfawr ym mlwyddyn eu caffael.



Darperir dibrisiant yn unol â'r cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu prisiau'r asedau ar sail llinell wastad yn ystod amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwelliannau prydles | Dros gyfnod y les |
| Cyfarpar TG | 3 blynedd |
| Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa | 3 blynedd |

## 1.5 Asedau anniriaethol

Yn unol ag IAS 38 'Asedau Anniriaethol', cydnabyddir costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi'r cynnyrch meddalwedd canfyddadwy ac unigryw fel ased anniriaethol. Mae costau a briodolir yn uniongyrchol yn cynnwys ffioedd contractwyr allanol a chostau cyflogeion. Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol o'r asedau rydym yn amorteiddio ar sail linol dros y bywyd defnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd y system ariannu | 10 mlynedd |
| Gwefan | 5 blynedd |

Nid ydym yn amorteiddio'r costau sy'n gysylltiedig ag asedau sy'n cael eu hadeiladu.

## 1.6 Cronfa bensiwn

Mae gweithwyr yn rhan o ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun pensiwn amlgyflogwr heb ei ariannu â buddion wedi'u diffinio. Telir buddiannau pensiwn gan PCSPS. Mae ein rhwymedigaethau wedi'u cyfyngu i gost a osodir gan Brif Actwari'r Llywodraeth, sy'n gysylltiedig â chyflogau a delir ym mhob blwyddyn.

## 1.7 Lesau gweithredol

### Prydlesai

Rydym yn dosbarthu lesau nad ydynt yn rhoi unrhyw un o risgiau a gwobrwyon perchnogaeth i raddau sylweddol fel lesau gweithredol yn unol ag IAS 17 'Lesau'. Codir cost lesau gweithredol a ddelir gan y Gronfa Loteri Fawr ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr (net o gyfnodau di-rent) dros y cyfnod y maent yn berthnasol iddo. Dosrennir buddion cyfnodau di-rent ar brydlesi dros y cyfnod hyd at ddiwedd y les ar sail linol.

Ar 31 Mawrth 2015, mae holl brydlesi eiddo'r Gronfa wedi'u dosbarthu fel lesau gweithredol. Ni ellir dyrannu taliadau les ar gyfer eiddo'n ddibynadwy rhwng y cydrannau tir ac adeiladau. Fodd bynnag mae'n glir nad yw dwy elfen y trefniadau prydles yn trosglwyddo holl risgiau a gwobrwyon perchnogaeth i'r Gronfa i raddau sylweddol ac felly mae'r ddwy elfen wedi'u dosbarthu'n lesau gweithredol.

### Prydleswr

Pan fyddwn wedi darparu trefniad di-rent neu gymhelliad arall i denant, mae cost y cymhelliad hwn wedi'i dosrannu dros y cyfnod i'r pwynt egwyl rhent neu ddyddiad dod i ben y brydles, p'un bynnag a ddaw yn gyntaf.

## 1.8 Gwariant ar raglenni

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa wneud grantiau i ariannu neu gynorthwyo ariannu prosiectau a gwneud neu gychwyn trefniadau sydd wedi'u dylunio i dalu am wariant elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel y pennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r Gronfa wedi newid ei Pholisi Cyfrifyddu ar gyfer Cydnabod Grantiau yn dilyn Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd i'r Gronfa a holl ddosbarthwyr Loteri eraill y DU gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r newid hwn yn gysylltiedig â chydnabod ymrwymiadau grant a ble maent yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau boed hynny'n groniadau neu ddarpariaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Ymdrinnir â'r addasiad cyfnod blaenorol yn nodyn 29 Addasiad Cyfnod Blaenorol ar dudalen 108.

### Dyfarniadau grant

Cyfrifir dyfarniadau grant fel gwariant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ac (hyd nes y cânt eu talu) fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o rwymedigaethau yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol p'un a ydynt yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol.

Nid yw dyfarniadau grant y penderfynwyd arnynt yn ffurfiol gan y Gronfa nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad technegol o rwymedigaethau (naill ai gan nad ydynt wedi'u cyfathrebu i'r derbynnydd neu gan nad ydynt yn bodloni meini prawf llym mewn perthynas â naill ai amodau penodol neu fathau o ddyfarniadau (gweler y tri pharagraff a ganlyn)) wedi'u cynnwys mewn gwariant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr neu fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ond yn cael eu datgelu fel rhwymedigaethau amodol yn Nodyn 17.

### Dyfarniadau datblygu

Pan fo'r Gronfa'n cadw disgresiwn i wneud dyfarniadau dilynol yn sgil cam datblygu a ariannwyd, nid yw'r dyfarniad posib dilynol wedi'i drin fel rhwymedigaeth hyd nes bod y Gronfa wedi gwneud penderfyniad ffurfiol pellach i'w symud ymlaen.

### Dyfarniadau ar sail perfformiad

Pan fydd talu dyfarniad yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn destun amod perfformiad, nid yw'r rhan o'r dyfarniad sy'n destun yr amod yn cael ei thrin fel rhwymedigaeth hyd nes bod yr amod wedi'i fodloni.

### Dyfarniadau camau lluosog

Pan wneir dyfarniad sy'n daladwy dros gamau lluosog ac mae parhad y dyfarniad yn amodol ar ganlyniad adolygiadau ffurfiol gan y Gronfa, caiff camau diweddarach y dyfarniad eu trin fel rhwymedigaeth naill ai os mai natur yr adolygiad yw cadarnhau cynnydd yn unig, neu os mai canlyniad yr adolygiad yw bod y Gronfa'n parhau â'r dyfarniad.

### Dosbarthiad rhwymedigaethau

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu dosbarthu'n ddarpariaethau os ydynt yn cyfateb i'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, neu, os nad ydynt, yn groniadau.

Nid yw'r meysydd a ganlyn wedi'u heffeithio gan y newid uchod:

### Grantiau wedi'u had-dalu a'u hadennill

Mae ein hamodau grant yn caniatáu adennill ac ad-dalu grantiau a dalwyd. Gall hyn ddigwydd pan fydd y deiliad grant yn methu â chydymffurfio â'r amodau a thelerau neu os yw gwariant gwirioneddol derbynnydd yn llai na'r grant a dalwyd, yn seiliedig ar amcangyfrifon o gostau.

Mae arian sy'n cael ei adennill yn cael ei gydnabod fel incwm ar ôl derbyn yr ad-daliad.

### Gwariant uniongyrchol ar raglenni

Rydym yn cofnodi costau a dalwyd wrth gyflwyno gwasanaethau'n uniongyrchol i fuddiolwyr neu dderbynyddion grantiau'n unol â threfniadau o dan Adran 43 Deddf y Loteri Genedlaethol etc fel 'gwariant uniongyrchol ar raglenni'. Er enghraifft darparu strwythurau cefnogi ymgeiswyr a derbynyddion grantiau a sicrhau ansawdd er budd uniongyrchol derbynyddion grantiau.

## 1.9 Treth

Codir treth gorfforaethol ar sail y gyfraith dreth sydd mewn grym ar ddyddiad y sefyllfa ariannol. Codir y dreth hon ar log a dderbyniwyd ar falansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc masnachol.

Rydym wedi'n cofrestru ar gyfer treth ar werth (TAW). Codir ac adenillir TAW ar ein gweithgareddau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o weithgareddau busnes fel y disgrifir mewn deddfwriaeth TAW. Mae hyn yn cynnwys llawer o'n gweithgareddau Trydydd Parti.

## 1.10 Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llawn ac adneuon a gedwir ar alw gyda banciau masnachol.



## 1.11 Darpariaethau

Mae'r Gronfa'n cydnabod darpariaeth yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

1. mae rhwymedigaeth gyfreithiol o ganlyniad i benderfyniad yn y gorffennol
2. mae'n debygol y bydd angen adnoddau i fodloni'r rhwymedigaeth, a
3. gellir amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

Ar hyn o bryd mae gennym ddarpariaethau ar gyfer ailstrwythuro costau a thrafodion les beichus.

## 1.12 Rheoli grantiau

### Partneriaid dirprwyedig

Rydym wedi ymgymryd â chytundebau lle mae nifer o gyrff dirprwyedig yn gweithredu fel mudiadau arweiniol wrth gyflwyno cynlluniau grantiau. Trwy wneud hyn rydym wedi dirprwyo'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau am grantiau statudol i fudiadau eraill. Cofnodir yr arian a roddir ymlaen llaw i bartneriaid dirprwyedig er mwyn talu am ymrwymiadau grant nad ydynt wedi'u talu ar ddiwedd y flwyddyn fel ased cyfredol hyd nes ein bod yn derbyn cadarnhad bod ymrwymiadau grant wedi'u bodloni.

### Ymddiriedolaethau

Mae'r Gronfa wedi gwneud dyfarniadau i gwmnïau cyfyngedig trwy warant newydd sy'n gweithredu fel unig ymddiriedolwr ymddiriedolaethau elusennol newydd. Cofnodir arian a ddyfernir i'r ymddiriedolaethau hyn fel rhwymedigaeth hyd nes ein bod yn gwneud taliadau i'r ymddiriedolaethau. Nid yw'r symiau a ddelir gan yr ymddiriedolaeth wedi'u dangos fel asedau..

### Cynlluniau ar y cyd

Pan fyddwn wedi ymgymryd â chynllun ar y cyd, fel y diffinnir yn Neddf y Loteri Genedlaethol 1998, cyfrifir ymrwymiadau grant a wneir trwy'r cynllun ar y cyd ar sail ein rhan ni o'r cynllun. Cofnodir arian a roddir ymlaen llaw i'r cynllun ar y cyd at ddiben talu ymrwymiadau grant fel ased cyfredol hyd nes ein bod yn derbyn cadarnhad bod yr ymrwymiadau grant wedi'u bodloni. Mae costau gweinyddu wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn unol â'r swm a godir ar y Gronfa.

## 1.13 Asedau trydydd parti

Fel ceidwad, mae'r Gronfa'n cadw rhai asedau sy'n eiddo i drydydd partïon. Nid yw'r rhain wedi'u cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gennym unrhyw fudd uniongyrchol ynddynt. Dangosir y balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yn nodyn 25.

## 1.14 Offerynnau ariannol

Mae'r Gronfa'n adolygu pob contract yn erbyn IAS 39 mewn perthynas â chydnabod a mesur offerynnau ariannol. Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau yr ystyrir eu bod yn ariannol eu natur wedi'u hamlinellu yn nodyn 20. Nid ydym yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth.

## 1.15 Adrodd Cylchrannol

Yn unol ag IFRS 8 mae Bwrdd y Gronfa, fel 'Prif Gorff Gwneud Penderfyniadau Gweithredol', wedi pennu ein bod yn gweithredu mewn pum segment daearyddol materol - y Deyrnas Unedig, Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gennym un ffynhonnell incwm sylweddol, sef incwm Loteri, ac mae'r fformat adrodd cylchrannol yn adlewyrchu ein strwythur rheoli ac adrodd mewnol. Gweithredir rhai rhaglenni ar draws y DU gyfan ac adroddir yn annibynnol ar y rhain i'r pedair gwlad.

## 1.16 Arian cyfrifon segur

Mae arian cyfrifon segur wedi'u cymryd i ystyriaeth o dan yr un polisïau ag arian Loteri, a gwahaniaethir rhwng y symiau yn y datganiadau ariannol hyn. Er eglurder, mae datganiadau ariannol memorandwm sy'n ymwneud ag arian cyfrifon segur yn unig wedi'u cynnwys ar dudalennau 110 i 113.

## 1.17 Safonau Adrodd a gyhoeddwyd nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto

Nid yw FReM y Trysorlys yn mynnu bod y Safonau a'r Dehongliadau a ganlyn yn cael eu cymhwyso yn 2014-15. Ni fyddai cymhwysiad y safonau fel y'u diwygir yn cael effaith faterol ar y cyfrifon ar gyfer 2014-15 petaent wedi'u cymhwyso yn y flwyddyn honno:

IFRS 9 Offerynnau Ariannol – yn effeithiol 2017-18

IFRS 13 Mesur Gwerth Teg – yn effeithiol 2015-16

## 2. Incwm

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Llog banc a llog arall sy'n dderbyniadwy** | | |
| Llog banc sy'n dderbyniadwy | 125 | 79 |
| | 125 | 79 |

| | B lwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm arall** | | |
| Incwm o gyflwyno arian nad yw'n arian y Loteri | 3,184 | 1,954 |
| Incwm o gyflwyno arian Loteri ar ran dosbarthwyr eraill | 856 | 266 |
| Incwm rhent | 1,901 | 1,490 |
| Arall | 278 | 374 |
| | 6,219 | 4,084 |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Adenillion grant o ddeiliaid grant (Nodyn 1.8)** | | |
| Adenillion grant | 3,614 | 4,120 |
| | 3,614 | 4,120 |



## 3. Gwariant ar raglenni

Mae IFRS 8 yn gofyn am ddatgelu data ariannol fesul cylchran adroddadwy. Mae'r Gronfa'n rheoli ac yn adrodd am weithgareddau dyfarnu grantiau yn seiliedig ar gylchrannau daearyddol. Er hynny, ni reolir nac adroddir ar gostau gweithredu ar sail gylchrannol.

Nid ydym yn dyrannu incwm ond yn rheoli pob cyfran ddaearyddol trwy bennu cyllidebau grant. Fel yr amlinellir yn adran pedwar yr adroddiad blynyddol, pennir cyllidebau grant yn seiliedig ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae'r Bwrdd wedi dyrannu ariannu dangosol i bob gwlad ar gyfer Cynllun Strategol 2009-2015 ar ôl i gyfran o'r gyllideb, hyd at 10 y cant, gael ei brigdorri ar gyfer rhaglenni'r Deyrnas Unedig. O'r gyllideb sy'n weddill mae Lloegr yn derbyn 77.5 y cant; Yr Alban 11.5 y cant Cymru 6.5 y cant a Gogledd Iwerddon 4.5 y cant. Dros gyfnod y cynllun mae gan bob pwyllgor gwlad ddisgresiwn, o fewn cyfyngiadau penodol, ar amseru penderfyniadau grant. Mae'r tabl isod yn amlinellu gwariant grant a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

| | Deyrnas Unedig | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon | Cyfanswm y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Cyfanswm y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant grant a wnaed | 54,088 | 664,180 | 100,883 | 50,532 | 18,381 | 888,064 | 827,106 |
| Llai gwariant grant wedi'u darfod a'u diddymu | (2,263) | (9,882) | (1,919) | (1,211) | (524) | (15,800) | (1,828) |
| Gwariant grant net a wnaed | 51,825 | 654,298 | 98,964 | 49,321 | 17,856 | 872,264 | 825,278 |

## 4. Gwariant uniongyrchol i gefnogi rhaglenni

Costau yn ymwneud â gwariant er budd uniongyrchol derbynyddion trydydd parti a wnaed o dan gontract yn hytrach na dyfarniad grant.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Cefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol i ymgeiswyr a derbynyddion grantiau | 18,669 | 9,858 |
| | 18,669 | 9,858 |

Mae'r Gronfa wedi ymgymryd â'r contractau a ganlyn a fydd yn darparu cefnogaeth yn uniongyrchol i fuddiolwyr. Cyfrifir y gwariant pan ddarperir y gwasanaethau sy'n destun y contract. Ar 31 Mawrth roedd yr ymrwymiadau ariannol a ganlyn yn weddill ar y contractau hyn.

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Contract Assist | 2,062 | 4,508 |
| Prosiectau Eden – Y Cinio Mawr | 1,205 | 3,115 |
| Y Prosiect Cerdd Mawr | 462 | 2,585 |
| Heneiddio'n Well | 6,829 | 7,755 |
| Cefnogi a Datblygu Anghenion Cymhleth | 2,716 | 2,016 |
| Fulfilling Lives: A Better Start – Cefnogi a Datblygu | 6,725 | 7,366 |
| BIG Potential | 19,981 | 10,881 |
| Early Action Neighbourhood Fund | 2,563 | – |
| Contract Iechyd Meddwl | 1,561 | – |
| Cam-drin Domestig | 1,532 | – |
| Our Place 2 | 1,404 | – |
| Contract Cefnogi Commissioning Better Outcomes | 1,228 | – |
| Ymgyrch Ddysgu Pentref SOS | 1,213 | – |
| 22 Contract (2013/14: 22) i gyflwyno'r rhaglen Sgiliau Bywyd yng Nghymru | 383 | 1,651 |
| 27 Contract (2013/14: 29) ar gyfer contractau cefnogi a datblygu eraill | 5,749 | 10,427 |



## 5. Costau gweithredu

| | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm y Loteri £'000 | Costau gweithredu wedi'u hailgodi £'000 | Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 Cyfanswm costau gweithredu £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 Cyfanswm costau gweithredu £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Tâl cydnabyddiaeth cyflogeion | 29,024 | 3,142 | 490 | 32,656 | 34,622 |
| **Teithio a threuliau** | | | | | |
| Staff | 1,134 | 60 | – | 1,194 | 1,498 |
| Aelodau Bwrdd a phwyllgorau | 20 | – | – | 20 | 63 |
| **Taliadau o dan lesau gweithredol:** | | | | | |
| –Eiddo | 3,255 | 413 | – | 3,668 | 4,968 |
| –Arall | 195 | – | – | 195 | (740) |
| Costau llety eraill | 2,809 | – | – | 2,809 | 2,620 |
| Costau cyfathrebu | 921 | 66 | – | 987 | 1,422 |
| Cefnogaeth allanol ar gyfer rhaglenni grant | 455 | 61 | – | 516 | 414 |
| Gwerthuso rhaglenni | 371 | 4 | 23 | 398 | 583 |
| Recriwtio a hyfforddi staff | 783 | 1 | – | 784 | 828 |
| Ffioedd proffesiynol | 559 | 32 | 25 | 616 | 968 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith archwilio* | 116 | 3 | – | 119 | 115 |
| Tâl archwilwyr ar gyfer gwaith ardystio grantiau | 5 | – | – | 5 | 8 |
| Costau isadeiledd TG | 3,733 | – | – | 3,733 | 2,263 |
| Costau eraill | 792 | 5 | 41 | 837 | 974 |
| TAW | 1,955 | 5 | 8 | 1,968 | 1,673 |
| **Eitemau:** | | | | | |
| – Dibrisio ac Amorteiddio | 2,848 | 1 | – | 2,849 | 1,835 |
| | 48,975 | 3,793 | 587 | 53,355 | 54,114 |

* Nid oedd unrhyw daliadau i archwilwyr ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig ag archwilio.

## 6. Dangosydd perfformiad ariannol

Ein dangosydd perfformiad allweddol yw'r rhan o'n cyfran o incwm Loteri a wariwn ar ei ddosbarthu. O'r mesur hwn rydym yn hepgor costau rydym yn eu hailgodi ar bobl eraill, gan gynnwys costau dosbarthu arian Loteri ac arian nad yw'n dod o'r Loteri ar gyfer mudiadau eraill, eiddo wedi'i is-osod a gwariant anghymhwysol megis cyfraddau busnes. Rydym hefyd yn hepgor costau unigol buddsoddiadau i gyflawni effeithlonrwydd yn y dyfodol. Derbyniwyd incwm gwerth £59.4 miliwn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r ad-daliad gan Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Olympaidd (OLDF) ar gyfer arian a gollwyd er mwyn talu costau Llundain 2012. Mae'r dychweliad hwn wedi'i ohirio dros bedair blynedd at ddibenion mesur perfformiad. Ar y sail hon, cost dosbarthu ein cyfran o incwm Loteri oedd 6.5 y cant o'r incwm hwnnw (2013/14 7.3 y cant).

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Costau gweithredu ar gyfer dosbarthu incwm Loteri (yn unol â nodyn 5) | 48,975 | 49,662 |
| Llai gwariant anghymhwysol | (952) | (869) |
| Cyfanswm gwariant cymhwysol | 48,023 | 48,793 |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 783,286 | 661,508 |
| Incwm buddsoddi | 3,157 | 3,103 |
| Llai incwm gohiriedig o'r ad-daliad OLDF | (44,550) | - |
| Cyfanswm incwm cymhwysol | 741,893 | 664,611 |
| Canran | 6.5% | 7.3% |

## 7. Nifer a chostau staff

Roedd cyfanswm cost y staff, gan gynnwys tâl cydnabyddiaeth aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn:

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Tâl a chyflogau | 25,445 | 26,988 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 2,009 | 2,214 |
| Costau pensiwn eraill | 4,590 | 4,664 |
| Costau staff asiantaeth | 846 | 1,488 |
| Costau staff wedi'u cyfalafu | (234) | (732) |
| | 32,656 | 34,622 |



Roedd rhai staff wedi'u cynnwys uchod wedi'u secondio allan i fudiadau eraill, y mae adenillion o £120,757 ar eu cyfer wedi'u cynnwys mewn incwm arall. Mae cyflog a hawliau pensiwn aelodau uwch dîm rheoli ac Aelodau Bwrdd y Gronfa wedi'u cynnwys uchod; datgelir manylion yn yr Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth. Nid yw'n bosib adnabod nifer a chost aelodau staff nad ydynt wedi'u cyflogi ar sail barhaol o fewn y cyfanswm, ac eithrio'r rhai a gyflogir trwy asiantaethau.

Mae costau staff wedi'u cyfalafu'n ymwneud â phobl sy'n gweithio ar y prosiect BPR ac maent wedi'u cynnwys mewn Meddalwedd ariannu o dan ddatblygiad yn Asedau Anniriaethol (nodyn 11).

Roedd nifer cyfartalog y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn a staff dros dro yn gweithio i'r Gronfa Loteri Fawr yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Nifer cyfartalog y staff dros dro (CaALl) | Nifer cyfartalog y cyflogeion (CaALl) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 Cyfanswm nifer cyfartalog y staff (CaALl) | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 Cyfanswm nifer cyfartalog y staff (CaALl) |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud grantiau | 26 | 533 | 559 | 599 |
| Cefnogaeth i gwsmeriaid a budd-ddeiliaid | 2 | 188 | 190 | 226 |
| Llywodraethu a gweinyddu | 3 | 134 | 137 | 140 |
| Staff sy'n ymwneud â phrosiectau cyfalaf | - | 19 | 19 | 27 |
| | 31 | 874 | 905 | 992 |

Ar 31 Mawrth 2015 roedd y Gronfa Loteri Fawr yn cyflogi 853 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn (2013/14 980). Roedd hyn yn cynnwys 20 o weithwyr dros dro cyfwerth ag amser llawn (2013/14 65)

### Pecynnau ymadael

Er nad yw cyflogeion y Gronfa'n weision sifil, mae eu telerau cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliadau terfynu a phensiynau ymddeol yn gynnar wedi'u cyfrifo yn yr un modd â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil. Telir costau'r buddiannau hyn gan y Gronfa ac nid gan gronfeydd y Gwasanaeth Sifil na'r Trysorlys.

| Band costau'r pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 | Nifer y diswyddiadau Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| <£10,000 | 4 | 5 |
| £10,000 – £25,000 | 12 | 20 |
| £25,001 – £50,000 | 18 | 19 |
| £50,001 – £100,000 | 9 | 5 |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael fesul math | 43 | 49 |
| Cyfanswm cost £'000 | 1,483 | 1,361 |



## 8. Costau Ailstrwythuro a Buddsoddi

Rydym yn edrych yn barhaus ar y ffordd yr ydym wedi'n strwythuro ac yn gwneud newidiadau er mwyn cyflwyno gwasanaethau sy'n addas i'r diben, effeithlon ac yn effeithiol. Fel rhan o'r broses hon, yn ystod 2014/15 roedd costau'r ailstrwythuro hwn yn cynnwys taliadau terfynu a thrafodion eiddo, gan gynnwys darpariaeth newydd ar gyfer prydles feichus yn Birmingham.

Yn dilyn yr adolygiad o amhariadau a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2015 mae colled ar ffurf lleihad o £991k (2013/14 £1,937k) wedi'i adnabod ar gyfer ased anniriaethol y system ariannu ac wedi'i gynnwys isod.

Daeth ein buddsoddiad mewn adolygiad o'n prosesau busnes gan gynnwys y system rheoli ariannu i wella gwasanaeth cwsmeriaid a chynyddu effeithlonrwydd i ben yn ystod y flwyddyn. Mae costau uniongyrchol staff sy'n gweithio ar y prosiect hwn, ynghyd â chaledwedd a thrwyddedau wedi'i gyfalafu'n unol ag IAS 16 'Eiddo, peiriannau a chyfarpar' ac IAS 38 'Asedau anniriaethol' (gweler nodiadau 10 a 11).

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Taliadau terfynu | 1,916 | 1,757 |
| Rhesymoli eiddo | 88 | 831 |
| Taliadau prydles anochel | 375 | 2,508 |
| Lleihad ased anniriaethol y system rheoli ariannu (gweler nodyn 11) | 991 | 1,937 |
| Ailbeiriannu prosesau busnes | 83 | 1,955 |
| | 3,453 | 8,988 |

## 9. Treth

Mae'r Gronfa'n talu treth gorfforaethol dim ond ar log banc a llog arall a dderbynnir.

Mae cost dreth net o £25,065 (2013/14 £15,816) ar gyfer y flwyddyn.

Nid yw incwm buddsoddi a gynhyrchir ar falansau a ddelir yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn destun Treth Gorfforaethol y DU.

## 10. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | Gwelliannau prydlesol £'000 | TG £'000 | Cyfarpar swyddfa/ dodrefn a ffitiadau £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cost | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 7,022 | 2,892 | 405 | 10,319 |
| Ychwanegiadau | 237 | – | – | 237 |
| Gwarediadau | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | 7,259 | 2,892 | 405 | 10,556 |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 4,526 | 2,184 | 306 | 7,016 |
| Tâl am y flwyddyn | 363 | 198 | 35 | 596 |
| Gwarediadau | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth** | 4,889 | 2,382 | 341 | 7,612 |
| **Llyfrwerth net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | 2,370 | 510 | 64 | 2,944 |
| Cost | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 6,820 | 2,737 | 300 | 9,857 |
| Ychwanegiadau | 202 | 155 | 105 | 462 |
| Gwarediadau | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | 7,022 | 2,892 | 405 | 10,319 |
| **Dibrisio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 4,174 | 1,903 | 300 | 6,377 |
| Tâl am y flwyddyn | 352 | 281 | 6 | 639 |
| Gwarediadau | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | 4,526 | 2,184 | 306 | 7,016 |
| **Llyfrwerth net** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | 2,646 | 834 | – | 3,480 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | 2,496 | 708 | 99 | 3,303 |

Mae'r holl welliannau prydlesol ar eiddo prydles fer gyda phrydles sy'n dod i ben o fewn llai nag 20 mlynedd.



## 11. Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd y system ariannu – o dan ddatblygiad £'000 | Gwefan £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2014 | 22,925 | 358 | 23,283 |
| Ychwanegiadau | 604 | – | 604 |
| Lleihad | (991) | – | (991) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 22,538 | 358 | 22,896 |
| **Amorteiddiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 1,195 | – | 1,195 |
| Tâl am y flwyddyn | 2,181 | 72 | 2,253 |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 3,376 | 72 | 3,448 |
| **Llyfrwerth** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2015** | 19,162 | 286 | 19,448 |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | 21,730 | 358 | 22,088 |

| | Meddalwedd y system ariannu – o dan ddatblygiad £'000 | Gwefan £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2013 | £'000 | 358 | 18,234 |
| Ychwanegiadau | 6,986 | – | 6,986 |
| Lleihad | (1,937) | – | (1,937) |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 22,925 | 358 | 23,283 |
| | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | – | – | – |
| Tâl am y flwyddyn | 1,195 | – | 1,195 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 1,195 | – | 1,195 |
| | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | 21,730 | 358 | 22,088 |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | 17,876 | 358 | 18,234 |

Yn unol ag IAS 36 ac IPSAS 21, yn dilyn yr adolygiad lleihad a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2015, mae colled ar ffurf lleihad o £991k (2013/14 £1,937k) wedi'i adnabod ar gyfer ased anniriaethol wedi'i adnabod ar gyfer y system rheoli ariannu ac wedi'i gynnwys yn y cyfrifon.

## 12. Masnachu a symiau eraill sy'n dderbyniadwy

| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Wedi'i ddal gan bartneriaid dirprwyol ar gyfer talu ymrwymiadau grant | 98 | 3,532 |
| Adneuon a symiau ymlaen llaw | 792 | 1,178 |
| Symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 2,710 | 2,368 |
| | 3,600 | 7,078 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 3,690 | 3,881 |
| | 7,290 | 10,959 |

Mae'r balansau derbyniadwy fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus gan gyrff eraill y Llywodraeth | 3,589 | 3,372 |
| Symiau sy'n ddyledus gan awdurdodau lleol | – | 659 |
| Symiau sy'n ddyledus o gyrff y tu allan i'r Llywodraeth | 3,701 | 6,928 |

## 13. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

| | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2014** | | 382,862 |
| Enillion o'r Loteri Genedlaethol | 783,286 | |
| Incwm buddsoddi o'r NLDF | 3,157 | |
| Arian a dynnwyd i lawr o'r NLDF | (845,194) | |
| Gostyngiad net yn y balans | | (58,751) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2015** | | 324,111 |
| Enillion buddsoddi heb eu gwireddu | | – |
| **Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2015** | | 324,111 |

Mae'r Gronfa'n derbyn cyfran o'r arian a delir gan Camelot Group plc i Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol ar ôl didynnu costau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wrth iddo weithredu ei swyddogaethau o dan Ddeddf y Loteri, costau'r rheoleiddiwr (Comisiwn y Loteri Genedlaethol), costau'r rheolwr buddsoddi (y Comisiynwyr Dyledion Cenedlaethol) a chostau Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol.

Golygodd y gwahaniaeth yn y balans NLDF rhwng datganiad dros dro 2013/14 a'r sefyllfa derfynol gynnydd o £2.56 miliwn yn y balans NLDF. Ychwanegwyd y cynnydd hwn at yr enillion gan NLDF yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Yn 2014/15, derbyniodd y Gronfa ddychweliad arian a ddargyfeiriwyd i'r Loteri Olympaidd gwerth cyfanswm o £59.47 miliwn. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y ffigur Enillion o'r Loteri Genedlaethol uchod.



## 14. Masnachu a symiau eraill sy'n daladwy

| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ailddatganiad ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| TAW | 222 | 65 |
| Treth arall a nawdd cymdeithasol | 527 | 717 |
| Symiau sy'n daladwy o fasnachu | 770 | 1,134 |
| Yn ddyledus i bartner ar y cyd ar gyfer talu ymrwymiadau grant | 2,419 | 2,633 |
| Symiau eraill sy'n daladwy | 764 | 540 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 2,246 | 2,722 |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 478,896 | 589,923 |
| | 485,844 | 597,734 |
| **Swm sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Symiau eraill sy'n daladwy, croniadau ac incwm gohiriedig | 995 | 1,182 |
| Croniadau grant (Nodyn 16) | 774,645 | 581,044 |
| | 775,640 | 582,226 |

Dechreuwyd cynnwys croniadau grant oherwydd y newid mewn polisi cyfrifyddu ar gyfer grantiau (gweler Nodiadau 1.8, 16 a 29)

| | | |
|---|---|---|
| **Mae'r balans canlynol sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'i gynnwys yn y symiau uchod:** | | |
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff eraill y Llywodraeth | 3,177 | 3,509 |
| Symiau sy'n ddyledus i awdurdodau lleol | – | 707 |
| Symiau sy'n ddyledus i gyrff y tu allan i'r Llywodraeth | 1,258,307 | 1,175,744 |
| | 1,261,484 | 1,179,960 |

### Rhwymedigaethau Grant

Dechreuwyd cynnwys croniadau grant oherwydd y newid mewn polisi cyfrifyddu ar gyfer grantiau (gweler Nodiadau 1.8, 16 a 29)

Mae rhwymedigaethau grant ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu dosbarthu'n ddarpariaethau os ydynt yn cyfateb i'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, neu, os nad ydynt, yn groniadau.

## 15. Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a thaliadau

| | Taliadau prydles anochel £'000 | Cyfraniadau ymddeol yn gynnar £'000 | Darpariaethau colli swyddi | Cyfanswm darpariaethau £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2014 | 6,816 | 159 | 880 | 7,855 |
| Darpariaethau newydd a grëwyd | 375 | 62 | 834 | 1,271 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | (1,342) | (95) | (757) | (2,194) |
| Darpariaethau a ryddhawyd | – | (27) | (107) | (134) |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth | **5,849** | **99** | **850** | **6,798** |

### Taliadau prydles anochel

Rydym wedi is-osod rhan o'n hadeilad yn Llundain i dri thenant. Mae rhan o'r ddarpariaeth yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y rhent a godir ar ein tenantiaid a'r hyn y mae'r Gronfa wedi'i gontractio i'w dalu i'w landlordiaid. Cyfrifir y ddarpariaeth ar gyfer y gwahaniaeth mewn rhent y farchnad gan ddefnyddio cyfradd log dybiedig o 3 y cant. Caiff y ddarpariaeth ei defnyddio dros 12 mlynedd.

At hynny, rydym wedi gadael rhan o'r swyddfeydd yn Llundain a Birmingham a'i hysbysebu fel swyddfeydd sydd ar gael i'w rentu. Gan na fu modd i ni is-osod y lloriau hyn rydym wedi creu darpariaeth ar gyfer y taliadau prydles hyn nad oes modd eu hosgoi.

Ar 31 Mawrth 2015 rydym wedi disgowntio'r ddarpariaeth ar gyfer taliadau prydles beichus gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a gynghorwyd gan Drysorlys EM, sef 2.2 y cant.

### Ailstrwythuro: ymddeol, diswyddo a chefnogaeth

O ganlyniad i ailstrwythuro yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd cynharach, mae rhai swyddi wedi'u hadnabod fel rhai nad oes eu hangen mwyach neu maent wedi'u hadleoli. O ganlyniad i hyn mae staff wedi cael eu diswyddo neu wedi ymddeol yn gynnar.

- Pan fydd staff sy'n gymwys i ymddeol yn gynnar yn gwneud hynny, mae'r Gronfa o dan rwymedigaeth gontract i fodloni rhai cyfraniadau pensiwn penodol hyd nes bod y staff hyn yn cyrraedd eu dyddiad ymddeol statudol. Darperir amcangyfrif o'r cyfraniadau hyn yn y dyfodol. Bydd taliadau yn erbyn y ddarpariaeth hon yn parhau am hyd at ddeng mlynedd.
- Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer costau diswyddo amcangyfrifedig y staff hynny y mae'r Gronfa wedi dechrau ymgynghori â hwy cyn 31 Mawrth 2015. Gwneir taliadau diswyddo'n unol â threfniadau a thelerau cytundebol a amlinellir yn nhrefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Disgwylir y bydd y mwyafrif o'r ddarpariaeth hon yn cael ei gwireddu dros y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae gan gyflogeion parhaol hawl fel rhan o'u contract i hyd at £500 wrth gael eu diswyddo, mewn perthynas â phrynu cyrsiau hyfforddi neu ddeunyddiau ar gyfer datblygu tuag at gyflogaeth yn y dyfodol. Mae hyn wedi'i ddarparu hefyd.



## 16. Rhwymedigaethau grant

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Symud rhwymedigaethau grant** | | |
| Ymrwymiadau grant a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2014 (fel a ddatganwyd yn flaenorol) | | **1,131,979** |
| Addasiad Cyfnod Blaenorol (Nodyn 29) | | 38,988 |
| Fel a ailddatganwyd | | 1,170,967 |
| Ymrwymiadau grant a wnaed | 895,795 | |
| Ymrwymiadau wedi darfod a'u diddymu | (15,800) | |
| Ymrwymiadau grant a fodlonwyd | (797,421) | |
| Symudiad net mewn rhwymedigaethau grant | | 82,574 |
| **Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2015** | | 1,253,541 |

### Dosbarthu rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ailddatganiad ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Swm sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 478,896 | – |
| Addasiad cyflwyno | – | 589,923 |
| Fel a ailddatganwyd | 478,896 | 589,923 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Croniadau (Nodyn 14) | 774,645 | – |
| Addasiad cyflwyno | – | 581,044 |
| Fel a ailddatganwyd | 774,645 | 581,044 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau grant | 1,253,541 | 1,170,967 |

**Rhwymedigaethau grant sy'n heneiddio**

Mae'r rhwymedigaethau grant ar ddiwedd y flwyddyn yn cynrychioli'r symiau sy'n ddyledus i dderbynyddion yn ystod y cyfnodau a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ailddatganiad ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Rhwymedigaethau yr ymrwymwyd i'w talu** | 478,894 | 589,923 |
| Rhwymedigaethau yr ymrwymwyd i'w talu o fewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy flynedd | 312,319 | 581,044 |
| Rhwymedigaethau yr ymrwymwyd i'w talu o fewn mwy na dwy flynedd ond llai na thair blynedd | 184,620 | |
| Rhwymedigaethau yr ymrwymwyd i'w talu o fewn mwy na thair blynedd ond llai na phedair blynedd | 112,009 | |
| Rhwymedigaethau yr ymrwymwyd i'w talu o fewn mwy na phedair blynedd ond llai na phum mlynedd | 60,562 | |
| Rhwymedigaethau yr ymrwymwyd i'w talu ar ôl mwy na phum mlynedd | 105,136 | |
| | 1,253,541 | 1,170,967 |

Mae'r balansau a ganlyn sy'n daladwy i gyrff eraill y Llywodraeth wedi'u cynnwys yn y symiau uchod.

| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ailddatganiad ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i gyrff eraill y Llywodraeth | 1,933 | 24,690 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i gyrff awdurdodau lleol | 38,065 | 48,514 |
| Grantiau yr ymrwymwyd i'w talu i fudiadau'r gwasanaeth iechyd gwladol | 2,264 | 318 |



## 17. Rhwymedigaethau Amodol

Datgelir grantiau fel rhwymedigaethau amodol os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf sydd i'w trin fel rhwymedigaethau

| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ailddatganiad ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau | | |
| Ymrwymiadau meddal (fel a ddatganwyd yn flaenorol) | | (62,849) |
| Addasiad Cyfnod Blaenorol | | 38,988 |
| Fel a gedwir o fewn rhwymedigaethau amodol | | (23,861) |
| Dyfarniadau grant a wneir gan y gronfa nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael eu trin fel rhwymedigaethau | (135,811) | - |
| Cyfanswm rhwymedigaethau grant amodol | **(135,811)** | **(23,861)** |

Nid oes unrhyw rwymedigaethau amodol eraill.

Mae'r gostyngiad mewn ymrwymiadau meddal a'r cynnydd mewn rhwymedigaethau amodol wedi dod i'r amlwg oherwydd y newid mewn polisi cyfrifyddu ar gyfer grantiau (gweler Nodiadau 1.8, 16 a 29)

## 18. Cynlluniau ar y cyd

### Parks for People

Gweinyddir y cynllun hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran yr holl bartïon i'r cytundeb. Rydym wedi cytuno i gyfrannu hyd at £136 miliwn i'r cyfanswm ariannu disgwyliedig o £322 miliwn. Mae gwerth £6.2 miliwn o ymrwymiadau grant newydd wedi'i gynnwys o fewn rhwymedigaethau grant; a rhwymedigaethau amodol o £14.4 miliwn sy'n cynrychioli ein cyfraniad at y cynllun Parks for People ar y cyd. Mae ffigur y credydwyr yn cynnwys £2.4 miliwn sy'n ddyledus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri o ran ein cyfraniad i daliadau y maent wedi'u gwneud i'n dderbynyddion grant.

## 19. Cysoni incwm a gwariant i'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| (Diffyg) ar gyfer y cyfnod | (151,154) | (220,569) |
| Dibrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar ac amorteiddio asedau anniriaethol | 2,848 | 1,834 |
| Colled ar ffurf amhariad | 991 | 1,937 |
| (Diffyg) wedi'i addasu ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | (147,315) | (216,798) |
| Gostyngiad mewn masnachu a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 3,670 | 14,593 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) yn y balans NLDF | 58,751 | (28,441) |
| Cynnydd mewn masnachu a symiau eraill sy'n daladwy | 81,525 | 244,299 |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn darpariaethau | (1,058) | 1,146 |
| (All-lif) / mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | (4,427) | 14,799 |

## 20. Risgiau ariannol

### Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 7 'Offerynnau Ariannol: Datgeliadau' ('IFRS 7') yn mynnu datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u cael yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth gyflawni'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl lawer mwy cyfyngedig wrth greu neu newid risgiau ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr na'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer y cwmnïau a restrir y mae IFRS 7 yn berthnasol iddynt yn bennaf. Nid oes gan y Gronfa Loteri Fawr y pŵer i fenthyg arian ac ni all ond fuddsoddi arian sy'n deillio o gymorth ar ffurf grantiau. Mae asedau ac atebolrwydd ariannol yn cael eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu bob dydd yn hytrach na chael eu dal i newid y risgiau sy'n wynebu'r mudiad.

Mae hyn yn golygu bod y Gronfa Loteri Fawr yn agored i ychydig iawn o risg hylifedd, marchnad neu gredyd at unwaith.

### Risgiau hylifedd

Bodlonir gofynion arian parod ar gyfer gwariant Loteri trwy dynnu i lawr yn erbyn rhagolygon wythnosol o angen o'r balansau a ddelir ar ran y Gronfa gan NLDF. Ar 31 Mawrth 2014 roedd balans y gronfa'n £383 miliwn, roedd hyn wedi gostwng i £324 miliwn erbyn 31 Mawrth 2015, a bryd hynny roedd gwerth £1,254 miliwn o ymrwymiadau grant nad oeddent wedi'u talu eto. Wrth gyllidebu ar gyfer gwariant cyfredol mae'r Gronfa'n cydbwyso'r all-lif taliadau arian parod yn erbyn ymrwymiadau grant ynghyd â rhagolygon o incwm Loteri a ddarperir gan DCMS.

Yn 2014/15, deilliodd £783 miliwn (92.5 y cant) o incwm y Gronfa o'r Loteri Genedlaethol. Deilliodd yr incwm sy'n weddill o enillion ar fuddsoddi'r balans a ddelir gyda NLDF, £3 miliwn (0.4 y cant), ynghyd â swm bach o log banc a mân incwm o £10 miliwn (1.2 y cant) ac incwm o arian cyfrifon segur o £50 miliwn (5.9 y cant).

| | £m |
|---|---|
| **Asedau hylifol ar 31 Mawrth 2015** | |
| Gwerth marchnad buddsoddiadau NLDF | 324 |
| Arian parod | 41 |
| **Cyfanswm** | 365 |
| **Rhagfynegiadau llifoedd arian yn ystod 2015/16** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 720 |
| Incwm arall | 4 |
| Taliadau costau gweithredu | (50) |
| Taliadau grant | (668) |
| **Rhagfynegiad mewnlif net** | 6 |
| **Rhagfynegiad asedau hylifol ar 31 Mawrth 2016** | 371 |

Mae'r rhagfynegiadau incwm yn seiliedig ar ragamcaniadau a ddarperir gan DCMS. Mae'r taliadau grant a ragfynegir yn seiliedig ar broffiliau tynnu i lawr disgwyliedig a gydgrynhowyd ar 31 Mawrth 2015.



### Risgiau marchnad a chyfraddau llog

Mae asedau ariannol y Gronfa wedi'u buddsoddi yn NLDF, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau isel eu risg megis bondiau llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan y Bwrdd unrhyw reolaeth dros fuddsoddi'r arian hwn. Ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, £324 miliwn oedd gwerth ein buddsoddiadau yn NLDF. Ar gyfartaledd enillodd arian NLDF 0.5 y cant yn ystod y flwyddyn. Delir y balansau arian sy'n cael ei dynnu i lawr o NLDF i dalu am ymrwymiadau grant a chostau gweithredu mewn cyfrifon banc mynediad di-oed, gyda chyfraddau llog amrywiol â chyfradd llog o 0.5 y cant yn ystod y flwyddyn. £41 miliwn oedd y balans ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn ystyried nad yw'r Gronfa'n agored i risgiau cyfraddau llog sylweddol.

| | 2014/15 £'000 | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf – Cronfa Loteri Fawr | 21,628 | 25,296 |
| Sterling ar gyfraddau llog arnawf – arian cyfrifon segur | 19,137 | 20,737 |
| Sterling ar gymysgedd o gyfraddau penodol | 324,111 | 382,862 |
| | 364,876 | 428,895 |

### Risgiau credyd

Mae symiau derbyniadwy y Gronfa Loteri Fawr yn cynnwys rhagdaliadau, yn bennaf ar lesau eiddo a balansau rhynglywodraethol. Mae'r balansau rhynglywodraethol yn bennaf gyda chyd-ddosbarthwyr y Loteri ac yr oedden oll wedi'u had-dalu neu eu cytuno erbyn adeg llofnodi'r cyfrifon. Nid yw'r Bwrdd yn ystyried bod y Gronfa'n agored i risgiau credyd sylweddol.

### Risgiau Arian Tramor

Nid yw'r Gronfa'n agored i unrhyw risgiau cyfnewid tramor.

### Asedau ariannol fesul categori

| **Asedau yn ôl y Datganiad o sefyllfa ariannol** | 2014/15 £'000 | 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau anghyfredol | 22,392 | 25,391 |
| Buddsoddiadau sydd ar werth | 324,111 | 382,862 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod – Cronfa Loteri Fawr | 21,628 | 25,296 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod – arian cyfrifon segur | 19,137 | 20,737 |
| Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy | 7,290 | 10,959 |
| | 394,558 | 465,245 |

| **Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad o sefyllfa ariannol** | 2014/15 £'000 | Ailddatganiad 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ariannol: | | |
| Rhwymedigaethau grant | 1,253,541 | 1,170,967 |
| Symiau gweithredu sy'n daladwy | 6,948 | 7,811 |
| | 1,260,489 | 1,178,778 |

### Prisiad Teg

Mae'r Bwrdd yn disgwyl i'r llyfrwerth fod o'r unfaint â'r gwerth teg ar gyfer yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol. Ar y sail:

1. Bod yr holl adneuon arian parod mewn banciau masnachol.
2. Y rheolir buddsoddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'n darparu manylion llyfrwerth a gwerth teg ein balansau ar gyfer y Bwrdd ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Mae'r enillion nas gwireddwyd ar fuddsoddiad yn cael eu hystyried trwy'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr, gan olygu llyfrwerth sy'n cyfateb i werth teg.
3. Ni phennir bod angen darpariaeth ar gyfer drwgddyled.
4. Er y datgelwn werth £775 miliwn o rwymedigaethau grant fel rhai nad ydynt yn ddyledus i gael eu talu tan ar ôl un flwyddyn, nid ydym wedi gwneud addasiad gwerth teg. Mae'r Bwrdd o dan rwymedigaeth gontract i dalu'r symiau hyn ar alw, yn amodol ar y contract, ac felly gallai'r symiau gael eu talu o fewn y 12 mis nesaf.
5. Mae'r holl eitemau sy'n daladwy yn ddyledus o fewn telerau contract arferol, ac felly nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y llyfrwerth a'r gwerth teg.

### Aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol

| Rhwymedigaethau yn ôl y Datganiad o sefyllfa ariannol | 2014/15 £'000 | Ailddatganiad 2013/14 £'000 |
|---|---|---|
| Mewn llai na blwyddyn | 1,260,489 | 1,178,778 |
| Mewn mwy na blwyddyn ond llai na dwy | – | – |
| Mewn dwy i bum mlynedd | – | – |
| Mewn mwy na phum mlynedd | – | – |
| | 1,260,489 | 1,178,778 |

Mae'r Datganiad o sefyllfa ariannol yn datgelu'r ffigur uchod wedi'i wahanu rhwng y symiau sy'n ddyledus mewn un flwyddyn ac mewn mwy nag un flwyddyn. Mae'r rhaniad hwnnw'n seiliedig ar brofiad blaenorol o symiau a dynnir i lawr gan grantïon gan nad yw ein contractau gyda grantïon yn cynnwys y cyfryw raniad.

Yn ddamcaniaethol, gallai grantïon ofyn am eu grant cyfan dros y 12 mis nesaf os cwblhawyd eu prosiectau o fewn y cyfnod hwnnw. Gan hynny rydym wedi mabwysiadu ymagwedd ochelgar ac wedi dangos bod yr holl rwymedigaethau'n aeddfedu o fewn un flwyddyn.

## 21. Ymrwymiadau ariannol

### Ymrwymiadau o dan lesau gweithredol

Rhoddir y cyfanswm isafswm taliadau prydles ar gyfer y dyfodol o dan lesau gweithredol yn y tabl isod:

| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Lesau eiddo a ddaliwn fel prydlesai:** | | |
| Ddim yn hwyrach nag 1 flwyddyn | 6,131 | 6,124 |
| Yn hwyrach nag 1 flwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | 22,600 | 23,040 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | 6,801 | 12,363 |
| | 35,532 | 41,527 |



| | Ar 31 Mawrth 2015 £'000 | Ar 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Prydlesi eiddo a ddaliwn fel prydleswr:** | | |
| Ddim yn hwyrach nag 1 flwyddyn | 1,370 | 1,370 |
| Yn hwyrach nag 1 flwyddyn a ddim yn hwyrach na 5 mlynedd | 3,998 | 4,398 |
| Yn hwyrach na 5 mlynedd | 1,196 | 2,197 |
| | 6,564 | 7,965 |

Fel y disgrifir ym mholisi cyfrifo 1.7 ni ellir rhannu lesau'n ddibynadwy rhwng tir ac adeiladau ond mae'r ddwy elfen yn lesau gweithredol.

## 22. Cynllun pensiwn

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Gall cyflogeion fod mewn un o bedwar cynllun buddiant diffiniedig; naill ai gynllun cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Trefniadau statudol heb eu hariannu yw'r rhain, gyda chost y buddiannau'n cael ei thalu gydag arian a bennir trwy bleidlais Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus a nuvos yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Gall aelodau ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth) hefyd.

Mae cyfraniadau cyflogwyr wedi'u pennu ar isafswm graddfa ar gyfer aelodau sydd â chyflogau pensiynadwy o dan £15,000 o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer classic a 3.5 y cant ar gyfer premium, classic plus a nuvos. Mae hyn yn cynyddu mewn bandiau hyd at uchafswm o 6.25 y cant ac 8.25 y cant yn ôl eu trefn ar gyfer aelodau sydd â chyflog pensiynadwy dros £60,000. Mae buddiannau'r cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. At hynny, mae cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd gychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddiannau'r cynllun premiwm yn cronni ar gyfradd o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes cyfandaliad yn awtomatig. I bob pwrpas mae Classic Plus yn gynllun cymysg, gyda buddiannau ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â classic a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n unol â premium. Yn nuvos mae aelodau'n cronni pensiynau yn seiliedig ar enillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn a enillwyd yn cael ei gredydu gyda 2.3 y cant o'u henillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun ac mae'r pensiwn a gronnir yn cael ei uwchraddio'n unol â'r CPI. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a ganiateir gan ddeddfwriaeth treth.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu ond os yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at uchafswm o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yr yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Yn 2014/15 roedd cyfraniadau cyflogwyr o £128,374 yn daladwy i'r cyfrif pensiwn partneriaeth (2013/14 £149,592).

Ceir manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2014/15, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £4,574,093 yn daladwy i PCSPS (2013/14 £4,545,429) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediadau a amlinellir isod. Dylid adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn sgil gwerthusiad llawn. Cynhaliwyd y gwerthusiad diweddaraf gan Hewitt Bacon and Woodrow ar 31 Mawrth 2012. Mae'r cyfraddau cyfrannu'n adlewyrchu'r buddiannau wrth iddynt gronni, nid pan fo'r costau'n cael eu codi, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol. Mae'r cyfraddau ar gyfer 2014/15 yn cyfateb i argymhellion gan yr Actiwari.

Ar hyn o bryd mae cyflogwyr yn talu 18.8 y cant ar gyfartaledd o gyflogau eu cyflogeion fel cyfraniad pensiwn. Mae'r union ffigur yn dibynnu ar gyflogau'r cyflogeion unigol. Mae cyfradd gyfartalog cyfraniad y cyflogwr newydd o 21.1 y cant yn debygol o gael ei phennu o 2015/16 ymlaen.

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 |
|---|---|
| £22,000 a llai | 16.7% |
| £22,001- £44,500 | 18.8% |
| £44,501 - £74,500 | 21.8% |
| £74,501 a mwy | 24.3% |

| Bandiau | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 |
|---|---|
| £21,500 a llai | 16.7% |
| £21,501- £44,500 | 18.8% |
| £44,501 - £74,500 | 21.8% |
| £74,501 a mwy | 24.3% |

Y nifer o staff y gwnaed cyfraniadau pensiwn ar eu cyfer yn 2014/15 oedd 167 Classic, 382 Premium a 452 Nuvos. Mae'r cyfanswm o 1,001 yn cynrychioli tua 90 y cant o'r cyfanswm nifer o aelodau staff parhaol a gyflogir yn ystod y flwyddyn (sy'n fwy na'r cyfartaledd a nifer gwirioneddol y staff CaALl, oherwydd trosiant staff).

Lefel ragfynedig cyfraniadau'r cyflogwr i'r PCSPS ar gyfer 2015/16, yn seiliedig ar ddyfarniad tâl 1 y cant o'i gymharu â lefelau tâl 2014/15, yw £5,183,417.

Fel cynllun amlgyflogwr heb ei ariannu sy'n gweithredu'n bennaf yn y sector cyhoeddus, mae PCSPS yn cynnal trafodaethau gyda'r Llywodraeth, Undebau Llafur ac aelodau mewn perthynas â'i sefyllfa ariannol, ei sefyllfa actiwaraidd, a lefelau tebygol o gyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr. Mewn cyffredin â phob prif gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall, mae'r tebygolrwydd o lefelau cyfraniadau cynyddol yn rhan o'r trafodaethau hyn. Mae PCSPS yn gynlluniau buddiannau diffiniedig amlgyflogwr, felly ni allwn adnabod ein cyfran o asedau neu rwymedigaethau'r cynllun.



## 23. Colledion a thaliadau arbennig

Ceir colledion pan nad oes unrhyw dystiolaeth bod amcanion prosiect a ariannwyd wedi'u cyflawni. Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2015 rydym wedi dileu colledion o £1,831,249, gan gynrychioli 184 o ddyfarniadau (2013/14 £1,635,632 gan gynrychioli 68 o ddyfarniadau). Cafwyd un dilead uwchben £100,000, y rhoddir manylion amdano isod.

Golspie Recycling and Environmental Action Network £337,974

Ceir taliadau arbennig yn yr achosion canlynol:

- Gwnaed grant yn anfwriadol i fudiad nad yw'n gyfreithiol gymwys i'w dderbyn ond lle mae'r grant o fewn bwriad cyffredinol deddfwriaeth statudol. Gwariwyd yr holl ddyfarniadau hyn ar amcanion prosiectau, yn unol ag amodau a thelerau'r grant
- Cymeradwyir taliadau ex gratia.

Yn y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2015, gwnaed 24 taliad arbennig gwerth cyfanswm o £218,557 (2013/14 £29,004 gan gynrychioli 3 dyfarniad) mewn perthynas â thrafodion grant.

## 24. Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gorff cyhoeddus anadrannol. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o noddi polisi'r Gronfa o DCMS i Swyddfa'r Cabinet ar 13 Ebrill 2011, ond mae gennym berthynas ariannol barhaus gyda DCMS, sy'n cadw cyfrifoldeb dros arian loteri. Gan hynny, mae DCMS a Swyddfa'r Cabinet wedi cael eu trin fel partïon cysylltiedig trwy gydol y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd amryw drafodion materol gyda DCMS a chyrff eraill yr ystyrir mai DCMS yw'r adran sy'n eu noddi. Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Sport England, Cyngor Celfyddydau Lloegr a'r Dosbarthwr Loteri Olympaidd.

Mae trafodion gyda DCMS yn adlewyrchu incwm a dderbyniwyd drwy Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a secondio staff i mewn. Mae trafodion gyda dosbarthwyr eraill y Loteri'n cynnwys incwm a dderbyniwyd ar gyfer rheoli Arian i Bawb a rhentu swyddfeydd. Gwnaed taliadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Sport England ar gyfer eu gwasanaethau wrth gynnal rhaglenni grantiau.

At hynny, mae gennym nifer o drafodion materol gydag adrannau a chyrff y Llywodraeth sy'n ystyried adrannau eraill y Llywodraeth fel eu hadran noddi:

- Mae Natural England a noddir gan yr Adran dros Yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn dderbynnydd dyfarniad grant
- Mae Highlands and Islands Enterprise, a noddir gan Weinidogion yr Alban, yn cyflwyno rhaglen grant ar ein rhan
- Cyllid a Thollau EM mewn perthynas â thrafodion Talu wrth Ennill a Thrafodion Yswiriant Gwladol
- Mae'r Adran Addysg wedi contractio rheolaeth y rhaglen grantiau myplace i'r Gronfa
- Mae'r Swyddfa Cymdeithas Sifil wedi contractio rheolaeth y rhaglen Community Assets a'r Transition Fund i'r Gronfa.

### Aelodau Bwrdd

Mae'r Gronfa'n glynu wrth gôd ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer aelodau Byrddau cyrff cyhoeddus. Fel mater o bolisi a gweithdrefn, mae aelodau Bwrdd yn cynnal cofrestrau buddiannau sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn datgan unrhyw fuddiannau uniongyrchol mewn ceisiadau grant a wnaed i'r Gronfa a pherthnasoedd masnachol â ni.

Pan wneir unrhyw benderfyniadau pwyllgor y gellid ystyried yn rhesymol eu bod yn achosi gwrthdaro buddiannau, yn bennaf o ran grantiau i gyrff gwirfoddol, mae cadeirydd y cyfarfod yn sicrhau bod datgeliad yn cael ei wneud ar y dechrau a bod yr aelod yn gadael am y cyfnod pan gaiff yr eitem berthnasol ei thrafod. Mae ein gweithdrefnau'n sicrhau nad yw swyddogion grantiau'n ymwneud â phrosesu ceisiadau y byddai ganddynt fuddiant ynddynt.

Mae nifer o aelodau Bwrdd wedi datgan buddiannau gyda chyrff cyhoeddus, gwirfoddol ac elusennol y mae gennym fuddiannau busnes anfaterol â nhw. Datgelir y rhain ar dudalennau 63 i 69.

## 25. Asedau trydydd parti

Mae'r asedau hyn yn cynrychioli balansau banc a ddelir ar ran trydydd partïon yr ydym yn rheoli rhaglenni grant ar eu rhan, ac Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol i wneud taliadau a brosesir gan y Gronfa o dan gytundebau lefel gwasanaeth. Nid yw'r balansau hyn wedi'u cynnwys o fewn ein cyfrifon ein hunain.

Ar 31 Mawrth 2015 cadwyd y balansau banc canlynol ar ran trydydd partïon:

| | 31/03/2014 £ | Mewnlifoedd £ | All-lifoedd £ | 31/03/2015 £ |
|---|---|---|---|---|
| Swyddfa'r Cabinet; Community Assets, Transition Fund, Advice Services Fund, Social Incubator Fund, Transforming Local Infrastructure, Local Sustainability Fund | 5,569,063 | 18,617,649 | 17,509,315 | 6,677,397 |
| Cyngor Celfyddydau Lloegr; Arian i Bawb Lloegr | 6,925 | 219 | - | 7,144 |
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri; Arian i Bawb; Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon | 3,283 | 192 | - | 3,475 |
| Sport England; Arian i Bawb Lloegr | 8,162 | 288 | - | 8,450 |
| Creative Scotland; Arian i Bawb Yr Alban | (105,320) | 4,418 | 141,169 | (242,071) |
| Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol | 541,865 | 2,002,089 | 1,897,003 | 646,951 |
| Llywodraeth Cymru; | | | | |
| Trosglwyddo Asedau Cymunedol | (24,372) | 942,756 | 916,397 | 1,987 |
| Scottish Early Intervention Fund | 252,020 | 9,548,656 | 9,621,063 | 179,613 |
| Scottish Celebrate | (444,271) | 2,859,928 | 2,306,457 | 109,200 |
| Sports Scotland; Arian i Bawb Yr Alban | (250,956) | 16,087 | 1,377,620 | (1,612,489) |
| Llywodraeth Yr Alban; Communities and Family Fund, Scottish Land Fund | 1,626,365 | 4,683,368 | 4,427,306 | 1,882,427 |
| Trysorlys EM; Cronfa Cymunedau'r Arfordir | 2,386,933 | 20,769,311 | 17,496,223 | 5,660,021 |
| Cyllid Ewropeaidd - Swyddfa'r Cabinet | - | 99,001 | - | 99,001 |



## 26. Menter ar y Cyd – Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol

Mae Uned Hyrwyddo'r Loteri Genedlaethol (NLPU) yn fenter ar y cyd rhwng Grŵp Camelot plc, dosbarthwyr y Loteri a DCMS. Sefydlwyd NLPU i gynyddu ymwybyddiaeth gadarnhaol o fuddion dosbarthu arian Loteri ar draws y DU a chefnogaeth drostynt, gan gyfrannu at iechyd cyffredinol y Loteri Genedlaethol a hyrwyddo teyrngarwch a chyfranogiad. Ariennir traean o NLPU gan Camelot a dau draean yn uniongyrchol gan NLDF. Mae'r cyfanswm gwariant wedi'i gyfyngu i £3 miliwn. Mae'n atebol i Fwrdd Rheoli sy'n cynnwys cynrychiolwyr y tri budd-ddeiliad allweddol: Camelot, y dosbarthwyr Loteri a DCMS, gyda'r Comisiwn Hapchwarae'n bresennol fel arsylwr.

Nid yw cyfran y fenter ar y cyd sy'n berthnasol i'r Gronfa wedi'i chydgrynhoi o fewn y cyfrifon cenedlaethol o ystyried ei hanfateroliaeth.

Mae mwy o wybodaeth a chyfrifon NLPU ar gael yn www.achosiondayloteri.org.uk

## 27. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2015 (2013/14 £579,452).

## 28. Asedau amodol

Mae gan ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol hawl i gyfran o dderbynebau'r dyfodol yn sgil gwerthu'r Parc Olympaidd. Mae'r hawliad hwn yn gyfnewid am y cyfraniad ariannu ychwanegol o £675 miliwn ar gyfer gemau 2012. Eglurwyd i'r dosbarthwyr loteri y byddai taliadau'n cael eu cyflawni dros y tymor hwy, o ystyried y raddfa amser 25 mlynedd ar gyfer rhaglen ddatblygu'r Parc Olympaidd a'i dibyniaeth ar berfformiad y farchnad. Yr amcangyfrif cyfredol gan DCMS yw y dylai'r taliadau ddechrau yng nghanol y 2020au, gyda'r swm cyfan yn cael ei ad-dalu erbyn 2030/31.

Fel olynydd i Gomisiwn y Mileniwm, mae gan y Gronfa hawl i gyfran o'r enillion o werthu tir ar Orynys Greenwich a wneir gan Awdurdod Llundain Fawr ar ôl i gostau penodol gael eu talu. Nid oes unrhyw daliadau wedi dod yn ddyledus, ond rhagamcanir y bydd taliadau o £87 miliwn yn cael eu derbyn rhwng 2015 a 2031.

## 29. Addasiad Cyfnod Blaenorol

Mae Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 yn gwneud darpariaeth i'r Gronfa wneud grantiau i ariannu neu gynorthwyo ariannu prosiectau a gwneud neu gychwyn trefniadau sydd wedi'u dylunio i dalu am wariant elusennol neu'n gysylltiedig ag iechyd, addysg neu'r amgylchedd fel y pennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Nodweddion allweddol y polisi 2014/15, gyda chymariaethau i 2013/14 yw:

### Egwyddorion cydnabyddiaeth

Cyfrifir dyfarniadau grant fel gwariant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ac, hyd nes y cânt eu talu, fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o rwymedigaethau yn IAS37, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, p'un a ydynt yn deillio o rwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol. Yn flaenorol, pennwyd bod dyfarniadau y penderfynwyd arnynt gan y Gronfa yr oeddent wedi'u derbyn gan y derbynnydd yn ymrwymiadau caled ac yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

Nid yw dyfarniadau grant y penderfynwyd arnynt yn ffurfiol gan y Gronfa nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o rwymedigaethau wedi'u cynnwys mewn gwariant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr neu fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ond yn cael eu datgelu fel rhwymedigaethau amodol yn Nodyn 17. Yn flaenorol, pennwyd bod dyfarniadau y penderfynwyd arnynt gan y Gronfa nad oeddent wedi'u derbyn gan y derbynnydd yn ymrwymiadau meddal a heb eu cydnabod yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

### Categoreiddio

Mae grantiau'n cael eu categoreiddio ac mae rheolau penodol yn cael eu cymhwyso i Grantiau Datblygu, Grantiau Perfformiad a Grantiau camau lluosog i ystyried, ar gyfer y categorïau grantiau hyn, pa gydrannau sy'n cael eu cydnabod fel rhwymedigaethau ar gyfer y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Mae rheolau penodol yn pennu mesur rhwymedigaethau o dan bob categori. Yn flaenorol cydnabuwyd pob ymrwymiad caled yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol dros fywyd y grant.

## Dosbarthu

Mae Rhwymedigaethau Grant ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cael eu dosbarthu'n ddarpariaethau os ydynt yn cyfateb i'r meini prawf cydnabyddiaeth yn IAS37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol, neu, os nad ydynt, yn groniadau. Yn flaenorol, dosbarthwyd pob ymrwymiad caled fel ymrwymiadau grant, heb ystyried p'un a oeddent yn ddarpariaethau neu'n groniadau.

Mae'r Gronfa wedi cymhwyso'r polisi cyfrifyddu newydd. Dangosir yr effaith isod:

| **Wedi'i feintioli a'i brosesu** | **Fel y ailddatganwyd: blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014** |
|---|---|
| Categori | £'000 |
| **Datganiad o sefyllfa ariannol** | |
| **Rhwymedigaethau amodol (Nodyn 17)** | |
| Ymrwymiadau meddal | (62,849) |
| Addasiad ymrwymiadau meddal cychwynnol | 32,301 |
| Addasiad cyfnod blaenorol | 6,687 |
| Fel y cedwir o fewn rhwymedigaethau amodol | (23,861) |
| **Croniadau (Nodyn 14)** | |
| Croniadau grant | – |
| Addasiad croniadau cychwynnol | (32,301) |
| Addasiad cyfnod blaenorol | (6,687) |
| Addasiad dosbarthu | (1,131,979) |
| Fel yr ailddatganwyd | (1,170,967) |
| **Datganiad o newidiadau mewn ecwiti** | |
| **Arian wrth gefn cyffredinol** | |
| Diffyg ar y cronfeydd wrth gefn | (683,582) |
| Addasiad cronfeydd wrth gefn cychwynnol | (32,301) |
| Addasiad cyfnod blaenorol | (6,687) |
| Fel yr ailddatganwyd | (722,570) |

## 30. Adolygiad ar ôl y fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl dyddiad y fantolen a hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon sy'n gwneud addasu'r datganiadau ariannol yn ofynnol. Dehonglir y dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.



## Memorandwm: arian cyfrifon segur

O dan Ddeddf Cyfrifon Banc a Chymdeithasau Adeiladu Segur 2008 ('y Ddeddf'), gall banciau a chymdeithasau adeiladu drosglwyddo arian o gyfrifon segur i Reclaim Fund Ltd, endid nid er elw sydd ag awdurdod i weithredu fel y gronfa hawlio'n ôl.

Mae Reclaim Fund Ltd yn trosglwyddo arian y mae wedi'i fodloni nad oes ei angen i dalu hawliadau yn y dyfodol gan berchnogion yr arian cyfrifon segur i'r Gronfa Loteri Fawr. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn dosbarthu'r arian hwnnw yn unol â'r Ddeddf a'r cyfarwyddiadau a roddir iddo gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet ('y Gweinidog') a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Dosrennir yr arian rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn unol ag offeryn statudol a gymeradwyir gan Senedd y DU.

Didynnir y costau a gafwyd gan y Gronfa a'r Gweinidog mewn perthynas â gweithredu'r cynllun yn gyffredinol cyn eu dyrannu rhwng y pedair gwlad.

Didynnir y costau a gafwyd gan y Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig mewn perthynas â'r gwledydd unigol o'r arian a ddyrennir.

Mewn perthynas â Lloegr, mae'r cyfarwyddiadau'n darparu bod yr holl arian a drosglwyddir i'r Gronfa'n cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr er mwyn cyfalafu Big Society Capital, cyfanwerthwr buddsoddi cymdeithasol. Cyn sefydlu Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr, gwnaeth y Gronfa ddyfarniadau ei hun yn unol â chyfarwyddiadau.

Mewn perthynas â'r tair gwlad arall, mae'r Gronfa'n gwneud dyfarniadau grant mewn modd tebyg i arian loteri, felly mae ymrwymiadau dros ben o ddyfarniadau grant a wnaed nad ydynt wedi cael eu tynnu i lawr gan dderbynyddion grantiau eto.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cadw arian nad yw wedi'i dynnu i lawr eto fel adneuon mewn banciau masnachol.

## Memorandwm o gyfrifon – arian cyfrifon segur

## Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | 49,520 | 83,640 |
| Llog banc a dderbyniwyd | 128 | 106 |
| **Cyfanswm incwm** | 49,648 | 83,746 |
| **Gwariant ar raglenni** | | |
| Trosglwyddiadau i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr | (41,707) | (69,897) |
| Ymrwymiadau grant eraill a wnaed | (7,730) | (9,057) |
| **Costau gweithredu** | | |
| Costau'r Gweinidog a'r gweinyddiaethau datganoledig | | – |
| Costau gweithredu eraill | (587) | (368) |
| **Cyfanswm gwariant** | (50,024) | (79,322) |
| (Diffyg)/gwarged cyn treth | (376) | 4,424 |
| Treth | – | – |
| (Diffyg)/gwarged ar ôl treth | (376) | 4,424 |
| Cyfanswm (gwariant)/ incwm cynhwysfawr | (376) | 4,424 |
| **Arian wrth gefn** | | |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2014 | 12,535 | 8,111 |
| Cyfanswm incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (376) | 4,424 |
| Dygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2015 | 12,159 | 12,535 |

## Datganiad o sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2015

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 £'000 | YBlwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 19,137 | 20,737 |
| **Cyfanswm asedau** | 19,137 | 20,737 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Masnachu a symiau eraill sy'n daladwy | (182) | (57) |
| Ymrwymiadau grant | (6,796) | (8,145) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | 12,159 | 12,535 |
| Gwarged argadwedig | 12,159 | 12,535 |



## Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl gyda dosraniad fesul Gwlad

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm £'000 | Lloegr £'000 | Yr Alban £'000 | Cymru £'000 | Gogledd Iwerddon £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 £'000 |
| Trosglwyddiadau o Reclaim Fund Ltd | 49,520 | | | | | 83,640 |
| Llog banc a llog arall sy'n dderbyniadwy | 128 | | | | | 106 |
| Cyfanswm incwm o arian cyfrifon segur | 49,648 | | | | | 83,746 |
| Costau gweithredu'r Gronfa Loteri Fawr wrth ddosbarthu incwm cyfrifon segur | (587) | | | | | (368) |
| Ar gael i'w ddyrannu i wledydd | **49,061** | | | | | **83,378** |
| Cyfran pob gwlad | | 83.9% | 8.4% | 4.9% | 2.8% | |
| Dosrannwyd i bob gwlad | 49,061 | 41,162 | 4,121 | 2,404 | 1,374 | 83,378 |
| Trosglwyddiadau i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr | (41,707) | (41,707) | – | – | – | (69,897) |
| Ymrwymiadau grant eraill a wnaed | (7,730) | – | (5,962) | (1,768) | – | (9,057) |
| **Balans arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015** | (376) | (545) | (1,841) | 636 | 1,374 | 4,424 |
| **Balans arian a ddaethpwyd ymlaen** | 12,535 | 520 | 2,080 | 4,883 | 5,052 | 8,111 |
| **Balans arian a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2015** | **12,159** | **(25)** | **239** | **5,519** | **6,426** | **12,535** |

# Adran wyth: Ein cefndir statudol

## Cyfarwyddiadau Polisi

Rhoddir y pŵer i'n hadran noddi o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 i roi Cyfarwyddiadau o ran materion sydd i'w hystyried wrth ddyfarnu grantiau.

Trosglwyddodd cyfrifoldeb dros y Gronfa Loteri Fawr, gan gynnwys pennu cyfarwyddiadau polisi, o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Swyddfa'r Cabinet ar 13 Ebrill 2011. Yn dilyn ymgynghoriad cynhwysfawr mae gennym gyfarwyddiadau polisi newydd bellach ar gyfer ein hariannu yn Lloegr, Ynys Manaw a'r DU a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2012.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cydymffurfio â'r Cyfarwyddiadau hyn ym mhob agwedd faterol trwy gydol y flwyddyn ariannol 2012/13.

## Lloegr a'r DU

**CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(1)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993 (fel y'i diwygir)**

Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir).

Trwy hyn mae'r Ysgrifennydd dros Swyddfa'r Cabinet, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddi gan adran 36E(1)(b) ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Hamdden Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 36E(5), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

## Lloegr, Ynys Manaw a'r Deyrnas Unedig

### Cyfarwyddiadau Cyffredinol

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant y Deyrnas Unedig, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu ei harian o dan adran 25(1).

A. Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir: (i) Yn sicrhau bod pobl yn cymryd rhan ac yn ymwneud â defnyddio ariannu'r Gronfa i ddarparu atebion i'r materion sydd fwyaf pwysig iddynt yn eu cymunedau;

(ii) Yn helpu i adnabod a galluogi'r rhai sy'n barod i arwain y broses o ddarparu'r atebion hyn ac yn dileu rhwystrau ar gyfer y rhai y gallai fod angen cymorth arnynt i wneud hyn; ac yn

(iii) Cefnogi atebion newydd ac arloesol ochr yn ochr â modelau sydd wedi profi eu gwerth, ac yn cynhyrchu dysgu i helpu datblygiad polisïau ac arfer y tu hwnt i ariannu'r Gronfa.

B. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n cyflawni dosbarthiad yr ariannu i ledaeniad gweddol eang o brosiectau, yn bennaf y rhai a gyflwynir gan y sector gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mudiadau newydd eu cyfansoddi, mudiadau sy'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd â'u pencadlys yn y Deyrnas Unedig y maent yn gweithio tramor.

C. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

Ch. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a gwneud grantiau, a allai gynnwys partneriaethau â darlledwyr, cyfryngau electronig, print a digidol a chyfryngau eraill.



D. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar sail angen, gan gyflwyno canlyniadau mesuradwy ac effaith ehangach ar gyfer cymunedau ac unigolion.

Dd. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i dderbynyddion i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

E. Bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

1. YMGYSYLLTU – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ar ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac mewn mentrau cymdeithasol.
2. CYNRYCHIOLAETH – dylai datblygu rhaglenni gymryd y rhai mwyaf anghenus i ystyriaeth trwy dargedu anghydraddoldeb a gwella gallu pobl a chymunedau i gyfrannu at raglenni'r Gronfa, cymryd rhan ynddynt ac elwa o'r canlyniadau a ariannwyd.
3. CYNALADWYEDD – gallu'r rhaglen i wella'r amgylchedd heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.
4. BUDDION TYMOR HWY – y gall prosiectau gyflawni dichonolrwydd a gwydnwch ariannol dros y tymor hwy.
5. YCHWANEGEDD a CHYDWEDDU – dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gydweddu ag arianwyr a phartïon eraill sy'n gweithio tuag at gyrchnodau'r Gronfa, ychwanegu gwerth atynt a bod yn unigryw iddynt.
6. GWEITHIO AR Y CYD – pan fydd hyn yn cyflawni canlyniadau gwell, dylai datblygu rhaglenni ac ariannu prosiectau gefnogi gweithredu ar y cyd rhwng mudiadau a ariennir a phartneriaid y sectorau cyhoeddus, preifat a chymdeithas sifil.

### Gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Lloegr ac Ynys Manaw, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:-

A. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun unigryw polisi a chamau gweithredu'r llywodraeth a chymdeithas sifil gan ychwanegu gwerth mewn ffyrdd priodol at yr amcan o greu cymdeithas fwy teg, rhydd a chyfrifol lle mae pawb yn chwarae rhan wrth wella'u cymuned a helpu ei gilydd.

B. Yr angen am sicrhau y caiff ariannu ei ddosbarthu i brosiectau sy'n creu buddion ar gyfer pobl a chymunedau lleol a wasanaethir gan y sector gwirfoddol a chymunedol.

C. Yr angen am sicrhau dros amser bod yr arian a ddosberthir yn ymdrin ag un neu fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn:

(i) Annog cyfranogiad cymdeithasol mewn cymunedau a dileu rhwystrau;

(ii) Cryfhau gallu mudiadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol; a

(iii) Chryfhau a chynyddu gallu'r farchnad buddsoddi cymdeithasol i gefnogi buddion cyhoeddus a gweithredu cymdeithasol.

Ch. Yr angen am ystyried:

(i) Buddion a chwmpas cymryd camau effeithiol ar gyfer Lloegr neu Ynys Manaw yn gyffredinol ac ar gyfer rhannau gwahanol o Loegr neu Ynys Manaw; a

(ii) Meintiau poblogaeth a lefelau amddifadedd economaidd a chymdeithasol cymharol mewn rhannau gwahanol o Loegr ac Ynys Manaw.

Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet

28 Mawrth 2012

## Yr Alban

### CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993

Trwy hyn mae Gweinidogion yr Alban, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddynt gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") ac ar ôl sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

### Cyfarwyddiadau Cyffredinol

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

A. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

Ch. Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

D. Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

Dd. Yr angen:

(i) ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

E. Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ddull effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

F. Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

Ff. Yr angen am wneud elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth, yn ofynnol.

G. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

Ng. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.



### Gwariant Datganoledig Yr Alban

3. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

A. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban lle bo'n briodol; cefnogi mwy o degwch yn Yr Alban wrth ddatblygu cyfleoedd i bawb ffynnu o fewn cenedl sy'n fwy llwyddiannus ac yn fwy cynaliadwy.

B. Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian i ymdrin â blaenoriaethau mynd i'r afael ag anfantais, datblygu lles ac ymdrin ag anghydraddoldeb; ac ar yr un pryd sicrhau dosbarthiad arian dros amser i ystod resymol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio tramor y mae ganddynt bencadlys yn Yr Alban.

C. Yr angen am ystyried buddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban.

Ch. Yn olaf, yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol. Y flaenoriaeth o fynd i'r afael ag anfantais a'r angen am ymdrin ag anghydraddoldeb

4. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd.

Cymunedau sy'n cydweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb.

Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl.

Pobl a chymunedau mwy iach.

5. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Yr Alban bydd y Gronfa'n ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1):

– dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ac ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector.

– sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Yr Alban yn cael cyfle i gyfrannu at genedl sy'n fwy llwyddiannus, cymryd rhan ynddi ac elwa ohoni.

– gwella amgylchedd Yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a lleihau effaith Yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

– dylai datblygu rhaglenni cydweddu â strategaethau a gweithgareddau partneriaid a budd-ddeiliaid ac ychwanegu gwerth atynt.

– lle bo'n bosib dylai canlyniadau prosiectau a rhaglenni elwa o gydweithio effeithiol rhwng mudiadau a rhwng partneriaid cyhoeddus a phreifat a'r rhai yn y trydydd sector.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Yr Alban gan John Swinney, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Thwf Cynaliadwy, aelod o Lywodraeth Yr Alban.

Gorffennaf 2009.

## Cymru

### CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993

Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygir).

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru/Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddynt/iddo gan adran 36E(4)(a) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet yn unol ag adran 36E(8)(b) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa.

### CYFARWYDDIADAU – GWARIANT DATGANOLEDIG CYMRU

Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Cymru, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian o dan Adran 25(1).

A. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n dosbarthu'r arian i ledaeniad rhesymol eang o brosiectau, yn bennaf y rhai a gyflwynir gan y trydydd sector, gan gynnwys mudiadau bach, yn ogystal â mudiadau rhanbarthol a chenedlaethol a'r mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mudiadau newydd eu cyfansoddi, mudiadau sy'n gweithredu fel mentrau cymdeithasol a mudiadau sydd â'u pencadlys yn y Deyrnas Unedig, y maent yn gweithio tramor.

B. Yr angen am weithredu o fewn cyd-destun polisi, llywodraethol, cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan sicrhau bod ariannu'n gweddu i ac yn ychwanegu gwerth at waith y Llywodraeth tra'n aros ar wahân iddi ar yr un pryd.

C. Yr angen am sicrhau bod ariannu'n cael ei ddosbarthu ar sail anghenion, gan dargedu anfantais ac anghydraddoldeb er mwyn cyflwyno gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy ar gyfer cymunedau ac unigolion sy'n cael effaith barhaus y tu hwnt i barhad ariannu'r Gronfa, ac sy'n cefnogi ymagweddau ar y cyd ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector mewn cydweithrediad ag, a chan weddu i, egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy.

Ch. Yr angen am ystyried buddiannau Cymru'n gyffredinol a rhannau gwahanol o Gymru, y meintiau poblogaeth cymharol a'r lefelau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Gymru.

D. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles cyhoeddus a chymdeithasol nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

Dd. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth bennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

E. Yr angen am hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, a sicrhau bod derbynyddion grantiau'n mabwysiadu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

F. Yr angen am sicrhau y dosberthir arian sy'n gwella amgylchedd Cymru heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol tra'n hyrwyddo ei botensial i wella ansawdd bywyd ar gyfer cymunedau ac unigolion

Ff. Yr angen am ddarparu cefnogaeth i'r sawl sy'n ymgeisio i'r Gronfa, ac i fudiadau sy'n derbyn ariannu, er mwyn gwella cyflwyno canlyniadau prosiect a'u galluogi i ddarparu atebion cadarnhaol i'r materion sydd o'r pwys mwyaf iddyn nhw a'u cymunedau.

G. Yr angen am gefnogi atebion newydd ac arloesol ochr yn ochr â modelau sydd wedi profi eu gwerth, gan gynhyrchu dysgu i helpu datblygiad polisïau ac arfer y tu hwnt i ariannu'r Gronfa Loteri Fawr.

Ng. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl ddyfarniadau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

H Yn olaf, yr angen am sicrhau bod y Gronfa'n canolbwyntio ei gwariant ar gyflawni'r canlyniadau a ganlyn dros amser:



- Mae pobl yn iach ac yn byw bywydau cynhyrchiol mewn cymdeithas ffyniannus ac arloesol
- Amgylchedd gwledig a threfol gwydn gyda defnydd mwy cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru
- Mae amodau'n cael eu cryfhau ar gyfer cymunedau mwy cryf, diogel a chydlynol, gan wella cyfiawnder cymdeithasol tra'n lliniaru effaith tlodi yn ogystal ag annog twf economaidd cynaliadwy.

## Gogledd Iwerddon

### CYFARWYDDIADAU A RODDIR I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 36E(4)(b) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993

Trwy hyn mae Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 36E(4)(b) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa") a sicrhau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn unol ag adran 36E(8) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

1. Yn y Cyfarwyddiadau hyn bydd unrhyw gyfeiriad at adran yn cyfeirio at adran yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

### Cyfarwyddiadau Cyffredinol

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

A. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) ar gyfer prosiectau sy'n hyrwyddo lles y cyhoedd ac nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B. Yr angen am sicrhau bod arian yn cael ei ddosbarthu o dan adran 25(1) i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Yr angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

Ch. Yr angen am hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy ymhellach.

D. Yr angen am bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

Dd. Yr angen: ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y grant;

(ii) os ceisir arian cyfalaf:

(a) am gynllun busnes clir gan gynnwys yr angen am sicrhau adnoddau er mwyn bodloni unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw sy'n gysylltiedig â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan ystyried maint a natur y prosiect; a

(b) sicrhau proses werthuso a rheoli prosiect ar gyfer prosiectau mawr sy'n cyd-fynd â'r rhai yn Adolygiadau Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

(iii) mewn achosion eraill, dylid ystyried argaeledd tebygol arian arall i dalu am gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau dyfarniad y Loteri, gan roi ystyriaeth i faint a natur y prosiect, ac i arian y Loteri gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

E. Y dymunoldeb o weithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ddull effeithiol o gyflwyno elfennau o strategaeth y Gronfa.

F. Yr angen am sicrhau bod gan y Gronfa wybodaeth o'r fath y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

Ff. Yr angen am wneud elfen o ariannu partneriaeth a/neu gyfraniadau mewn da o ffynonellau eraill sy'n gymesur â gallu rhesymol y gwahanol fathau o ymgeiswyr, neu ymgeiswyr mewn ardaloedd penodol, i sicrhau'r cyfryw gefnogaeth, yn ofynnol.

G. Yr angen am gynnwys amod yn yr holl grantiau i gydnabod arian y Loteri gan ddefnyddio brand cyffredin y Loteri.

Ng. Yr angen am gynnwys y cyhoedd wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a dosbarthu grantiau.

**Gwariant Datganoledig Gogledd Iwerddon**

4. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried y materion a ganlyn wrth bennu i bwy y bydd yn dosbarthu grantiau, y dibenion dros ddosbarthu grantiau, a'r amodau y dylid eu hystyried wrth i'r Gronfa ddosbarthu arian:

A. Yr angen am sicrhau bod y Gronfa, wrth ystyried ei hasesiad o anghenion ac unrhyw flaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei strategaeth, dros amser yn dosbarthu arian i ledaeniad weddol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio dramor y mae ganddynt bencadlys yng Ngogledd Iwerddon.

B. Yr angen am sicrhau dros amser bod y Gronfa'n dosbarthu arian yn rhesymol gyfartal rhwng gwariant ar/sy'n gysylltiedig â:

(i) hyrwyddo dysgu cymunedol;

(ii) hyrwyddo diogelwch a chydlyniant cymunedol; a

(iii) hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.

C. Yr angen am ystyried buddiannau Gogledd Iwerddon yn gyffredinol, buddiannau holl rannau gwahanol Gogledd Iwerddon a meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Ogledd Iwerddon.

5. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa'n ystyried yr angen am ddosbarthu Arian o dan adran 25(1) i brosiectau sydd â'r nod o gyflawni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

A. Pobl yn cael cyfle i gyflawni eu potensial llawn

B. Gall pobl gymryd rhan yn weithredol yn eu cymunedau i greu newidiadau cadarnhaol Perchnogaeth gymunedol ar amgylcheddau gwledig a threfol gwell a mwy diogel

C. Gwell iechyd corfforol a meddyliol i bawb.

6. Mewn perthynas â gwariant datganoledig Gogledd Iwerddon, bydd y Gronfa, wrth ddosbarthu arian o dan adran 25(1), yn ystyried yr angen am sicrhau bod un neu'n fwy o'r blaenoriaethau a ganlyn yn cael eu bodloni:

A. Gwella sgiliau hanfodol i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd

B. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer dysgu cymunedol

C. Adeiladu gallu cymunedau

Ch. Cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli ac ar gyfer ymgysylltu rhwng ac o fewn cymunedau

D. Adeiladu partneriaethau cymunedol a gwirfoddol/statudol

Dd. Gwella cyfleusterau, mynediad a gwasanaethau cymunedol

E. Cynyddu cyfranogiad cymunedol wrth amddiffyn, adfer a chynnal yr amgylchedd trefol a gwledig

F. Helpu unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau i wneud dewisiadau ffordd o fyw mwy iach

Ff. Hyrwyddo iechyd meddwl a lles emosiynol ar lefel unigolion a chymunedau.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon



## Cyfarwyddyd Ariannol

**CYFARWYDDYD CYFRIFON Y LOTERI A RODDWYD GAN YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DROS DDIWYLLIANT, Y CYFRYNGAU A CHWARAEON GYDA CHANIATÂD Y TRYSORLYS YN UNOL AG ADRAN 36E(3) (C) DEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL ETC. 1993 (FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF Y LOTERI GENEDLAETHOL 2006)**

1. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn paratoi cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 a blynyddoedd ariannol dilynol mewn cydymffurfiaeth ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r rhifyn o Lawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ("y FReM") a gyhoeddir gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y cyfrifon ar ei chyfer ynghyd ag unrhyw arweiniad arall y gall y Trysorlys ei gyhoeddi o bryd i'w gilydd mewn perthynas â chyfrifon y mae'n ofynnol iddynt ddarparu barn wir a theg.

2. Caiff y cyfrifon eu paratoi er mwyn:

(a) Darparu barn wir a theg o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2015 a diwedd blynyddoedd ariannol dilynol, ac o'r incwm a gwariant cynhwysfawr, llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny; ac i

(b) Ddarparu datgeliad o unrhyw wariant neu incwm materol nad yw wedi'i gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU neu drafodion materol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

(c) Dilyn y gofynion cyfrifyddu a datgelu ychwanegol a ddisgrifir yn Atodiad A.

3. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn berthnasol i weithgareddau dosbarthu Loteri'r Gronfa Loteri Fawr.

4. Heblaw amgylchiadau eithriadol, bydd cydymffurfio â gofynion y FReM yn ofynnol er mwyn i'r cyfrifon ddarparu barn wir a theg. Dylai unrhyw wyriad materol o'r FReM gael ei drafod gyda Thrysorlys EM.

Llofnodwyd trwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

## ATODIAD A

**Gofynion Cyfrifyddu a Datgelu Ychwanegol**

Mae'r paragraffau a ganlyn yn manylu'r gofynion ychwanegol y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys, yr Adran a'r Gronfa Loteri Fawr, ar ben y datgeliadau sy'n ofynnol yn y FReM.

1. Lle bo'n faterol, bydd y Datganiad Incwm/Gwariant Cynhwysfawr Net yn cynnwys y canlynol fel eitemau ar wahân:

a. y gyfran o enillion Loteri y gellir eu priodoli i'r Gronfa Loteri Fawr

b. y gyfran o incwm buddsoddi Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Loteri Fawr

c. llog sy'n dderbyniadwy ar arian loteri

ch. ad-dalu grantiau

d. unrhyw incwm arall

dd. grantiau a wnaed o arian loteri

e. grant sydd wedi darfod neu ei ddiddymu a gofnodwyd yn flaenorol fel ymrwymiadau o arian loteri

f. y cyfanswm costau gweithredu mewn perthynas â gweithgareddau dosbarthu'r Loteri Genedlaethol

2. Bydd y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cynnwys:

a. o dan y pennawd "Asedau cyfredol": wedi'i ddangos fel buddsoddiad, y balans a ddelir ar ran y Gronfa Loteri Fawr yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol;

b. Dylai grant sy'n dod yn ddyledus i gael ei dalu o fewn blwyddyn gael ei ddatgelu ar wahân o dan y pennawd "Rhwymedigaethau Cyfredol"

c. Dylai grant sy'n dod yn ddyledus i gael ei dalu ar ôl mwy na blwyddyn gael ei ddatgelu ar wahân o dan y pennawd "rhwymedigaethau anghyfredol"

3. Bydd y Datganiad Llif Arian yn defnyddio'r dull uniongyrchol wrth gyflwyno "Llif arian o Weithgareddau Gweithredu";
4. Dylai'r Nodiadau i'r Cyfrifon fodloni gofynion FReM a chynnwys:
   a. Datganiad bod y cyfrifon wedi'u paratoi ar ffurf a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chaniatâd y Trysorlys yn unol ag Adran 35(3) Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993
   b. Datganiad o'r polisïau cyfrifyddu. Mae'n rhaid i hyn gynnwys datganiad yn esbonio natur y balansau a ddelir ar ran y Gronfa Loteri Fawr yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol fel a ganlyn:

"Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Er hynny, mae cyfran y balansau hyn y gellir ei phriodoli i'r Gronfa Loteri Fawr fel yr ymddengys yn y Cyfrifon ac, ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae wedi'i hardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel arian sydd ar gael i'w ddosbarthu gan y Gronfa Loteri Fawr mewn perthynas ag ymrwymiadau presennol ac yn y dyfodol."

   c. gwerth ymrwymiadau grant ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi'u gwneud nad ydynt wedi'u cynnwys fel rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol gan nad oeddent yn cyfateb i'r meini prawf ar gyfer cael eu trin fel rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw.
   ch. Pan fydd grantiau'n fwy na'r adnoddau sydd ar gael fel yr ymddengys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, nodyn yn esbonio'r sail resymegol dros y gôr-ymrwymiad gan gymryd i ystyriaeth unrhyw gyngor a dderbyniwyd gan yr Adran fel y bo'n briodol.
   d. Nodyn yn cysoni balans agoriadol a therfynol buddsoddiadau a ddelir yn y NLDF. Dylai hyn ddatgelu enillion a dderbyniwyd gan y Loteri Genedlaethol, incwm buddsoddi, enillion a cholledion nas gwireddwyd ar fuddsoddiadau, ac arian parod a dynnwyd i lawr o'r NLDF.
   e. Dadansoddiad o'r cyfanswm rhwymedigaethau grant (cyfredol ac anghyfredol) yn y DoSA i ddangos:
   - Rhwymedigaeth a ddaethpwyd ymlaen
   - Ymrwymiadau yn y flwyddyn
   - Dadymrwymiadau
   - Ymrwymiadau a dalwyd
   - Rhwymedigaeth a ddygwyd ymlaen
   - Dadansoddiad o'r rhwymedigaeth ar gyfer bob blwyddyn hyd at a chan gynnwys 5 mlynedd a thros 5 mlynedd

## CYFARWYDDIADAU A RODDWYD I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22(3) DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 FEL Y'I DIWYGIR

Trwy hyn mae'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynir iddo gan Adran 22(3) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 (c.31) ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), yn unol ag Adran 22(7) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

Bydd y Gronfa'n dosbarthu'r rhan gyfan o gyfran Lloegr o'r arian cyfrifon segur ar ffurf grantiau nad ydynt yn ad-daladwy i Ymddiriedolaeth y Gymdeithas Fawr (rhan o'r Grŵp Big Society Capital) i'w buddsoddi yn Big Society Capital, gan weithredu fel cyfanwerthwr buddsoddiad cymdeithasol yn unol ag adran 18 Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008.

## CYFARWYDDIADAU A RODDWYD I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22(5) DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 MEWN PERTHYNAS Â GWARIANT YR ALBAN

Trwy hyn mae Gweinidogion Yr Alban, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynir iddo gan Adran 22(5)(b) Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ac ar ôl ymgynghori â'r



Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), yn unol ag Adran 22(7) y Ddeddf honno, yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

### Cyfarwyddiadau Cyffredinol

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur o dan y Ddeddf honno mewn perthynas â gwariant Yr Alban, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyffredinol a ganlyn wrth bennu'r unigolion y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau iddynt, at ba ddibenion y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau, y broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud a'r amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud dosbarthiadau oddi tanynt.
2. Mae'n rhaid i ddosbarthiadau arian cyfrifon segur;
   A. fod i brosiectau sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat;
   B. bod i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol;
   C. bod dim ond i fudiadau trydydd sector h.y. mudiadau sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion ar gyfer cymdeithas neu'r amgylchedd;
   Ch. cydbwyso'r angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd; a
   D. dylent anelu at hyrwyddo amcanion datblygiad cynaliadwy.
3. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr sicrhau bod ymgeiswyr:
   A. ym mhob achos yn dangos dichonoldeb ariannol y prosiect dros gyfnod y dosbarthiad;
   B. mewn achosion pan geisir arian cyfalaf;
   a). dangos cynllun busnes clir sy'n ymgorffori unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw mewn perthynas â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan roi sylw i faint a natur y prosiect; ac
   b). ar gyfer prosiectau mawr, dangos bod prosesau gwerthuso a rheoli'n cyfateb i Adolygiadau Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth; neu
   C. mewn achosion pan na cheisir arian cyfalaf, dangos argaeledd tebygol ffynhonnell ariannu arall i dalu unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl i arian cyfrifon segur ddod i ben, gan gymryd maint a natur y prosiect i ystyriaeth, ac i'r arian cyfrifon segur gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.
4. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr;
   A. bennu terfynau amser penodol ar y cyfnodau y mae dosbarthiadau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw;
   B. cynnwys amod yn yr holl ddosbarthiadau bod derbynyddion yn cydnabod y defnydd o arian Cyfrifon Segur, gan ddefnyddio'r brand cytunedig ar gyfer y Cynllun Cyfrifon Segur yn Yr Alban;
   C. sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol;
   Ch. gweithio gyda mudiadau eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill, pan fo hyn yn ddull effeithiol o gyflawni ei swyddogaethau ac amcanion;
   D. cynnwys y cyhoedd, pan fo'n bosib, wrth lunio polisïau, pennu blaenoriaethau a gwneud dosbarthiadau;
   Dd. gweithredu o fewn cyd-destun polisi unigryw Yr Alban, gan ychwanegu gwerth at strategaeth Gweinidogion Yr Alban pan fo'n briodol; cefnogi mwy o degwch yn Yr Alban wrth ddatblygu cyfleoedd i bawb ffynnu o fewn cenedl sy'n fwy llwyddiannus ac yn fwy cynaliadwy;
   E. sicrhau dosbarthiad arian dros amser i ystod resymol eang o dderbynyddion, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau

hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, mentrau cymdeithasol, a mudiadau sy'n gweithio tramor y mae ganddynt bencadlys yn Yr Alban;

F. rhoi ystyriaeth i fuddion Yr Alban yn gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o'r Alban a'u meintiau poblogaeth cymharol, ac i ba raddau y gellir lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o'r Alban;

Ff. sicrhau y bwriedir i brosiectau gyfrannu at gyflawni diben trosgynnol Llywodraeth Yr Alban o dwf economaidd cynyddol a chynaliadwy a hefyd un neu fwy o'r amcanion strategol a ganlyn:

- MWY CALL: Gwell cyfleoedd i bobl mewn bywyd
- MWY CRYF A MWY DIOGEL: Cymunedau sy'n cydweithio i ymdrin ag anghydraddoldeb
- MWY GWYRDD: Gwasanaethau ac amgylcheddau gwell a mwy cynaliadwy i bobl
- MWY IACH: Mae pobl a chymunedau'n fwy iach; a

G. cymryd yr egwyddorion a ganlyn i ystyriaeth:

- YMGYSYLLTU – dylai datblygu rhaglenni fod yn seiliedig ar ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid cyhoeddus a phreifat ac yn y trydydd sector.
- UNDOD A CHYDLYNIANT - sicrhau bod unigolion a chymunedau ledled Yr Alban yn cael cyfle i gyfrannu at genedl sy'n fwy llwyddiannus, cymryd rhan ynddi ac elwa ohoni.
- CYNALADWYEDD – gwella amgylchedd Yr Alban heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a lleihau effaith Yr Alban ar yr amgylchedd byd-eang.

## Cyfarwyddiadau Penodol

5. Cyn gweithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mewn perthynas â gwariant Yr Alban, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddyd penodol a ganlyn wrth bennu'r unigolion i bwy y dylai'r Gronfa wneud dosbarthiadau ac at ba ddibenion y dylai'r Gronfa wneud y dosbarthiadau hynny:

A. Mae'n rhaid i'r Gronfa gynhyrchu asesiad effaith seiliedig ar dystiolaeth o ddosbarthu'r arian cyfrifon segur yn unol â chyfyngiadau wedi'u rhagnodi a bennir gan Orchymyn Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur (Yr Alban) 2010 ac yn unol ag un o'r opsiynau a ganlyn:

- Opsiwn 1: Cefnogi 4 thema bolisi fras: byddai angen i'r Gronfa sicrhau bod dosbarthiad yr arian wedi'i ddyrannu'n rhesymol i gefnogi 4 thema bolisi fras:
- Cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy fwy o weithgareddau;
- Cryfhau gweithgareddau rhwng y cenedlaethau; a
- Chreu cyfleoedd cyflogaeth mewn cymunedau.
- Opsiwn 2: Dyrannu 50%, 67% neu 100% o'r arian cychwynnol i'w drosglwyddo gan y Gronfa Loteri Fawr i ymddiriedolaeth â gwaddol. Yna byddai gweddill yr arian yn cael ei ddosbarthu gan y Gronfa i gefnogi'r 4 thema bolisi eang.



## CYFARWYDDIADAU A RODDWYD I'R GRONFA LOTERI FAWR O DAN ADRAN 22 DEDDF CYFRIFON BANC A CHYMDEITHAS ADEILADU SEGUR 2008 MEWN PERTHYNAS Â GWARIANT CYMRU

Trwy hyn mae Gweinidogion Cymru, wrth weithredu'r pwerau a gyflwynir iddynt gan Adran 22 Deddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 ac ar ôl ymgynghori â'r Gronfa Loteri Fawr ("y Gronfa"), yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Gronfa:

### Cyfarwyddiadau Cyffredinol

1. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mewn perthynas â gwariant Cymru, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyffredinol a ganlyn wrth bennu'r unigolion y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau iddynt, at ba ddibenion y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau, y broses a ddefnyddir i bennu pa daliadau i'w gwneud a'r amodau a thelerau y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau oddi tanynt:

A. Mae'n rhaid i arian cyfrifon segur gael ei ddosbarthu i brosiectau sy'n hyrwyddo budd cyhoeddus nad ydynt wedi'u bwriadu'n bennaf er elw preifat.

B. Mae'n rhaid dosbarthu arian cyfrifon segur i brosiectau sy'n gwneud gwelliannau gwirioneddol a chynaliadwy i ansawdd bywyd cymunedau lleol.

C. Mae'n rhaid i arian cyfrifon segur gael ei ddosbarthu'n bennaf i fudiadau 'trydydd sector' h.y. mudiadau sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion ar gyfer cymdeithas neu'r amgylchedd. Yn eithriadol, gall arian gael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill pan fydd prosiect yn ymwneud â phartneriaeth neu gonsortiwm, ac mae'r corff statudol yn gweithredu fel cydlynydd.

Ch. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur gydbwyso'r angen am annog arloesedd wedi'i gydbwyso gyda'r angen am reoli risg mewn modd sy'n gymesur â'r math o brosiect ac ymgeisydd.

D. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, gan gynnwys gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Dd. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur hyrwyddo amcanion datblygu cynaliadwy.

E. Mae'n rhaid i ddosbarthiad arian cyfrifon segur bennu cyfyngiadau amser penodol ar y cyfnodau y mae grantiau'n daladwy, boed hynny ar gyfer gwariant cyfalaf neu refeniw.

F. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa sicrhau:

i). ym mhob achos, i'r ymgeiswyr ddangos dichonoldeb ariannol y prosiect ar gyfer cyfnod y grant;

ii). os ceisir arian cyfalaf:

a). bod ymgeiswyr yn dangos cynllun busnes clir sy'n ymgorffori unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw mewn perthynas â phob prosiect am gyfnod rhesymol, gan roi sylw i faint a natur y prosiect; a

b). bod ymgeiswyr yn dangos, ar gyfer prosiectau mawr, bod prosesau gwerthuso a rheoli'n cyfateb i Adolygiadau Porth Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

iii). pan na cheisir arian cyfalaf, bod ymgeiswyr yn dangos argaeledd tebygol ffynhonnell ariannu arall i dalu unrhyw gostau parhaus am gyfnod rhesymol ar ôl i arian cyfrifon segur ddod i ben, gan gymryd maint a natur y prosiect i ystyriaeth, ac i'r arian cyfrifon segur gael ei ddefnyddio i gynorthwyo cynnydd tuag at ddichonoldeb pryd bynnag y bo'n bosib.

Ff. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa weithio gyda mudiadau eraill pan fydd hyn yn ddull effeithiol o gyflwyno elfennau o'i chynllun strategol (gweler para' 4).

G. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa sicrhau bod ganddi'r cyfryw wybodaeth y mae'n ei hystyried yn angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar bob cais, gan gynnwys cyngor arbenigol annibynnol pan fo hynny'n ofynnol.

Ng. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa gynnwys amod yn yr holl grantiau bod grantïon yn cydnabod y defnydd o arian Cyfrifon Segur, gan ddefnyddio brand cytunedig y Cynllun Cyfrifon Segur ar gyfer Cymru.

H. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar ganlyniadau, gan gydweithio'n agos â phartneriaid priodol i gyflawni'r patrwm buddsoddi gorau er budd cymunedau ledled Cymru.

I. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa ystyried yr asesiad o anghenion a blaenoriaethau y mae wedi'u hadnabod yn ei chynllun strategol a chyflawni dosbarthiad arian i ledaeniad rhesymol eang o dderbynyddion dros amser, gan gynnwys mudiadau bach, y mudiadau hynny sy'n gweithredu ar lefel leol yn unig, a mentrau cymdeithasol.

L. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa roi ystyriaeth i fuddion Cymru'n gyffredinol, buddion rhannau gwahanol o Gymru, meintiau poblogaeth cymharol a'r cwmpas ar gyfer lleihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol mewn rhannau gwahanol o Gymru.

**Cyfarwyddiadau Penodol**

2. Wrth weithredu unrhyw un o'i swyddogaethau wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mewn perthynas â gwariant Cymru, mae'n rhaid i'r Gronfa gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau penodol a ganlyn wrth bennu'r unigolion y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau iddynt ac at ba ddibenion y mae'r Gronfa'n gwneud grantiau:

A. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa weithredu'n unol â'r cyfyngiadau rhagnodedig sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Cyfrifon Banc a Chymdeithas Adeiladu Segur 2008 (Cyfyngiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2010 ac yn unol â'r themâu a ganlyn:

- 'Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial llawn gan weithio trwy'r trydydd sector i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol'; a
- 'Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach trwy weithgareddau cymunedol â ffocws'.

B. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr weithredu'n unol â'r is-themâu a ganlyn:

Cefnogi plant a phobl ifanc

- Cyfarparu pobl ifanc gyda'r sgiliau a'r cymwyseddau y mae eu hangen arnynt i gyflawni eu potensial mewn perthynas â chyflogadwyedd a buddion ehangach; yn benodol trwy ymdrin ag anghenion pobl ifanc sy'n NEET (heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant).

Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach

- Datblygu ymagwedd gynhwysol a arweinir gan gymunedau i ymdrin ag achosion newid yn yr hinsawdd ac/neu adeiladu gwydnwch i'w effeithiau, gyda'r nod o annog newid mewn ymddygiad a chyda'r potensial i gael ei gyflwyno mewn rhannau eraill o Gymru.

C. Wrth ddosbarthu arian cyfrifon segur mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr ystyried y buddion ehangach y gallai ceisiadau eu cynnig, o ran:

(i) eu potensial i wneud i'r adnoddau fynd ymhellach, ar ffurf cyfraniadau o ffynonellau eraill, e.e. arian cyfatebol

(ii) eu cyfraniad at bolisïau a strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- y Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth; 'Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru: Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' (Y Cynllun NEET); 'Dyfodol Teg i'n Plant': y strategaeth tlodi plant; y fframwaith 'Llwybrau Dysgu' 14-19 oed ar gyfer darpariaeth ddysgu pobl ifanc; y polisi 'Ymestyn Hawliau' ar gyfer gwasanaethau cefnogi ieuenctid; Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol; Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan; y fenter cyfleoedd gyrfaol 'Cyrraedd y Nod'.
- 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', y Cynllun Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru; Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd.

**Cynllun Strategol**

3 Fel y darperir ar ei gyfer o dan Ran 1 Atodlen 3 y Ddeddf, bydd y Gronfa'n paratoi ac yn mabwysiadu cynllun strategol ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur i gyflawni gwariant Cymru er mwyn egluro polisïau'r Gronfa ar gyfer dosbarthu arian cyfrifon segur ac ar gyfer blaenoriaethu ceisiadau

**Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2015**
Ffotograffiaeth: David Charlton, The Fitting Room, Livity Ltd, Caroline Mardon, Brian Morrison, Lucy Pope, Nic Treharne.

Copïau pellach ar gael gan:
Ein gwefan cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 0345 4 10 20 30
Cyfnewid Testun 18001 plws 0345 4 10 20 30
(ar gyfer pobl sydd â nam ar y clyw neu'r lleferydd).

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

ISBN 978-1-4741-1891-0